**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Y GYFROL GOFNODION

## COFNODION PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR A GYNHALIWYD YN Y CYFNOD YN ARWAIN AT 10 RHAGFYR 2015

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

# Y GYFROL GOFNODION

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys cofnodion y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau canlynol:


| | | |
|---|---|---|
| **(A)** | **Y CYNGOR** | **Tudalen** |
| (1) | Cyngor a gynhaliwyd ar 8/10/15 | 1-9 |
| **(B)** | **Y CABINET** | |
| (1) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 6/10/15 | 10-11 |
| (2) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 3/11/15 | 12 - 13 |
| (3) | Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 24/11/15 | 14 - 17 |
| **(C)** | **PWYLLGORAU CRAFFU** | |
| (1) | Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 17/11/15 | 18 - 23 |
| (2) | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a gynhaliwyd ar 22/9/15 | 24 – 34 |
| **(CH)** | **PWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL** | |
| (1) | Cyfarfod Blynyddol y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 8/9/15 | 35 – 38 |
| (2) | Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 8/9/15 | 39 - 41 |
| (3) | Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 10/11/15 | 42 – 45 |
| (4) | Pwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 14/9/15 | 46 |
| (5) | Pwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 3/11/15 | 47 – 48 |
| (6) | Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14/9/15 | 49 – 52 |
| (7) | Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24/9/15 | 53 - 57 |
| (8) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 28/9/15 | 58 - 70 |
| (9) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 19/10/15 | 71 – 94 |
| (10) | Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 9/11/15 | 95 - 110 |
| (11) | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 29/9/15 | 111 – 116 |
| (12) | Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 5/10/15 | 117 - 119 |
| (13) | Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 22/10/15 | 120 - 124 |

# Y CYNGOR 8/10/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Endaf Cooke, Annwen Daniels, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Christopher O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Llyr Beaumont Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Anthony Williams (Swyddog Perfformiad) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:-** Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lesley Day, Gweno Glyn, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Eric Merfyn Jones, Beth Lawton, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Linda Morgan, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Peter Read a Mike Stevens.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2015 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen - Taflen Benderfyniad Brys Aelod Cabinet - oherwydd ei fod yn rheolwr ar gwmni yng Nghaernarfon all gael buddiant o'r cynnig dan sylw.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 13(B) ar y rhaglen – Rhybudd o gynnig y Cynghorydd Ioan Thomas, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd W.Tudor Owen – oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Gisda.
- Y Cynghorydd Siân Gwenllian – oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Rheoli Gisda.
- Y Cynghorydd Gwen Griffith – oherwydd ei bod yn Gadeirydd Mantell Gwynedd.
- Y Cynghorydd Linda Wyn Jones – oherwydd ei bod yn aelod o Gwmni Seren.

‘Roedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Cyfeiriwyd at farwolaeth ddisymwth y Cynghorydd Bob Wright fu’n cynrychioli Ward De Pwllheli ar y Cyngor hwn ers 2008, a chyn hynny yn aelod o Gyngor Dosbarth Dwyfor am sawl blwyddyn cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Darllenodd y Cadeirydd deyrnged iddo a baratowyd gan y Cynghorydd Peter Read, a chydymdeimlwyd â’r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Robin Llyr Evans, 20 oed o Lanbedrog, a fu farw yn dilyn damwain erchyll yn Tsieina.

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio hefyd am bawb o fewn cymunedau’r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Gwellhad Buan

Dymunwyd gwellhad buan i’r Cynghorydd Linda Morgan oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd ac hefyd i’r Cynghorwyr Peter Read a Louise Hughes yn dilyn anhwylder diweddar.

(3) Dymuniadau Gorau

Estynnwyd dymuniadau gorau i’r cyn-gynghorwyr Eddie Dogan a Llywarch Bowen Jones, oedd wedi gorfod rhoi’r gorau i’w gwaith fel cynghorwyr oherwydd afiechyd.

‘Roedd Eddie Dogan wedi gwasanaethu llywodraeth leol ers dros ddeugain mlynedd gan ddechrau gyda’r hen Gyngor Gwyrfai a bu wedyn yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Arfon cyn cael ei ethol i gynrychioli Ward Dewi ar y Cyngor hwn yn 1996. Bu hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor am 43 o flynyddoedd. ‘Roedd Llywarch Bowen Jones wedi’i ethol i gynrychioli Ward Llanaelhaearn yn 2012 a bu yntau’n aelod gwerthfawr o’r Cyngor hwn.

Nodwyd y gwelid colled fawr ar eu holau ac ‘roedd y Cyngor am anfon eu dymuniadau gorau, ynghyd â’u diolchiadau, at y ddau.

Nodwyd bod cynlluniau ar waith i gynnal isetholiadau Dewi a Llanaelhaearn ar 19 Tachwedd ac isetholiad De Pwllheli ar 26 Tachwedd.

Dymunwyd yn dda i’r Cynghorydd Roy Owen a’r teulu yn dilyn y digwyddiadau diweddar a nodwyd hefyd bod meddyliau pawb gyda’r Cynghorydd Eric Merfyn Jones a’r teulu.

(4) Croeso

Croesawyd y Cynghorydd Sian Hughes, yr aelod newydd dros Ward Morfa Nefyn, i’w chyfarfod cyntaf o’r Cyngor.

(5) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Elfyn Evans ar sicrhau'r canlyniad gorau erioed i Gymro mewn Pencampwriaeth Rali'r Byd. Llwyddodd Elfyn Evans i ddod yn ail yn y Tour de Corse, sef rownd Ffrengig Pencampwriaeth Rali'r Byd FIA eleni a dymunwyd bob llwyddiant iddo yn Rali Cymru Prydain Fawr ar 12-15 Tachwedd.

Llongyfarchwyd y Tîm Cenedlaethol am wneud mor dda yng nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd a dymunwyd yn dda iddynt yn eu gêm yn erbyn Awstralia ddydd Sadwrn nesaf. Dymunwyd yn dda hefyd i'r Tîm Pêl-droed Cenedlaethol sy'n chwarae gêm allweddol yn rowndiau rhagbrofol Euro 2016 yn erbyn Bosnia-Herzegovina nos Sadwrn a nodwyd bod y Cyngor yn ymfalchïo yn llwyddiant yr aelodau hynny o'r ddwy garfan sydd â chysylltiad agos â Gwynedd.

(6) Nodyn

Nodwyd bod cynigion drafft y Panel Annibynnol ar Gyflogau a Threuliau Aelodau i law ac y bwriedid cylchredeg y ddogfen trwy Rhaeadr gan wahodd yr aelodau i gynnig sylwadau.

## 4. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Beth yw barn yr Arweinydd ar wastraffu arian cyhoeddus gydag ymgynghorwyr allanol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Arweinydd i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae'n debyg ein bod i gyd yn y Siambr yn gallu datgan nad ydym yn awyddus i weld gwastraffu arian cyhoeddus ym mha bynnag sefyllfa. 'Rwy'n credu bod gwaith gennym i gyd i sicrhau bod unrhyw wariant cyhoeddus yn digwydd yn y ffordd fwyaf priodol a mwyaf effeithlon. Fel mae'r ateb yn amlinellu mae yna le bob amser i holi a stilio a chraffu ar wariant y Cyngor ac yn wir dyna ydi gwaith y pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Archwilio ac mae'r Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu gwneud darn o waith i edrych ar wariant gydag ymgynghorwyr allanol a daw'r adroddiad yna gerbron yr aelodau maes o law. Nid wyf yn rhagdybio beth fydd canlyniad y gwaith hwnnw ond 'rydw i wedi dweud bod yna le i ni gomisiynu gwaith gan gyrff allanol ac asiantaethau allanol i'n cynorthwyo yn y broses. Yr enghreifftiau 'rwy'n meddwl amdanynt yw lle mae'r Cyngor yn ceisio creu newid. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni gael rhywun hyd braich i fod ynghanol y gwaith hwnnw ac i ni beidio bod yn ddwy ochr y ddadl ar yr un pryd. Nid yw hynny'n bosib'. Mae angen cael presenoldeb pobl annibynnol yn y sefyllfa yna er tegwch i bawb, ac ynghlwm â hynny, wrth gwrs, mae yna wariant. Gadewch i ni weld beth fydd ffrwyth gwaith y gweithgor sy'n edrych ar hwn."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Mae'r Arweinydd yn dweud yn ei ymateb ysgrifenedig, os nad yw'r sgiliau arbenigol neu gapasiti angenrheidiol i'w gael o fewn y Cyngor, y byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr allanol. 'Rwy'n meddwl bod hynny'n reit sarhaus. Mae gennym 7000 o staff yn gweithio i Gyngor Gwynedd ac 'rwy'n credu bod yna sgiliau ffantastig yn y Cyngor yma i ddelio gyda'r gwaith sydd angen ei wneud gan yr ymgynghorwyr allanol yma. Ydi'r Arweinydd yn barod i ymddiheuro am wastraffu arian cyhoeddus?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

"Nid sarhaus yw cydnabod nad oes gennym y sgiliau i gyd bob amser. Onid realiti'r sefyllfa ydi hynny? Nid ydym i gyd yn arbenigwyr ar bob dim. Mae yna sefyllfaoedd lle 'rydym

angen cymorth a chyngor arbenigol. Onid y peth cyfrifol i wneud yn y sefyllfa yna ydi sicrhau ein bod yn cael cyngor priodol annibynnol ac addas. Yn wir, oni bai ein bod yn gwneud hynny, mae yna le i ni gael ein herio. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru ar ein pennau ac mi fyddai yna sefyllfaoedd lle gallem gael ein herio. Mae yna fymryn bach o realiti hefyd, sef wrth i ni leihau'r gweithlu, nid oes gennym y capasiti i wneud pob dim. Mae'n amhosibl. Nid oes yna ddigon o oriau yn y dydd i wneud pob dim ac mae hynny yn isgynnyrch o wynebu toriadau sy'n golygu ein bod yn lleihau niferoedd staff. Ar fater gwariant cyhoeddus, nid wyf o blaid gwastraffu arian, boed hynny ar yr aelwyd neu unrhyw sefydliad cyhoeddus, a rhaid i ni gadw llygaid barcud. Os ydych eisiau edrych ar wariant cyhoeddus, a mater i bawb ddod i gasgliad ynglŷn ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw, ewch i wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae nodyn yno o beth mae pob corff cyhoeddus wedi'i wario ar ymgynghorwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario miliynau ar ymgynghorwyr. Nid wy'n dweud mai gwastraff arian ydi hynny, ond tynnu eich sylw at yr angen i gyrff cyhoeddus wario arian y tu allan i'r corff yna. Nid wy'n mynd i ymddiheuro am unrhyw beth mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gwariant. Gadewch i ni edrych ar yr adroddiad sy'n mynd i edrych yn fanwl ar wariant ar ymgynghorwyr yn benodol. Gadewch i ni ddod i gasgliadau bryd hynny. Sut allwn ni ddod i gasgliad ynglŷn â phatrwm gwariant y Cyngor heb i ni weld y ffeithiau? Mae'n rhyfeddod gen i fod aelod yn gallu sefyll yn y Siambr a gwneud datganiad fel yna pan mae ef ei hun yn aelod o'r pwyllgor sydd wedi comisiynu'r gwaith! Oedd yr aelod yn bresennol yn y pwyllgor pan wnaed y penderfyniad i gomisiynu'r gwaith? Efallai nad oedd o ddim - na doedd o ddim! Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu'r gwaith a gadewch i ni weld casgliad y gwaith yna cyn dod i unrhyw gasgliadau. Mae gwneud unrhyw beth arall yn wallgofrwydd llwyr, os caf fentro dweud."

**5. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014/15, a'i fabwysiadu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014/15, a'i fabwysiadu.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiadau blynyddol y tri phwyllgor craffu ar gyfer 2014/15 ynghyd â'u rhaglenni gwaith ar gyfer 2015/16.

<u>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</u>

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cynghorydd Dyfrig Jones, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15, gan ddiolch i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Jason Humphreys, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

<u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>

Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, manylodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15, gan ddiolch i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Read a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Beth Lawton, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at lwyth gwaith hynod o drwm y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a nodwyd yr angen i adolygu'r Cyfansoddiad fel bod y tri phwyllgor craffu yn rhannu'r

gwaith yn decach. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol fod y drefn bresennol yn seiliedig ar fodel a orfodwyd ar y Cyngor yn dilyn yr etholiad diwethaf ac y byddai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn cefnogi ymgais i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau craffu.

- Holwyd a oedd yr Arweinydd a'r Cabinet yn talu digon o sylw i argymhellion y pwyllgorau craffu? Awgrymwyd bod yr aelod yn codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r Arweinydd a'r Cabinet. Nodwyd ymhellach nad oedd y pwyllgor craffu yn cael gwybod faint o weithiau mae'r Cabinet yn derbyn / gwrthod eu hargymhellion.
- Canmolwyd y prosiect Vanguard yn Ysbyty Alltwen a mynegwyd dymuniad i weld adroddiad gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn hysbysu pobl Gwynedd o lwyddiant y peilot.
- Nodwyd bod y pwyllgor craffu wedi holi droeon faint o arian sy'n cael ei wario ar ymgynghorwyr, ond heb gael ymateb.

<u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u>

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Angela Russell, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15 gan ddiolch i'r Is-gadeiryddion yn ystod y flwyddyn, y Cynghorwyr Mandy Williams-Davies a Caerwyn Roberts, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Diolchodd yr Arweinydd i gadeiryddion, is-gadeiryddion ac aelodau'r tri phwyllgor craffu am eu holl waith gan nodi bod yr adroddiad yn amlygu'n glir pa bynciau gafodd eu craffu, beth oedd diben y craffu a beth sydd wedi digwydd i'r argymhellion yn deillio o hynny.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2014/15**

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r Cyngor i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2014/15.

Manylodd Dr Einir Young ar brif bwrpas y pwyllgor o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref Gwynedd gan gyfeirio at aelodaeth y pwyllgor a'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014/15. Diolchodd i Gwilym Ellis Evans, fu'n Gadeirydd y pwyllgor am 10 mlynedd, am ei waith diwyd a'i ymroddiad ac hefyd i Sam Soysa, fu'n Is-gadeirydd, cyn i'w gyfnod ar y pwyllgor ddod i ben. Diolchodd hefyd i'r Swyddog Monitro a'r swyddogion eraill sy'n rhoi cefnogaeth i'r pwyllgor.

Diolchwyd i Dr Einir Young am gyflwyno'r adroddiad.

**8. YMGYNGHORIAD I'R CYFARWYDDIADAU DRAFFT GAN LYWODRAETH Cymru I'R ADOLYGIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Tom Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn nodi, fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y mater ynghyd â barn y pwyllgor ar y newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017.

Mynegodd aelod ddiffyg hyder yn yr holl broses ar y sail bod cynnig llwgrwobr i gynghorwyr o flwyddyn ychwanegol heb unrhyw fandad ac ar dâl llawn yn dangos pa mor isel mae'r broses wedi disgyn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyflwyno'r sylwadau ar gynnwys y Cyfarwyddiadau Drafft i'r Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu crynhoi yn Atodiad A i'r cofnodion hyn.**

**(b) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddatgan y farn y byddai'n anaddas gweithredu'r newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.**

**9. TAFLEN BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi adroddiad er gwybodaeth yn nodi y cyflwynwyd taflen benderfyniad Aelod Cabinet ynghylch Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor a Chaernarfon Arfaethedig - Pleidleisiau Cyngor Gwynedd fel penderfyniad brys yn unol â rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad fel na fyddai'r drefn galw i mewn yn berthnasol yn yr achos hwn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau. Nododd fod y drefn yma'n caniatáu gwneud penderfyniad gyda chydsyniad Cadeirydd y Cyngor, ond 'roedd yn ofynnol adrodd ar hynny i'r Cyngor nesaf. Derbyniwyd cytundeb y Cadeirydd fod y mater dan sylw yn un brys a bod y penderfyniad a gynigid yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Croesawyd y ffaith bod y cynllun yn ei le a diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei gwaith.
- Nodwyd bod y Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu bod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth fusnes i gyd er mwyn ei fuddsoddi'n lleol ac awgrymwyd cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn am gyflwyno'r un amodau yng Nghymru. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid i bwyllgor craffu edrych ar hyn yn gyntaf er mwyn gweld a fyddai trefn o'r fath yng Nghymru yn arwain at fudd i Wynedd neu beidio.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**10. RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd.

**"Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i gefnogi cais i ysgrifennu at John Penrose, AS i ofyn am newid yn y ddeddf i ganiatáu i ni sy'n dymuno adnabod ein hunain fel Cymry yn hytrach nag fel Prydeinwyr ar Gofrestr Etholiadol, pasborts, ac unrhyw ddogfennaeth swyddogol arall berthnasol.**

**Yn ddiweddar, anfonwyd Ffurflen Ymholiad Etholiadol i bob cartref yng Ngwynedd. Un o'r pethau sy'n cael ei gofrestru ar y Ffurflen yw cenedligrwydd, ond nid oes hawl gan Gymro/ Gymraes i gofnodi ei hun fel Cymro / Cymraes. Anfonir y Ffurflen gan ein Cyngor i bob cartref yng Ngwynedd, ac er bod y Cyngor â chyfrifoldeb am weinyddu'r Gofrestr Etholiadau yng Ngwynedd, mae'n gyfundrefn sy'n gweithredu trefn statudol ar gyfer cynnal etholiadau. Rhaid dilyn y gyfundrefn ar gyfer cynnal y gofrestr etholiadol er mwyn sicrhau hawliau dinasyddion Gwynedd i bleidleisio.**

**Nid Gwynedd sy'n gyfrifol am y gyfundrefn. Nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gyfundrefn. Os am newid y drefn, rhaid cysylltu efo John Penrose, AS, chwip y Llywodraeth yn San Steffan, Comisiynydd yr Arglwydd o Drysorlys ei Mawrhydi ac Ysgrifennydd Seneddol (Gweinidog ar gyfer Diwygio Cyfansoddiadol).**

**Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i gefnogi hawl Cymry i alw eu hunain yn Gymry. Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i ddatgan cefnogaeth i ni, fel Cyngor Gwynedd, ysgrifennu at John Penrose i newid y ddeddf."**

Cefnogwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Ioan Thomas, dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd.

**"Bod Cyngor Gwynedd yn:-**

**(1) Cydnabod ac yn cefnogi'r gwaith da y mae Gwynedd wedi ei wneud o ran darparu ystod o lety a / neu wasanaethau cefnogi i bobl ddiamddiffyn i'w helpu i gynnal neu adennill eu lle yn y gymuned yng Ngwynedd.**

**(2) Cefnogi parhad rhaglen ataliol Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo a chefnogi pobl ddiamddiffyn a phobl ar yr ymylon i fyw'n annibynnol a chydag urddas yn eu cymunedau drwy ddarparu cefnogaeth gyda thai a gwasanaethau'r Cyngor.**

**(3) Galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r grant Cefnogi Pobl, yn hytrach na'i leihau ymhellach.**

**(4) Cefnogi ymgyrch ar y cyd Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru, "Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl", i ddiogelu'r grant Cefnogi Pobl.**

**(5) Gwahodd Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol Cynulliad Cymru i gefnogi'r cynnig hwn."**

Cefnogwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(c) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Alun Cairns, AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Wyn Williams i'r cyfarfod diwethaf ynghylch datganoli pwerau Ystâd y Goron.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr â siomedigaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.30pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

***Atodiad A***

***Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?***

**Na. Mae'r gymhareb yn gwbl anaddas ar gyfer ardal wledig a gwasgaredig. Ar hyn o bryd, mae cymhareb bresennol Gwynedd fel sir yn 1,089 gyda wardiau Gwynedd yn cynnwys rhwng 480 a 2,428 gyda'r ddau ward mwyaf yn rhai 2 aelod.**

**Mae ymagwedd sydd yn defnyddio cymhareb syml o ran y nifer o etholwyr yn codi pryder. Nid yw hynny'n rhoi unrhyw gydnabyddiaeth i'r llwyth gwaith sydd yn codi i gynghorwyr lleol yn sgil myfyrwyr sydd heb gofrestru fel etholwyr, poblogaeth dymhorol, yn sgil y diwydiant ymwelwyr a thai haf.**

**Mae hefyd yn mynd yn gwbl groes i gyfeiriad Llywodraeth Cymru a oedd, yn ei ddogfen ymgynghorol "Diwygio Llywodraeth Leol - Grym i Bobl Leol" yn son am bwysigrwydd "Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau". Mae'n anodd gweld sut y gall cynghorwyr ymdopi â'r rôl heriol hon ar ben eu cyfrifoldebau sefydliadol fel aelodau pwyllgor ayb os byddant yn gwasanaethu etholaethau mor fawr.**

**Pe byddai symudiad o'r fath yn digwydd, byddai'n rhaid symud i drefn o gynghorwyr llawn-amser er mwyn medru ysgwyddo'r llwyth gwaith.**

***Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?***

**Mae angen isafswm ar gyfer democratiaeth effeithiol ond mae'r math o ffigurau a nodir yn llawer rhy isel. O fewn system Cabinet, gydag angen tua 10 aelod ar gabinet, mae gadael gweddill gwaith y Cyngor (Craffu, Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ayb) i nifer mor fychan o gynghorwyr yn gosod pwysau gwaith afresymol arnynt. Dylai'r isafswm aelodau fod yn o leiaf 45-50 aelod**

**Mae'r sylwadau uchod ar sail barn am lwyth gwaith y cynghorau presennol. Byddai hynny'n amlwg yn cynyddu'n arwyddocaol yn dilyn ad-drefnu mewn meysydd fel Cynllunio a Thrwyddedu, gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau fyddai angen sylw.**

**Y mater arall i'w ystyried yw y gallai dyraniad seddau i grwpiau gwleidyddol fod yn fwy cymhleth ar gynghorau gyda niferoedd llai. Gallai fod yn fwy anodd llenwi seddau a gallai'r baich ar nifer fechan o gynghorwyr gynyddu.**

***Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?***

**Dylid, fel yr esboniwyd yn yr ateb i gwestiwn 2. Dylai'r Cyfarwyddiadau Drafft gydnabod anghenion llywodraethu rhedeg cyngor modern. Fodd bynnag, unwaith mae hynny wedi digwydd, dylid edrych ar bob cyngor ar wahân gan ystyried amgylchiadau pob cyngor yn unigol. Rhaid ystyried pellteroedd teithio (ar gyfer teithio i gyfarfodydd yn ogystal â theithio at etholwyr o fewn y ward) yn ogystal â'r angen i gael wardiau sydd yn adlewyrchu cymunedau naturiol.**

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?***

**Mae'n siŵr bod rhyw synnwyr mewn cael cap ond dylai hynny adlewyrchu'r ardal ar gyfer cyngor unigol.**

***Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?***

**Na. Mae natur wardiau unigol, hyd yn oed oddi fewn i ardaloedd cynghorau unigol mor amrywiol. O ganlyniad nid yw'n synhwyrol gwneud hynny. Mae'n gwbl briodol cael amrediad i ddibenion gwaith y Comisiwn Ffiniau ond byddai'n rhaid i'r Comisiwn gael y rhyddid i eithrio rhag hyn os yw natur cymuned naturiol yn golygu nad yw'n synhwyrol ei gynnwys gydag ardal arall.**

**Ar bwynt cysylltiol, argymhellir y dylid ceisio osgoi wardiau aml-aelod gan fod cael un aelod i ward yn symleiddio pethau i drigolion a chynghorwyr.**

***Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?***

**Dyma ddylai fod yn brif ystyriaethau a dylent fod yn ddylanwadol iawn. Os yw cynghorau i adlewyrchu eu hardaloedd yn iawn, dylai holl nodweddion yr ardal (poblogaeth, pellteroedd teithio, natur cymunedau naturiol ayb) gael effaith ar y penderfyniad**

***Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?***

**Cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin.**

# CABINET Y CYNGOR 6/10/15

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Medi 2015.

**6. LLYS YNADON DOLGELLAU – YMATEB I'R YMGYNGHORIAD LLYSOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Argymell bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig o fewn y ddogfen ymgynghorol i gau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau, gan nodi hefyd pe byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw presenoldeb yn Nolgellau efallai y byddai modd cydweithio i sicrhau lleoliad priodol ar gyfer darpariaeth Gwasanaeth Cyfiawnder yn ardal Dolgellau.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo’r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i’r cyfarfod, gan ychwanegu:

- eitem i drafod y trefniadau cyswllt rhwng y Cabinet a Phwyllgorau Craffu.
- eitem i drafod y cyswllt rhwng cynrychiolwyr y Cyngor ar Gyrff Allanol a’r Cabinet

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o’r gloch a daeth i ben am 1.30pm.

______________________________
**CADEIRYDD**

# CABINET Y CYNGOR 3/11/15

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (AME), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dyfrig Siencyn ac Iwan Trefor Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd bod ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i Wasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2015.

**6. GWASANAETH LLYFRGELL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Gohirio'r penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd.

**7. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 – MEYSYDD AMGYLCHEDD, AMDDIFADEDD, ECONOMI A CHYMUNED, A IECHYD, GOFAL A LLES**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod, gan ddiolch i staff y Cyngor am gynnal lefelau perfformiad.

Gweithredu ar y canlynol –

- Cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd er mwyn amlygu'r pryderon recriwtio fel ag y nodir yng nghymal 4.3 o'r adroddiad, a cheisio datrysiad.
- Parhau i geisio darganfod dulliau o wella perfformiad, gan ganolbwyntio ar ganfod datrysiadau ar gyfer meysydd ble nad ydi'r Cyngor yn llwyddo i ateb gofynion pobl Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.35pm.

____________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET Y CYNGOR 24/11/15

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.
Y Cynghorydd John Pughe Roberts – eitemau 7-9.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Gareth Thomas, Cyng. W Roy Owen a'r Cyng. Gethin Glyn Williams.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cywirwyd y cofnodion a gyflwynwyd gyda phapurau'r cyfarfod i nodi presenoldeb swyddog, ac yna llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2015.

**6. GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.
Eiliwyd gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNIAD**

Yn dilyn y broses ymgynghori, derbyn y newidiadau a nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a bwrw ‘mlaen i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd.

Dirprwyo hawl i Bennaeth Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet dros Rheoleiddio, Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i wneud unrhyw fan addasiadau o fewn y strategaeth sydd eu hangen i’r cynllun er cwblhau y gorchymyn.

Cynnwys meysydd parcio staff y Cyngor yn y Gorchymyn Parcio er mwyn gallu rheoli cam ddefnydd ac agweddau iechyd a diogelwch yn fwy effeithlon.

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o’r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo’r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.8 o’r adroddiad, sef:

- cynnydd £965,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth,
- cynnydd £3,278,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd £154,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd £300,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- lleihad £17,000 mewn defnydd o’r gronfa gyfalaf,
- cynnydd £847,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu,
- trosglwyddo £200,000 rhwng cynllun Llyfrgell Bala a chynllun Ysgolion dalgylch y Berwyn.

## 8. CYLLIDEB REFENIW 2015/16 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o’r Gyllideb Refeniw, ac wedi ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gofyn i’r Aelodau Cabinet a’r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu arweiniad/rheolaeth.

Nodi'r amrywiol adolygiadau o drefniadau crybwyllwyd yn yr adroddiad a’r camau i’w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

Wedi ystyriaeth o’r sefyllfa, cymeradwyo, yn benodol, yr addasiadau a throsglwyddiadau argymhellwyd mewn perthynas â’r Adrannau Addysg, Economi a Chymuned, Rheoleiddio a Chyllidebau Corfforaethol.

**9. STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y diweddariad a'r crynodeb o Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 a pharhau gyda'r cynllun ymateb cyfredol, 'Her Gwynedd', ar gyfer 2016/17 – 2017/18, gan ddatgan:

a) Bod Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r toriadau yn ei dyraniad grant sy'n cael ei orfodi ar y Cyngor gan Lywodraethau San Steffan a Chymru.
b) Y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwireddu ei chyfrifoldeb statudol i gytuno ar gyllideb gytbwys rhag iddi, yn y pen draw, redeg allan o arian a methu talu ei gweithwyr a'i chyflenwyr.

**10. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 – MEYSYDD PLANT A PHOBL IFANC, DIOGELU, Y GYMRAEG, CYNGOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON, A CHYNLLUNIO ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod.

**11. 'EICH GWASANAETHAU CHI, EICH DEWISIADAU CHI' – YMGYNGHORIAD GAN YR AWDURDOD TÂN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad drwy groesawu'r bwriad i gyfyngu ar wariant yr Awdurdod Tân dros y tair mlynedd nesaf, ond gan bryderu na dderbyniwyd tystiolaeth ariannol ynglŷn a gallu'r awdurdod i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac yn tynnu sylw at effaith hynny ar allu'r Cabinet i graffu yr Ymgynghoriad.

Gofyn am ystyriaeth i gyfundrefn graffu rhanbarthol gael ei sefydlu er mwyn craffu gwerth am arian a geir gan yr Awdurdod Tân.

**12. ADRODDIAD AR WAITH PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS, A'R POLISI CORFFORAETHOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.
Eiliwyd gan y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn ac W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (Atodiad 1).

Cymeradwyo'r Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus sydd wedi ei adolygu a'i ddiweddaru (Atodiad 2).

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.50pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 17/9/15

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Angela Russell (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Caerwyn Roberts (Is Gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eric M Jones, Dilwyn Morgan, W Tudor Owen, Mike Stevens, Gruffydd Williams ac Eurig Wyn

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Ffrancon Williams (Prif Weithredwr CCG), Llinos Iorwerth (Pennaeth Cyfathrebu CCG), Gethin Armstrong (Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer CCG) ac Enid Roberts (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid a Chymunedau CCG)

ii) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Cynghorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd a Mr Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)

iii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Rheoleiddio) a Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu)

iv) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Cynghorydd Ioan Thomas – Aelod Cabinet Tai), Arwel W Owen (Uwch Reolwr Tai), Catrin Roberts (Swyddog Strategol Datblygu Tai)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Davies, Louise Hughes, Linda Morgan, Robert J Wright.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Mai 2015 fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Adroddwyd bod trafodaethau am bresenoldeb un o gynrychiolwyr Plaid Cymru ar yr Awdurdod Tân wedi eu cynnal.

**5. CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD**

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) 2014 - 2015. Cyfeiriwyd at y Cytundeb Trosglwyddo a nodwyd bod yn ofynnol iddynt nodi sut maent wedi gwireddu'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig a gweithredu goblygiadau dan y Cytundeb Trosglwyddo. Tynnwyd sylw at rai materion penodol:

- Bod 167 (98.8%) o'r addewidion o fewn y Ddogfen Gynnig "Eich Cartref, Eich Dewis" wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus, ers diwedd mis Mawrth 2015. Nodwyd bod CCG yn parhau i roi blaenoriaeth i swyddi lleol gan sicrhau bod y gwariant yn cael ei gylchdroi. Ar ddiwedd Mawrth 2015 roedd 257 yn cael eu cyflogi ar raglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaeth. Wrth i lif gwaith a rhaglen gwella SATC dynnu tua'r terfyn, nodwyd bod lefelau staffio Darparwyr Gwasanaeth yn gostwng ac o ganlyniad ffigyrau nifer prentisiaid a hyfforddeion yn lleihau.

- CCG wedi ennill gwobr Partneriaeth a Mentergarwch Cymdeithas Penseiri Ymgynghorol (2013), a gwobr am Gyfraniad Arbennig yn y Gwobrwyon Caffael Cenedlaethol (2014). Yn dilyn hynny, maent wedi derbyn canmoliaeth am y modd y mae busnesau lleol a phobl leol wedi cael budd o'r swyddi a'r prentisiaethau sydd wedi eu creu. Yn 2015, derbyniwyd gwobr gan Caffael Cenedlaethol Cymru.

- Ers bodolaeth CCG a hyd at Fawrth 2015, mae 180 o brosiectau cymunedol wedi derbyn budd o grantiau (cyfanswm £975,699) drwy Gronfa Budd Cymunedol CCG gyda buddsoddiad ychwanegol o £5.6M wedi ei ddiogelu drwy arian cydgyfeirio.

- Bod pwyslais CCG yn newid. Dros y pum mlynedd diwethaf y pwyslais oedd sicrhau bod stoc y gymdeithas yn cydymffurfio a’r safon ac mae hyn yn parhau yn ymrwymiad clir. Erbyn hyn, mae cyfeiriad y busnes yn newid a lluniwyd Cynllun Corfforaethol 2015/20 yn amlinellu strategaeth a dyheadau am y pum mlynedd nesaf. Bydd mesurau lles yn gwasgu ar denantiaid a rhaid rhoi ystyriaeth ar y ddarpariaeth fydd yn cael ei gynnig.

- Y busnes yn parhau i dyfu er mwyn sicrhau hyfywedd tymor hir - datblygiadau newydd ym Maesgeirchen a Phwllheli ynghyd â chyrraedd targed i ddarparu tai fforddiadwy ac ymchwilio i ffynonellau incwm newydd. Er bydd y gwariant yn lleihau o’r flwyddyn yma ymlaen, bydd CCG yn parhau i fuddsoddi a chylchdroi arian o fewn y Sir.

- Elfennau cydweithio gyda chwmnïoedd mawr a threfniadau is-gontractio yn codi rhai pryderon, ond CCG yn parhau i weithio drwy hyn.

- Parhau i ymgynghori gyda thenantiaid i gynnwys cwsmeriaid ym mhopeth maent yn wneud.

- O ganlyniad i’r newid pwyslais, y berthynas gyda’r Cyngor, o safbwynt monitro yn newid.

(b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

i. Llongyfarchwyd CCG ar eu llwyddiant o dderbyn gwobr Caffael Cenedlaethol Cymru ac ar eu hadroddiad positif. Diolchwyd iddynt am lwyddiant y gronfa gymunedol a’u parodrwydd i wella stadau cymysg eu heiddo.

ii. Cymeradwywyd datblygiadau o’r newydd, ond angen sicrhau mwy o unedau ar gyfer pobl hŷn ac unedau un llofft. Mewn ymateb nodwyd bod CCG yn ymwybodol o gynnydd yn nifer pobl hŷn ac o’r ystadegau clir sydd tystiolaethu’r pwyslais ar gadw pobl hŷn yn eu cartrefi - y mater eisoes wedi ei drafod yn y Bartneriaeth Tai ac felly'r cymdeithasau tai yn cydweithio i ymateb i’r galw a sicrhau bod y datblygiadau yn y llefydd cywir.

iii. Dirywiad safonau ceginau, er enghraifft yn debygol o ddod gyda'i gilydd ac felly rhagweld y bydd angen buddsoddiad pellach ymhen rhyw bymtheg mlynedd. Mewn ymateb nodwyd bod ystyriaeth wedi roi i hyn yn y cynllun busnes.

iv. Cais i gryfhau cyswllt yr aelodau lleol, Cyngor Bro gyda’r wardeniaid lleol o ran rhannu gwybodaeth. Mewn ymateb nodwyd bod y Protocol Aelodau Etholedig yn sicrhau llif gwybodaeth i un cyfeiriad gyda phob ymholiad ac ymateb yn cael ei gofnodi yn briodol. Dywedwyd bod sefydlu un pwynt cyswllt yn rhoi agwedd broffesiynol i’r drefn. O ran cysylltu gyda wardeniaid, amlygwyd nad oedd hyn yn effeithiol gan fod y warden yn dueddol o fod allan yn y maes drwy’r dydd. Amlygwyd hefyd bod Pencampwr Aelodau wedi ei benodi yn bwrpasol i rannu gwybodaeth. Ategwyd yr aelodau bod y protocol aelodau yn effeithiol a llongyfarchwyd Gethin a’r tîm am eu gwybodaeth a’u hymatebion amserol.

v. O ran gwerthiant tai nodwyd bod y cyfartaledd wedi gostwng i rhwng 5 – 7 tŷ yn cael eu gwerthu yn flynyddol. Nodwyd bod gan y Llywodraeth fwriad i ostwng y disgownt o £16,000 i £8,000 fydd yn gwneud y broses yn llai deniadol i’r tenant. Mae’r fenter ‘Hawl i Brynu’ yn parhau gyda chyfnod cymhwyso o fod wedi byw yn yr eiddo am ddwy flynedd cyn gwneud cais. Yn ôl Llywodraeth San Steffan, mae’n ddymuniad, ar gyfer pob tŷ sydd yn cael ei werthu, dylai un gael ei adeiladu yn ei le, ond ymddengys bod gan Llywodraeth Cymru ymrwymiad cadarn i waredu’r prosiect ‘Hawl i Brynu’.

vi. Wrth ymateb i gais gan Aelod am wybodaeth i rannu gyda thenantiaid yng nghyd-destun pwy sydd yn cael blaenoriaeth, nodwyd bod ceisiadau yn cael eu rheoli gan y Tîm Opsiynau Tai gyda chydweithio da gyda’r Gwasanaethau Tai. Amlygwyd hefyd bod rhaid parchu Diogelwch Gwybodaeth ac felly ni ellir rhannu gwybodaeth am denantiaid. Gwerthfawrogwyd y gwaith roedd aelodau yn ei wneud i liniaru sefyllfaoedd.

vii. Mewn ymateb i sylw yn nodi siom fod CCG wedi penodi dau uwch Swyddog di-gymraeg a’r drwg deimlad roedd wedi ei greu, amlygwyd nad oedd yn benderfyniad hawdd. Nodwyd bod problemau recriwtio a’u bod wedi ceisio ymateb i’r sefyllfa. Mae gwaith CCG at y Gymraeg yn parhau, ond fel busnes rhaid sicrhau bod y bobl iawn yn y swyddi iawn ac felly hyn yn flaenoriaeth.

viii. Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwella trefniadau cydweithio o ran sefyllfa Tai Gwag, nodwyd bod tai gwag yn broblem ariannol i CCG ac felly os gall aelodau lleol gefnogi CCG drwy hyrwyddo tai gwag buasent yn ddiolchgar iawn.

ix. O ran perchnogaeth tiroedd, amlygwyd y buasai CCG yn cysylltu gydag aelodau unigol

x. O ran newid perthynas, amlygwyd y buasai’r aelodau yn hoff o weld y berthynas yn parhau rhwng y Cyngor a CCG gan fod cydweithio yn llesol. Gwnaed awgrym cychwynnol y buasai modd cynnal trafodaeth flynyddol yn y Pwyllgor Craffu Cymunedol i drafod / craffu gwaith yr holl gymdeithas tai sydd yn darparu cartrefi yng Ngwynedd.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i’r drafodaeth ac i gynrychiolwyr Cartrefi Cymunedol Gwynedd am fynychu’r cyfarfod. Derbyniwyd yr adroddiad.

## 6. DEFNYDD O HAWLIAU GORFODAETH

a) Cyflwynwyd briff cychwynnol ar gyfer Ymchwiliad Craffu i'r defnydd o hawliau gorfodaeth stryd. Amlygwyd bod Gwasanaeth Stryd Cyngor Gwynedd yn dîm cymharol fychan yn gweithio o fewn cyllideb net o £300k. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ar sicrhau amgylchedd glan a diogel, gweithredu polisïau ar graffiti, nodwyddau a lanteri, monitro perfformiad glendid strydoedd a chynnal a chynorthwyo mewn ystod o ymgyrchoedd perthnasol. Bydd yr ymchwiliad craffu yn rhedeg am gyfnod o chwe mis gyda'r bwriad o lunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet.

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y broblem baw ci yn un amlwg i'r dyn ar y stryd, ond rhaid cofio nad ymchwiliad i faw cŵn yn unig sydd yma - rhaid ystyried y briff yn ei gyfanrwydd.
- Angen sicrhau bod pob ardal yn y Sir yn cael sylw ac nid y mannau prysur yn unig
- Nid yw'r ymchwiliad yn edrych i graffu gwaith yr adran, ond i gefnogi gwaith yr adran ac i geisio ehangu sgôp y gwaith y mae'r adran yn wneud.
- Biniau amlbwrpas yn cael eu treialu yn Nhywyn - llwyddiannus iawn ond angen codi ymwybyddiaeth
- Angen hyfforddiant a chyhoeddusrwydd pendant a phenodol
- Angen cadarnhad o drefniadau'r gwasanaeth – pwy sydd yn casglu? Pwy sydd yn gosod y biniau?
- Angen ystyried gwm cnoi – posib yma cydweithio gydag ysgolion.

c) **PENDERFYNWYD** derbyn y briff ac enwebu'r Aelodau canlynol i wasanaethu ar yr ymchwiliad. Y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Mike Stevens, Tudor Owen, Annwen Hughes, Annwen Daniels ac Angela Russell i wasanaethu ar yr ymchwiliad.

## 7. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn ymateb i ddau bryder ymysg Cynghorwyr a'r cyhoedd o'r drefn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Y pryder cyntaf oedd trefniadau mewnol y Cyngor wrth ymdrin ag asesiadau ardrawiad ieithyddol mewn pwyllgorau cynllunio. Roedd yr ail bryder yn un ehangach ynglŷn â statws yr iaith Gymraeg yn y Gyfundrefn Cynllunio.

Adroddwyd bod y mater cyntaf, yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio a'r Cynghorydd Elwyn Edwards, wedi ei ddatrys gyda dolen ar y rhaglen yn cyfeirio ymlaen at y cynlluniau perthnasol ar wybodaeth gefndirol.

b) O ran statws yr Iaith Gymraeg yn y Drefn Cynllunio (Lefel lleol a Chenedlaethol), amlygwyd bod bwriad rhaglennu eitem bwrpasol ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar y 17eg o Dachwedd i drafod yn llawn. Wrth ystyried meysydd ar gyfer y drafodaeth cyflwynwyd sylwadau cychwynnol gyda chais i'r aelodau ychwanegu atynt.;

- Gosod y cyd-destun statudol o ran y Bil Cynllunio ac ati
- Egluro'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (TAN 20)
- Egluro'r Polisi Cynllunio Lleol Cyfredol (Y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg)
- Egluro sut mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y cyd-destun polisi cyfredol
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Drafft)

- Egluro sut, yng nghyd-destun gofynion TAN 20, y bydd gofyn i ni ddelio gyda'r Iaith Gymraeg wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu a sut mae'r Gwasanaeth yn ceisio ymateb i hyn.

c) Mewn ymateb i'r sylwadau cychwynnol i gynnal y drafodaeth, amlygodd y swyddogion Cynllunio;

- yng nghyd-destun TAN 20, bod canllawiau drafft newydd ar gyfer asesiadau ieithyddol a chymunedol, ond nad oedd bwriad eu gweithredu tan yr etholiad nesaf - y pwyllgor Cynllunio felly yn parhau gyda'r polisïau cyfredol
- Bod arolygwyr apêl yn arbenigo mewn meysydd cynllunio perthnasol ac nid yn y Gymraeg yn unig
- Bod Cyngor Gwynedd yn mynd tu hwnt i'r angen yng nghyd destun canllawiau.

ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Derbyn bod y ddolen yn syniad da ac effeithiol
- Angen diffiniad o'r term 'Cyfarwyddyd Cynllunio'
- Rhaid sicrhau bod yr asesiad iaith yn cael ei gyfarch gan swyddogion priodol – angen i'r arolygaeth gael ei gwblhau gan swyddogion sydd yn deall y sefyllfaoedd cymunedol ac ieithyddol
- Carl Sargeant yn annog ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, pam felly na ellir rhoi ystyriaeth i'r Iaith Gymraeg cyn yr etholiad

**PENDERFYNWYD derbyn bod y trefniadau o ran papurau Pwyllgor Cynllunio wedi gwella'n ddigonol a chytuno i geisio adroddiad i gyfarfod nesaf y pwyllgor fel yr amlinellwyd, ond ychwanegu'r elfennau canlynol iddo;**

- **Canllawiau asesiadau iaith a pwy sydd yn eu gweithredu**
- **Cyfarch rôl arolygaeth cynllunio**
- **Angen diffiniad o'r term 'Cyfarwyddyd Cynllunio'**

**8. CYFLWYNO ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU DIGARTREFEDD**

a) Cyflwynwyd adroddiad yr ymchwiliad craffu Digartrefedd i'r Aelod Cabinet Ioan Thomas. Atgoffwyd pawb gan gadeirydd yr ymchwiliad, y Cynghorydd Eric Jones, beth oedd cefndir y briff a rhoddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed. Profwyd bod yr ymchwiliad wedi bod yn hynod o werthfawr, yn agoriad llygad i faes heriol ac anodd sydd yn ymdrin ag unigolion a theuluoedd ar draws y gymuned. Amlinellwyd bod gwaith ardderchog yn cael ei weithredu, ond adnabuwyd argymhellion lle ystyriwyd lle i wella. Nodwyd nad oedd hyn yn feirniadaeth o'r swyddogion sydd yn y maes, ond yn fater y gall rhai addasiadau wella'r ddarpariaeth. Diolchwyd i aelodau'r ymchwiliad am eu hymrwymiad, i 'r Cynghorydd Stephen Churchman am fynychu pob ymweliad hostel er mwyn sicrhau cysondeb barn ac i'r swyddogion am eu gwaith, yn arbennig i Susan Griffith (Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol) a Catrin Roberts (Swyddog Strategol Datblygu Tai).

b) Ategodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r aelodau am eu hymroddiad i'r ymchwiliad oedd wedi cyflenwi rôl craffu werthfawr i faes heriol. Amlinellwyd, yr her ariannol ac felly anodd derbyn pob argymhelliad, ond y gobaith oedd gweithredu'r mwyafrif ohonynt. Ategodd, yr Uwch Reolwr Tai ei werthfawrogiad am y gwaith a'r trosolwg gwerthfawr a roddwyd i'r maes. Amlygodd bod rhai argymhellion eisoes wedi eu gwireddu neu wedi eu blaenoriaethu (gyda chyfyngiadau ariannol i eraill). Anogwyd pob aelod i ymweld â Hostel.

c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Pwysig cydweithio i gael y gorau i'r Digartrefedd - mae'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu yn hanfodol
- Rhaid sicrhau ymyrraeth gynnar a chanolbwyntio ar wasanaeth ataliol
- Llongyfarchwyd yr adroddiad a gwnaed cais am ddiweddariad ymhen 6 - 9 mis

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, mabwysiadu'r argymhellion ynddo a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6 – 9 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 12:05pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 22/9/15

**Yn bresennol**:
Yn y sesiwn bore

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Anwen J. Davies, Alan Jones Evans, E. Selwyn Griffiths, Chris Hughes, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ann Williams, Eirwyn Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 4, 5, 6 a 7 isod**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg

**Ar gyfer Eitem 4 isod**
Gwern ap Rhisiart, Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg

**Yn bresennol :**
Yn sesiwn y prynhawn 'roedd:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Anwen J. Davies, E. Selwyn Griffiths, Siân Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ann Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd
Aled Davies, Pennaeth Dros Dro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Caryl Elin Lewis, Rheolwr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth
Bethan Eluned Jones, Swyddog Comisiynu
Emyr Edwards, Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans (p.m.), Alwyn Gruffydd (p.m.), Sian Wyn Hughes (a.m.), Linda Ann Wyn Jones (p.m.), Siôn Wyn Jones, W. Tudor Owen, Peter Read, Neil Foden (Undeb Athrawon) a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) - (a.m./p.m.).

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Estynnwyd croeso i'r canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu hwn:

Y Cynghorwyr Anwen Davies, Sian Wyn Hughes ac R H Wyn Williams.

(b) Dymunwyd gwellhad buan i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn, Y Cynghorydd Peter Read, ac edrychwyd ymlaen at ei weld yn ôl ymhlith yr Aelodau yn fuan.

(c) Cyfeiriwyd at farwolaeth sydyn ac annisgwyl y Cynghorydd Robert J. Wright, Aelod dros Ward De Pwllheli, ac y byddai colled enfawr ar ei ôl. Gofynnwyd i bawb oedd yn bresennol sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at ei deulu yn eu colled drist.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn Eitem 5 – Cynllun Trac oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith wedi ei phenodi fel rhan o weithlu'r cynllun ond ni fyddai'n gadael y Siambr gan nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2015.

**4. CYNLLUN TRAC**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amlinellu cefndir y cynllun uchod sy'n cael ei arwain gan y chwe awdurdod lleol ar gyfer darparu'r sgiliau a'r gefnogaeth addas i ddisgyblion a phobl ifanc mwyaf bregus y Sir.

(b) Eglurwyd mai Cyngor Sir Dinbych sy'n arwain parthed rheolaeth a monitro cynllun busnes rhanbarthol a'i fe'i cyllidir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop gyda'r bwriad i gychwyn y cynllun Medi 2015 hyd at Awst 2018 gyda phosibilrwydd i'w ymestyn hyd at Awst 2020. Esboniwyd mai nod y cynllun fydd "mabwysiadu dull weithredu o adnabod disgyblion bregus yn gynnar ac ymateb i'w anghenion trwy ddarparu cwricwlwm a chefnogaeth addas ar eu cyfer".

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd yr Aelod Cabinet Addysg a'r swyddogion iddynt fel a ganlyn:

- Mai 8 o swyddi fydd yn rhan o'r cynllun gyda'r Rheolwr eisoes wedi ei phenodi i gychwyn mis Tachwedd. Eglurwyd y bydd 6 o'r swyddi yn rhai gweithredol gyda dwy ohonynt o dan y teitl Gweithwyr Cymdeithasol Addysg a fydd yn gallu gweithio gyda theuluoedd a phlant i oresgyn rhwystrau sydd ddim yn cyfarfod â meini prawf anghenion Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y 4 swydd arall yn canolbwyntio ar bresenoldeb, gweithiwr ieuenctid yn ysbrydoli plant a phobl ifanc i ennill achrediadau a gweithiwr chwaraeon a fyddai'n rhan o dîm a fyddai'n targedu anghenion y bobl ifanc ac yn eu cefnogi i barhau mewn addysg wedi iddynt ymadael o ysgolion
- Bod arian cyfatebol yn cael ei gyfrannu o'r gwasanaeth sydd eisoes yn yr ysgolion o ran strategaeth cynhwysiad, cefnogi plant yn y prif lif, gwasanaeth lles a'r gwasanaeth cynnal ymddygiad canolog.
- Byddir yn targedu plant o Flwyddyn 7 i fyny ac yn gallu perchnogi disgyblion ar hyd y daith addysgol ac yn arbennig y gwaith pontio yn 16 oed a fydd yn gymorth i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gyrfaoedd ynghynt.

- Cadarnhawyd mai 480 o ddisgyblion o Wynedd yw'r nifer o gyfranogwyr sydd mewn risg ac esboniwyd yr adnabuwyd hwy drwy'r fframwaith ymgysylltu
- O safbwynt cymwysterau, pwysleisiwyd y byddai'r swyddogion perthnasol yn weithredol gyda'r plant yn ddyddiol ac yn ychwanegol bod hyfforddiant gyda nifer eang o gyrsiau ar gael iddynt ar gyfer cyflogaeth
- Bod nifer o blant sydd yn dadrithio yn is yng Ngwynedd o ran y ganran NEET (Not in Education, Employment or Training) sef oddeutu 7-8% ond eglurwyd y byddai'r cynllun Trac yn cyfarch anghenion y plant wedi iddynt fod mewn Colegau ac yn methu cael cyflogaeth
- O safbwynt goblygiadau hyfforddiant i staff ysgol, esboniwyd y gwelir bod staff ysgolion yn hyddysg iawn yn y meysydd dan sylw ond o dan bwysau cynyddol ac y byddai'r cynllun hwn yn ysgafnhau baich ysgolion drwy gael swyddog i weithio am gyfnod estynedig ar y cyd gyda phlant. Ni ragwelir y bydd gofyn hyfforddi staff ysgolion na ychwaith bod pwysau ychwanegol arnynt.
- Bod canran sylweddol o blant sydd yn dadrithio ar y rhestr anghenion addysgol ychwanegol a bod carfan o blant gydag ymddygiad dwys a thrwy'r cynllun bod modd mynd i'r rafael â'r problemau yn gynnar.
- Bod cryfhau'r cyswllt gyda Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o dan ystyriaeth ar hyn o bryd a bod y nifer sy'n agored i'r Gwasanaeth uchod wedi gostwng yn sylweddol yn genedlaethol ac nad oedd yr Adran wedi buddsoddi cymaint ag yn y gorffennol. Hyderir, drwy'r cynllun Trac, y gellir lleihau'r disgyblion sydd yn troseddu a'u cadw i fyw a ffynnu yn lleol.
- O safbwynt cysylltu gyda chyflogwyr lleol, esboniwyd bod anghenion yr hyfforddiant wedi ei ddatblygu ar lefel 6 awdurdod y Gogledd a bod ystod eang o gyrsiau cyffredinol wedi eu rhoi mewn lle ac nad oedd hyfforddiant ar gyfer meysydd arbenigol. Fodd bynnag, gellir rhoi ystyriaeth bellach i'r fframwaith hyfforddi ac y byddai modd cynnal trafodaethau gyda mwy o gyflogwyr lleol o'u hanghenion.
- Bod llithriad o ran derbyn y grant ond hyderir y byddir yn symud ymlaen yn fuan gyda dyraniad yr arian.
- O safbwynt pwyso a mesur gwasanaeth statudol yn erbyn anstatudol, gellir dadlau o wneud buddsoddiad yn gynnar y byddir yn arbed arian yn y tymor hir.
- Y byddai'r Paneli Mynediad Ardal yn gweithredu ar lefel ardaloedd ac yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau a'r math o wasanaethau a gynigir. Byddai'r Paneli yn cynnwys gweithwyr y cynllun Trac ynghyd â chynrychiolwyr o ysgolion.
- Sicrhawyd o safbwynt datblygu fframwaith gweithredu, y byddir yn cydweithio hefo Gwasanaeth Gyrfa Cymru
- Sicrhawyd ymhellach yn deillio o bryder ynglŷn â thensiwn daearyddol o ddosraniad yr arian rhwng y 6 awdurdod y byddai'r arian yn cael ei gyfeirio yn unol â meini prawf a lle fyddai'r anghenion.

**Penderfynwyd:**

**(a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar y prosiect sydd yn ei ddyddiau cynnar.**

**(b) Gofyn i'r Gwasanaeth Addysg gyflwyno diweddariad ar y cynllun ymhen blwyddyn o'i weithredu.**

## 5. AMODAU ARWEINYDDIAETH A MODELAU AMGEN

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amlinellu prosiect ar gyfer gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion er mwyn codi safonau.

(b) Cyfeiriwyd at nod y prosiect a fyddai'n edrych ar bum maes penodol sef:

- Comisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y Sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig

- Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol
- Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer gorau i osgoi dyblygu; a
- Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth

(c) Ymhelaethwyd ar y camau nesaf a'r bwriad i gynnal cyfarfod pellach gydag Ymgynghorwyr Annibynnol sydd â phrofiad rhyngwladol yn y maes ac y byddent yn croesawu'r cyfle i gyfweld ag aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fel rhan o'u hymchwil.

(ch) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau, ac fe wnaed y sylwadau canlynol:

(i) A yw'r broblem o recriwtio yn ymwneud â maint bychan y Sir ac oni fyddai cyfuno gyda Siroedd eraill o fantais mewn rhannu arbenigedd?

Mewn ymateb, eglurwyd bod natur ddaearyddol y Sir yn enfawr ac yn heriol gan fod anghenion ardaloedd y Sir yn dra gwahanol. Bwriad yr Adran Addysg yw ail-sefydlu'r Swyddfeydd Ardal fel bo modd cael trafodaethau lleol er mwyn diwallu anghenion y plant. O safbwynt datblygu unigolion yn arweinwyr yn enwedig yn yr ysgolion lleiaf, rhaid rhoi cyfle iddynt fedru arwain ar feysydd strategol er mwyn dangos profiadau mewn gwahanol feysydd ar gyfer y cymhwyster CPCP.

(ii) A oes tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am ddisgyblion?

Mewn ymateb, nodwyd os byddir yn cyd-berchnogi'r prosiect i wella arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd yn rhaid cadw llygad bod tegwch i bob dalgylch.

(iii) O safbwynt cytuno ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion wrth bontio o'r cynradd i'r uwchradd, nodwyd bod yn ofynnol i'r wybodaeth gyfredol ar gyfer unrhyw blentyn fod yn gywir o'r cam cyntaf drwy'r cyfnod addysgol. Nodwyd ymhellach bod asesu yn drafodaeth barhaol ond er mwyn pontio llwyddiannus rhwng y cynradd a'r uwchradd rhaid cael dealltwriaeth rhyngddynt a bod yn glir ynglŷn â dehongliad y meini prawf.

(iv) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â chanfyddiadau gan rieni bod rhai ysgolion yn fwy Saesnigaidd ac o ganlyniad bod niferoedd yn lleihau mewn ambell ddalgylch, nodwyd mai'r her ydoedd cysoni gweithrediad y polisi iaith. Eto, yn yr un modd gellid cynnal trafodaethau yn lleol er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr un fath o brofiad a darpariaeth.

(v) Yng nghyd-destun ffederaleiddio ysgolion cynradd ac uwchradd i'r dyfodol, nodwyd y byddai hyn yn rhan o'r ymchwiliad i arweinyddiaeth a'r modelu amgen. Er bod syniadau penodol o fewn y Gwasanaeth derbyniwyd bod ymateb gan y gymuned o ran trefniadau a darpariaeth yn bwysig. O ran trefniadaeth rhaid sicrhau'r isadeiledd er mwyn i'r plant gael y canlyniadau gorau. Yn wyneb yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, os am wella arweinyddiaeth a rheolwyr canol ysgolion, rhaid ystyried dulliau eraill o weithio megis rhannu gwaith ar draws dalgylch.

(vi) O safbwynt lefel y broblem recriwtio ar hyn o bryd, nodwyd bod record o lwyddiant yng Ngwynedd llynedd gan i 9 unigolyn lwyddo i gael y cymhwyster arweinyddiaeth CPCP ac fe roedd hyn yn cynrychioli bron i hanner cwota Gogledd

Cymru. Fodd bynnag, rhaid creu cyfundrefn sydd yn hyfyw a rhoi cyfle i ddarpar arweinwyr ddangos sgiliau i fedru arwain a rheoli. Nodwyd ymhellach bod rhai ysgolion yn rhy fach i gael Tîm Rheoli sydd yn fwy na'r Pennaeth ei hunan ac felly yn ei gwneud yn anodd i unigolion ennyn profiadau ac yn hyn o beth rhaid creu cyfundrefn i symud unigolion i fod yn arweinwyr y dyfodol. Yng nghyd-destun diffyg recriwtio ar draws y Sir, nodwyd ei bod yn mynd yn anoddach ond rhaid newid y diwylliant o fod yn annibynnol i fod yn gydweithredol.

(vii) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â chyllido rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, hyderir y bydd y Cyngor yn gallu buddsoddi cymaint ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod yr adeiladau yn galluogi'r gorau ar gyfer yr athrawon a phobl ifanc.

(viii) Yng nghyd-destun y Tîm Trefniadaeth ysgolion, nodwyd bod y Tîm wedi ei sefydlu ar gyfer gwaith pwrpasol ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac yn ddibynnol ar y gyllideb cyfalaf a chanfyddiadau'r ymchwiliad arweinyddiaeth, bydd angen ystyried ail-strwythuro o fewn yr Adran i gyfarch materion ehangach na threfniadaeth megis rôl cefnogi arweinyddiaeth yn yr ardal leol.

**Penderfynwyd:**
**(a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Enwebu'r aelodau canlynol o'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer cwrdd â'r Ymgynghorwyr Annibynnol sy'n ymwneud â' prosiect i gynnig sylwadau ac argymhellion ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy:**

**Y Cynghorydd Beth Lawton – (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**
**Y Cynghorydd Elin Walker Jones**
**Y Cynghorydd Dewi Owen**
**Y Cynghorydd Hefin Williams**

**6. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg a fu'n ymchwilio i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith yr awdurdod yn ysgolion y Sir.

(b) Adroddodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cadeirydd yr Ymchwiliad, bod yr ymchwil wedi ei gyfyngu i dri dalgylch sef Ardudwy, Bangor a Botwnnog oherwydd demograffeg ieithyddol y tair ardal benodol. Edrychwyd ar sut y gweithredir Polisi Iaith yr awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol a'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Tynnwyd sylw at yr atodiadau ynghlwm i'r adroddiad a oedd yn nodi sut y daethpwyd i gasgliad ar yr argymhellion. Cydnabyddir bod gwaith gwych yn digwydd yn yr ysgolion ond nid da lle gellir gwell i barhad y Gymraeg oddi fewn a thu allan i'w llibart.

(c) I gloi, cymerodd Cadeirydd yr Ymchwiliad y cyfle i ddiolch i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr a chlir. Diolchodd hefyd i bawb a fu'n rhan o'r Ymchwiliad drwy rannu eu profiadau yn agored.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Mynegwyd pryder o'r hyn sy'n cael ei weithredu mewn ysgolion preifat yn y Sir gyda fwyfwy o ddisgyblion yn dod allan o'r ysgolion hyn yn ddi-gymraeg.

Mewn ymateb i'r uchod, esboniwyd bod y sector cyhoeddus yn gorfod dilyn cwricwlwm cenedlaethol ond bod rhyddid i'r sector annibynnol, yn unol ag Adran 163 o'r Adran Arolygu, gynnig cwricwlwm eang lle nad oes raid i'r Gymraeg fod yn rhan o'r cwricwlwm hwnnw. Nodwyd nad oedd gan yr awdurdod addysg oruchwyliaeth drostynt ond gellid cysylltu â Llywodraeth Cymru / ESTYN i ganfod beth yw gofynion yr Adran benodol o'r ddeddf ac a yw'r arolygaeth yn mesur yn gydnaws i anghenion lleol.

(ii) Bod plant yn gwneud cynnydd da yn y Canolfannau Hwyrddyfodiad ond mynegwyd rhwystredigaeth bod y gyrwyr cludiant i'r plant i ac o'r canolfannau hyn yn ddi-gymraeg. Awgrymwyd y dylid gwneud cais i'r cwmnïau sydd yn ennill y cytundebau cludiant bod anghenraid i'r gyrwyr fod yn gallu siarad Cymraeg.

Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai'r Gwasanaeth Addysg yn ymchwilio i'r uchod.

(d) Nodwyd, er gwybodaeth i Aelodau, derbyniwyd cais gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdod rannu'r Siarter Iaith ar draws Cymru.

(dd) Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i'r Ymchwiliad Craffu am y gwaith trwyadl a gyflawnwyd ganddynt ac fe groesawyd a derbyniwyd yr holl argymhellion.

**Penderfynwyd:**

**(a) Derbyn cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg gan ofyn iddo gyflwyno adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau ymhen chwe mis.**

**(b) Gofyn i Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad Craffu rannu canfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu gydag ysgolion a chanolfannau iaith y Sir.**

**(c) Cyfleu i Lywodraeth Cymru / ESTYN pryder y Pwyllgor Craffu hwn ynglyn a chwricwlwm ysgolion yn y sector annibynnol o ddefnydd yr iaith Gymraeg fel amlinellir yn (i) uchod.**

**7. YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG – BRIFF DRAFFT**

(a) Cyflwynwyd briff drafft ar gyfer cynnal ymchwiliad craffu i'r Gwasanaethau Cefnogol Addysg ac fe amlinellodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol ar gynnwys y briff.

(b) Croesawyd y briff gan yr Aelodau ac mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag amserlen nodwyd y disgwylir i'r ymchwiliad gael ei gyflawni mewn oddeutu 6 -9 mis.

**Penderfynwyd:**

**(a) Derbyn a chymeradwyo'r briff drafft.**

**(b) Enwebu'r Aelodau canlynol i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg:**

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**
**Y Cynghorydd Eirwyn Williams**
**Y Cynghorydd R H Wyn Williams**
**Aelod i'w enwebu o ardal Arfon (gyda'r Cynghorydd Hefin Williams wrth gefn pe byddai angen)**

Dechreuodd y sesiwn bore am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.00

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014-15**

(a) Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd, yn rhoi trosolwg o'r ystadegau a phrif faterion sydd wedi deillio o gwynion yn ystod y flwyddyn 2014-15 ynghyd ag ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn yn ei gyfarfod paratoi ar 28 Gorffennaf.

(b) Atgoffwyd yr Aelodau bod y drefn gwynion yn un statudol sydd tu allan i drefn gwynion corfforaethol y Cyngor.

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion yn briodol iddynt fel a ganlyn:

(i) Bod y drefn gwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân i'r drefn gwynion corfforaethol a'u bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal unigolion ond fe dderbynnir cwynion tu allan i'r drefn statudol ac yn yr achosion hyn fe ymdrinnir â hwy o dan y drefn gwynion corfforaethol. Eglurwyd bod dau gam i'r drefn gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol sef cam 1 - ymateb yn lleol a cham 2 lle prynir gwasanaeth ymgynghorydd annibynnol i ymchwilio i'r gwyn.
(ii) Mewn ymateb i bryder amlygwyd ynglyn â methiant i fedru darparu cyfarpar arbenigol megis gwelyau pwrpasol i gleifion sydd angen gofal yn eu cartref yn benodol mewn tai teras yn ardal Blaenau Ffestiniog, nodwyd bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r broblem a'i fod yn destun trafodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd
(iii) Nododd y swyddogion y sylw bod angen dehongli cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol oherwydd aneglurder trigolion y Sir ac fe ystyrir ymhellach sut y gellir cyfarch y mater hwn.
(iv) O safbwynt cleifion yn cael eu hanfon i Ysbytai cymunedol yn hytrach na chartrefi preswyl, esboniwyd bod datrysiad i'r mater hwn yn anodd oherwydd yr angen i geisio rhoi cefnogaeth iawn i deuluoedd.
(v) Nodwyd y pryder amlygwyd ynglyn â thacsi yn teithio o Ogledd y Sir i'r De i gludo claf i'r ysbyty lleol ac y byddir yn rhoi sylw i'r mater ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd pe byddai'r Aelod yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.
(vi) Bod y daflen gwynion arbennig i blant a phobl ifanc yn barod ac yn cael ei lansio yn fuan a nodwyd ymhellach bod taflen ar wahân i oedolion sydd eisoes yn cael ei weithredu.
(vii) Mewn ymateb i sylw bod y nifer o ymholiadau yn uwch na'r cwynion ac efallai bod pobl fregus yn llai tebygol o gwyno, nodwyd er nad yw pob ymholiad / sylw yn cael ei nodi fel cwyn, sicrhawyd bod y Gwasanaeth yn ceisio datrys yr ymholiadau.
(viii) O safbwynt y sylw a wneir bod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda defnyddwyr ynglyn â threfniadau talu am ofal, gwelwyd o'r cwynion a gyflwynwyd bod trafodaethau wedi digwydd ond nad oedd tystiolaeth ysgrifenedig wedi ei gofnodi. Sicrhawyd bod darn o waith yn mynd rhagddo yn y cyswllt hwn fel datrysiad i'r mater.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y sylwadau cyffredinol canlynol:

(a) Nododd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd bod trefniadau a'r ffordd newydd o weithio yn Ysbyty Alltwen yn hynod o bwysig i geisio diddymu'r rhaniad rhwng cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau

Cymdeithasol. Nodwyd ymhellach bod y cleifion sydd wedi derbyn gwasanaeth drwy'r drefn newydd yn Ysbyty Alltwen wedi mynegi bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth.

(b) Bod yr adroddiad yn un eithaf cadarnhaol ac yn amlwg drwy drafodaethau bod y Gwasanaeth yn cynnig datrysiadau i'r defnyddwyr. Fodd bynnag, nodwyd ymhellach bod y Tim sy'n gweithredu yn rhan o'r gyfundrefn cynigion ar gyfer toriadau a phe byddir yn haneru'r adnoddau gall hyn effeithio ar y gwasanaeth a gynigir.

(c) Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Gwasanaeth am eu gwaith.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 9. DECHRAU I'R DIWEDD - OEDOLION

(a) Cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd adroddiad drafft ar adolygiad Dechrau i'r Diwedd ar wasanaethau pobl hŷn

(b) Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Adran Gwasanaethau Oedolion Iechyd a Llesiant ar ffurf sleidiau ac fe nododd nad oedd y cyfeiriad a osodir i'r adolygiad yn newydd gyda llawer ohono yn seiliedig ar drefniadau presennol a phenderfyniadau'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Tynnwyd sylw at y weledigaeth, natur y weledigaeth a chyfres o egwyddorion gan y Gwasanaeth. Nodwyd ymhellach bod gofynion penodol wedi eu gosod gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a rhaid tynnu sylw bod canran y boblogaeth hŷn yn cynyddu. Byddai'r gyllideb yn y dyfodol yn sylweddol llai na'r gorffennol ac y byddai angen cadw golwg ar ddylanwad hynny.

(c) Cyfeiriodd at fethodoleg yr adolygiad gan nodi'r camau sylfaenol isod:

1. Ymarfer Da - I ddysgu gwersi gan eraill am ddulliau blaengar o weithredu gan dderbyn nad oes un dull gorau ymhob achos neu faes. Mae sawl dull allai weithio a bydd angen bod yn ddoeth i ddewis beth fyddai yn briodol ac orau ar gyfer Gwynedd.
2. Cymharu - yn bennaf gyda'r 'teulu' o awdurdodau cymharol er mesur cynnydd/perfformiad Gwynedd
3. Edrych ar y cynnydd nid yn unig o ddata caled ond hefyd o ran casglu gwybodaeth ac ymateb ar lefel lleol

O safbwynt llesiant a rheoli'r galw, nodwyd:

1. Bod llesiant yn gyfrifoldeb ar draws y Cyngor, nid yn fater Gwasanaethau Gofal/Cymdeithasol yn unig a bod angen ystyried llesiant cyn i broblemau dwys godi
2. Yr angen i ddefnyddio ymyrraeth ac atal fel camau buan eu hunain ond hefyd yn medru gwneud cyfraniad pwysig at reoli'r galw am wasanaethau gofal ffurfiol
3. Nid oes un ateb delfrydol cyffredin ar gyfer siapio gwasanaethau llinell flaen. Hefyd yn medru cynnwys dulliau integredig megis gwaith Ffordd Gwynedd yn Alltwen a chyfraniad y 3ydd sector.
4. Bod perthynas gyda chymunedau yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Bydd angen cyfeirio adnoddau i gyflawni hyn a rhaid derbyn nad yw Gwynedd nac unrhyw awdurdod lleol arall yn mynd i lwyddo heb gryfhau'r elfen yma o'r Gwasanaeth.
5. Y byddai ail strwythuro'r Adran yn allweddol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd newydd a chyfarfod a disgwyliadau'r ddeddf a defnyddwyr gwasanaeth.

Yng nghyd-destun datblygiad ymarfer gwaith cymdeithasol, esboniwyd

1. ei bod yn anorfod i ymarfer gwaith cymdeithasol newid er mwyn ymateb i ofynion y ddeddf a'r angen i drawsnewid gwasanaethau.
2. Bod tystiolaeth yn dangos bod diwylliant a safon ymarfer gwaith yn allweddol i ganfod dulliau priodol a gwell i gyfarfod anghenion unigolion.
3. Bod angen ceisio cefnogi unigolion i fyw gartref gyda chefnogaeth briodol a dros amser fel bo'r ddibyniaeth ar ofal preswyl yn lleihau.
4. Bod cynnig a hyrwyddo taliadau uniongyrchol a rhoi'r ffocws ar ddeilliannau i'r unigolyn yn ddwy agwedd bwysig wrth ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol.
5. Bod Tim Datblygu Gweithlu Gofal a rôl allweddol i ddatblygu gallu'r Cyngor i gyflawni'r newidiadau.

Er mwyn cyflawni amcanion a gofynion y Ddeddf, nodwyd bod angen cryfhau'r gefnogaeth i fyw gartref a chanolbwyntio ar yr agweddau penodol isod:

1. Dementia a bregusrwydd
2. Gofal Dydd yng Ngwynedd
3. Rôl y trydydd sector yn enwedig o ran darparu cefnogaeth yn y cartref ac yn y gymuned
4. Gofal Cartref - cydnabuwyd bod angen edrych ar y balans priodol o ran darpariaeth mewnol/allanol yng Ngwynedd gan ei fod oddeutu 50%/50% ar hyn o bryd gyda darpariaeth fewnol ac allanol yn destun pryder o ran recriwtio ym Meirionnydd

O safbwynt darpariaeth llety, nodwyd bod yn rhaid sicrhau dewis amgen ar gyfer pobl hŷn megis tai gofal ychwanegol. Nodwyd bod eglurder ynglŷn â rôl ysbytai lleol yn bwysig o ran cynllunio ar gyfer gofal nyrsio a preswyl yn y dyfodol ac fel cyd-destun i flaenoriaethu opsiynau dros y blynyddoedd nesaf. Bydd rhaid i'r blaenoriaethau adlewyrchu y gofynion fydd yn cael eu hamlygu o ganlyniadau asesiadau anghenion.

Gall integreiddio gyda GIG gyflawni canlyniadau positif ond fe all amrywio o ardal i ardal. Nodwyd bod y rhaglen Cronfa Gofal Canolradd yn ein harwain at well comisiynu a hwyluso symudiad i'r cyfeiriad cywir.

I gloi, nodwyd bod y fethodoleg yn ddeinamig gyda phenderfyniadau i'w cymryd dros y 18 mis nesaf, rhai ohonynt yn benderfyniadau gweithredol a strategol a fydd yn siapio'r dyfodol ac yn golygu newidiadau enfawr ac anorfod.

(ch) Rhoddwyd cyfle i Aelodau fynegi sylwadau ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol ganddynt:

(i) Rhaid sicrhau bod y trydydd sector yn gweithredu dros Wynedd gyfan
(ii) Bod canmoliaeth yn ardal Bangor i'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol
(iii) Pwysigrwydd i gynnwys darpariaeth gofal ysbaid o fewn y strategaeth i gefnogi'r gofalwyr
(iv) Pwysigrwydd i fagu perthynas gyda phartneriaethau eraill e.e. Môn/Menai yng Ngogledd y Sir a Ceredigion/Powys o safbwynt De'r Sir.
(v) Crybwyllwyd am ymarferion da a weithredir yn Ysbyty Dolgellau
(vi) Pwysigrwydd bod aelodau etholedig yn cefnogi'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a bod ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol yn hynod bwysig.
(vii) A fyddai trefniadau o weithredu cronfa gyllidol ("pool budget") yn addas ac yn gweithio ar gyfer y newidiadau yn y maes hwn?
(viii) Pam na all y Cyngor weithredu "cofrestriad deublyg" (dual registration) fel bo modd i'r nyrsys cymunedol roi gwasanaeth iddynt mewn cartrefi gofal preswyl?
(ix) Bod gofal yn y cartref yn gweithio'n llwyddiannus os yw'r cyfleusterau ar gael ond mai'n wybyddus bod unigolion yn gorfod symud o'u cynefin i gael

darpariaeth gofal preswyl sydd yn creu anhawsterau i deuluoedd i ymweld a hwy o ran teithio , a.y.b.

(x) Pryder ynglyn a diffyg recriwtio gofalwyr mewn cystadleuaeth a chyflog gwell a gynigir gan archfarchnadoedd

(xi) A ellir dysgu gwersi oddi wrth awdurdodau eraill o'r teulu sy'n perfformio'n well ac a oes modd gwneud mwy o ddefnydd o gartrefi preswyl preifat?

(d) Bu i'r swyddogion ymateb i'r sylwadau uchod fel a ganlyn:

- Efallai y gellir rhoi ystyriaeth i arbrofi gweithredu cronfa gyllidol mewn rhai pocedi o'r Sir ond yn sicr byddai'n ofynnol ystyried y mater gam wrth gam
- O safbwynt cymhariaeth perfformiad gydag awdurdodau eraill sicrhawyd bod hyn wedi ei ystyried ac wedi eu hymgorffori yn argymhellion yr adroddiad.
- Bod y darlun ynglyn â chyflogau byw o bosib yn mynd i gau'r bwlch i'r dyfodol o safbwynt costau gofal preswyl a gofal preifat
- Er nad oedd gofal ysbaid wedi derbyn sylw penodol o fewn yr adroddiad, cydnabyddir bod lle i wneud defnydd o ofal ysbaid drwy ystyried dulliau eraill er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal ysbaid

**Penderfynwyd:**
**Derbyn cynnwys yr adroddiad drafft gan ofyn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Iechyd a'r Pennaeth Adran Gwasanaethau roi ystyriaeth i'r sylwadau perthnasol amlinellwyd gan yr aelodau yn (i) – (x) uchod fel rhan o'r adroddiad terfynol.**

## 10. PROSIECT YR HER GOFAL

(a) Cyflwynwyd adroddiad ar y prosiect Her Gofal sy'n rhan o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ac yn allweddol i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r agenda ariannol heriol wynebir.

(b) Eglurodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd y bwriedir cynnal Grwpiau Ffocws gydag Aelodau ar 29 Medi rhwng 2.00 - 4.00 y.p. ym Mhorthmadog a bod gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu gyda defnyddwyr, partneriaid allweddol a chymunedau.

(c) Gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ar friff y prosiect ac erfyniwyd arnynt i gymryd rhan yn y Grŵp Ffocws ar 29 Medi.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Pryder bod cartrefi gofal preifat yn cau oherwydd methiant i recriwtio staff

(ii) Nodwyn gan Aelod bod nyrsys arbenigol ar gael ac eisiau gweithio ond y dylid ystyried y dull o recriwtio drwy gynnig cymhelliad ariannol ychwanegol i weithio sifft nos, costau teithio, a.y.b. fel nad oes raid recriwtio nyrsys o dramor. Byddai hyn hefyd yn sicrhau defnydd o'r iaith Gymraeg sydd mor bwysig i'r genhedlaeth hŷn.

(iii) Bod gwaith gweinyddol wedi cynyddu o'i gymharu â'r gorffennol lle'r oedd nyrsys yn gallu canolbwyntio ar ofalu am gleifion ond erbyn heddiw bod disgwyl iddynt wneud llawer o waith gweinyddol yn ogystal â nyrsio

(iv) Siom mai dim ond un sesiwn a gynigir ar gyfer y Grŵp Ffocws

(d) Ymatebodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd a'r swyddogion i'r uchod gan nodi:

- Cydnabuwyd ei bod yn anodd recriwtio ond sicrhawyd bod gwaith yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghyd â gwaith pellach gyda Phrifysgol Bangor o safbwynt cael darpariaeth ysgol feddygaeth.
- Bod bwriad i gynnal mwy o sesiynau Grŵp Ffocws ond ei fod yn anodd medru cael dyddiad sy'n gyfleus i bawb
- Cadarnhawyd y byddir yn ail-anfon e-bost i Aelodau i'w hatgoffa am ddyddiad y sesiwn cyntaf o'r Grŵp Ffocws ar 29 Medi lle byddir yn trafod syniadau

**Penderfynwyd:**
**Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd sesiwn y prynhawn am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.00 p.m.

**CADEIRYDD**

# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU
# 8/9/15

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr W Tudor Owen, Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins, John P. Roberts, (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd H. Eifion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eleanor Jones (Goruchwyliwr Cyflogau), Einir Griffith (Uwch Swyddog Cyflogau), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru / Bwrdd Pensiwn), Huw Jones (Conwy), Osian Richards (Bwrdd Pensiwn), Lynn Patterson (Cynnal), Marc Jones (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Tony Deakin (Cartrefi Conwy / Bwrdd Pensiwn), Alison Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Nia Jones (Cwmni'r Fran Wen)

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Nicholas Hopkins (Dirprwy Reolwr Pensiynau), Delyth Jones Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Gwennan Williams (Swyddog Pensiynau), Meirion Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Susan Edwards (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Richard Owen (Uwch Swyddog Pensiynau), Gruff Thomas (Swyddog Systemau Uned Bensiynau), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) (Cyngor Gwynedd);

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr Glyn Thomas, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Jo Worrall (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Wendy Jones (Cefnogaeth a Gymunedol a Gwirfoddol Conwy), Katherine Owen, Clerc Cyngor Tref Caernarfon, Sharon Warnes (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn), Victoria Hallaron (Cartrefi Cymunedol Gwynedd / Bwrdd Pensiwn), a Chyngor Tref Bae Colwyn.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W Tudor Owen yn gadeirydd am y cyfarfod.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

## 5. Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2014/15 gan dynnu sylw at daflen wybodaeth am y Gronfa Bensiwn yn crynhoi cefndir y Gronfa a'r prif ffeithiau.
Rhoddwyd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- **Perfformiad Buddsoddi**

  Yn 2014/15, llwyddwyd i sicrhau cynnydd yng ngwerth asedau'r Gronfa o £1.3bn (31/03/2014) i bron £1.5bn (31/03/2015) – cynnydd o £187m yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn perfformiad gwell na'r farchnad yn 2013/14, roedd 2014/15 yn flwyddyn gymysg gan y cwmnïau sy'n buddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn. O ran disgwyliadau buddsoddi (dychweliadau 5.9% y flwyddyn), mae'r dychweliadau hynod galonogol o 12.2% a gafwyd gan y Gronfa am y flwyddyn hon yn adlewyrchu perfformiad gwych gan y farchnad stoc yn gyffredinol.

  Yn 2014/15, roedd y marchnadoedd yn cynhyrchu perfformiad gwell na'r flwyddyn cynt yn gyffredinol, gydag ecwiti yn perfformio'n dda ac eiddo yn perfformio'n arbennig o dda, er bod ein cronfa ni wedi dioddef yn gymharol o fethu'r dychweliadau annisgwyl o uchel ar fondiau eleni. Cyfeiriwyd at berfformiad rhagorol cwmni Fidelity sy'n buddsoddi mewn ecwiti ar ran y gronfa, a pherfformiad da iawn hefyd gan UBS a Threadneedle wrth fuddsoddi mewn eiddo. Cyrhaeddodd sawl cwmni ei meincnod, tra disgwylir dychweliadau gwell yn y tymor canol oddi wrth Veritas a Partners, sydd â marchnadoedd arbenigol.

- **Prisiad actiwaraidd teir-blynyddol 31 Mawrth 2016** -

  Bydd pris uchel bondiau, gyda lefel isel o ddychweliadau ar fondiau, yn cael effaith negyddol ar y gyfradd ddisgowntio, ac yn chwyddo'r amcangyfrif o werth ymrwymiadau pensiwn. Er gwaethaf cynnydd sylweddol iawn yng ngwerth ein hasedau ar y farchnad stoc, bydd hynny wedi'i wrthbwyso gan gynnydd sylweddol mewn ymrwymiadau. Bydd cyflogwyr yn ymwybodol o'r cynnydd mewn ymrwymiadau, sydd wedi'i gyfrifo yn unol â safonau cyfrifo ryngwladol (FRS17, IAS19, ayb). Rhoddwyd "ciplun" o hynny yn ei gyd-destun.

  - Yn y Prisiad Actiwaraidd Teir-blynyddol 2013, roedd lefel ariannu y Cynllun yn 85%, ac roedd hynny yn well na'r cyfartaledd 79% ar draws y cyfan o'r CPLlL yng Nghymru a Lloegr, lle mae cronfeydd yn defnyddio amrywiaeth o dybiaethau a methodoleg actiwaraidd.

  - Byddai hyn yn gosod Gwynedd yn gyfforddus ar gyfer y cyfnod diffyg ac adfer ar draws yr holl CPLlL, ond nid yw canlyniadau cyhoeddedig y cronfeydd pensiwn ar sail debyg am debyg. Yn dilyn ymlaen o ryddhau canlyniadau'r prisiant, cynhaliwyd adolygiad manwl gan ein actiwari, Hymans Robertson, ac fe ail-seiliwyd y canlyniadau yma ar un set o dybiaethau. Pan ddatgelwyd y darlun cymharol gywir, roedd sefyllfa ariannol Gwynedd ymysg y deg uchaf o gronfeydd Lloegr a Chymru yn gyffredinol.

  - Ar sail gyffredin, mae cyfnod adfer diffyg Cronfa Gwynedd yn wyth mlynedd, y byrraf o holl gronfeydd Cymru, a'r seithfed byrraf o'r holl 88 o gronfeydd y CPLlL. Mae cyfnodau adfer diffyg cronfeydd eraill Cymru yn amrywio o 11 i 44 mlynedd felly, mae gennym strategaeth gyllido risg isel a chynllun cyllido cymharol sy'n gredadwy.

- Yn gynharach eleni, adroddodd SAC a PWC i Lywodraeth Cymru ar sefyllfa cronfeydd Cymru, a nodwyd ar sail debyg wrth debyg fod Cronfa Gwynedd yn dybiannol wedi'i ariannu 99%, o'i gymharu ag amrediad rhwng 71% a 97% yn y 7 cronfa arall.

- Er bydd sefyllfa cyflogwyr unigol o fewn ein Cronfa yn gwahaniaethu, yn gyffredinol, dylai cryfder y Gronfa ein galluogi i gymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau pensiwn ar ôl y prisiad nesaf (2016). Yn amlwg, bydd lleddfu unrhyw gynnydd mewn "pension contribution rates" erbyn 2017/18 yn bwysig, o ystyried y wasgfa barhaus ar wariant cyhoeddus.

- Y brif amcan yw sicrhau fod gan gyflogwyr strategaethau cyfrannu fforddiadwy, teg, a chynaliadwy sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau unigol eu hunain.

- **Gweinyddu Pensiynau**

  Parhaodd yr uned weinyddol gyda pherfformiad effeithiol fel y dangosir gan y mesurau yn erbyn ei thargedau gyda gwaith sylweddol wedi ei wneud i weithredu systemau newydd i sicrhau gweithrediad esmwyth, yng nghyd-destun twf sylweddol mewn ceisiadau am amcangyfrifon pensiwn oherwydd cynlluniau arbedion a chynigion ymddeol cynnar gan sawl cyflogwr. Amlygwyd bod nifer pensiynwyr yn parhau i godi, o 7,584 i 7,940 yn 2014/15.

- **Datblygiadau Diweddar**

  Ar gyfer y Gronfa Bensiwn adroddwyd bod nifer o newidiadau ac ymgynghoriadau ar y gweill. Mae'r prosiect cydweithio a ddatblygwyd gan yr wyth gronfa yng Nghymru wedi adnabod y gellid cyflawni gwell effeithlonrwydd trwy gydweithio i fuddsoddi drwy un fframwaith neu gerbyd buddsoddi cyffredin. Bydd ymchwiliad pellach i hyn yn ystod 2015/16. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru, wedi'u hannog gan undebau llafur ar ei 'Partnership Council' yn ystyried annog uno cronfeydd Cymreig. Erbyn hyn, maent wedi derbyn adroddiad SAC a PWC ym mis Mai, sy'n cefnogi sefydlu cerbyd buddsoddi ar y cyd, yn hytrach nac uno. Mae Llywodraeth yn disgwyl arbedion cost wrth i gronfeydd pŵl buddsoddiadau, ac os nad yw'r cynigion gwirfoddol yn mynd ddigon pell, yna bydd y Llywodraeth yn gorfodi ei "blueprint" nhw. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn trafod y materion hyn.

- **Bwrdd Pensiynau**

  Mae Cronfa Gwynedd wedi credu erioed bod llywodraethu da yn sylfaenol i gyflawni cynllun rheoli llwyddiannus ac yn gefnogol i'r sylw cenedlaethol i lywodraethu'r CPLlL. Mae Pwyllgor Pensiynau Gwynedd wedi llywodraethu ein Cronfa yn gynhwysol am nifer o flynyddoedd, gydag aelodau etholedig o gyflogwyr mawr eraill yn pleidleisio ochr yn ochr ag aelodau Cyngor Gwynedd. Er hynny, adroddwyd bod Bwrdd Pensiynau wedi ei sefydlu eleni i graffu dulliau llywodraethu'r gronfa.

Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau am eu cyfraniadau positif a chydwybodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Peter Read, cyn-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau, sydd wedi sefyll i lawr ac yn dioddef ag anaf. Diolchwyd hefyd i Gareth Jones oedd yn mynychu ei gyfarfod diwethaf yn y rôl Rheolwr yr Uned Weinyddol cyn ymddeol yn Rhagfyr, yn dilyn blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Gronfa. Diolchwyd hefyd i'r cyflogwyr am eu cefnogaeth

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, pa risg sydd i gyflogwyr y gronfa petai un cyflogwr yn methu talu dyledion yn y dyfodol, nodwyd bod y gronfa yn edrych ar fodolaeth gwarantwr neu fod cyrff codi treth yn codi arian o drethiant. Petai cyflogwr yn sefyll ar ben ei hun ac yn mynd i'r wal heb adnodd i'w gefnogi, yna bydd y dyledion yn cael eu rhannu yn gyfartal ar draws y gronfa. O ganlyniad, ac i osgoi risg, pwysleisiwyd bod gwirio mynediad i'r gronfa yn hanfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffurfio un gronfa ac o ganlyniad, colli allan efallai ar ein llwyddiant ein hunain, nodwyd bod pwyslais Llywodraeth Cymru erbyn hyn o uno wedi ei roi i'r neilltu a bod ffocws bellach ar 'gerbyd buddsoddi' ar y cyd.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2014/15**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.50pm.

___________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR PENSIYNAU 8/9/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen a John P. Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Glyn Thomas a Gethin Glyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

.

(a) Derbyniwyd nodyn gan y Cynghorydd Peter Read yn mynegi ei ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, a'r swyddogion perthnasol, am eu caredigrwydd a'u hiwmor dros y blynyddoedd tra roedd yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau. Mewn ymateb, dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Peter Read, cyn-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau, sydd wedi sefyll i lawr ac yn dioddef ag anaf. Penderfynwyd anfon cerdyn o ddiolch iddo am ei wasanaeth.

(b) **PRESENOLDEB YN CYNHADLEDD 'LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF) 2 – 4 RHAGFYR 2015**

Cyflwynwyd cais gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu cynrychiolydd i fynychu'r gynhadledd yn Bournemouth. Cynigiwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd W Tudor Owen yn mynychu. Derbyniodd y cais.

**PENDERFYNWYD Y BUASAI CADEIRYDD Y PWYLLGOR PENSIYNAU YN MYNYCHU CYNHADLEDD LAPFF 2 - 4 RHAGFYR 2015.**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16eg o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LLEOL CYMRU - GWEITHIO'N GYDA'N GILYDD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau ar y Prosiect Cydweithio Pensiynau Cymru ynghyd ag adroddiad gan ymgynghorwyr busnes *Mercer* a oedd yn archwilio i'r posibilrwydd os oedd manteision / gwerth i uno asedau'r wyth gronfa yng Nghymru.

Mewn ymateb i gais gan y Llywodraeth mae angen sicrhau bod cronfeydd yn buddsoddi ar y cyd er mwyn lleihau costau yn sylweddol, wrth gynnal perfformiad buddsoddi cyffredinol. Bydd y Llywodraeth yn gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion eu hunain i gwrdd â'r meini prawf cyffredinol o gyflawni arbedion. Cyhoeddir ymgynghoriad pellach ymlaen eleni

a bydd yn gosod y meini prawf mewn manylder yn ogystal â deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau gweinyddol sydd heb gyflwyno cynlluniau digon uchelgeisiol yn gorfod cronni. Mae'r gwaith a ymgymerwyd gan gronfeydd Cymru wedi dangos mai buddsoddi ar y cyd yw'r ffordd ymlaen a bydd datblygiad pellach o'r cydweithio ar achosion busnes yn arddangos yr ymrwymiad disgwylir gan y Llywodraeth.

Y cam nesaf yw sefydlu fframwaith cydgyfrannu ar gyfer Cronfeydd Cymru gyda'r nod o leihau ffioedd ac i ganolbwyntio ar fuddsoddiadau ecwiti yn gyntaf.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol

- Pe bai penderfyniadau buddsoddi i'w gwneud ar y cyd, o ganlyniad byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn colli ychydig o reolaeth
- Cytuno ar yr elfen bod angen arbed ffioedd, ond rhaid ystyried beth fydd goblygiadau hyn i Gronfa Gwynedd (sydd ymysg y gorau yn y wlad ar hyn o bryd).
- Rhaid ystyried y gorau i Wynedd, ond hefyd rhaid cael y gorau ar gyfer aelodau'r gronfa a pheidio cael ein gwthio gan y Llywodraeth i wneud penderfyniadau a all fod yn risg i'r gronfa.
- Bod gwerth lleihad mewn ffioedd am fod yn llai sylweddol na'r newid mewn lefel enillion gwerth buddsoddi os am dderbyn enillion llai?
- Dylid canolbwyntio ar un elfen o gydweithio yn gyntaf e.e., buddsoddiadau goddefol
- O ran yr elfennau rheolaeth buddsoddi sydd yn weddill, angen asesu mwy ar y sefyllfa.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Cyllid byddai opsiwn i ymuno mewn fframwaith ehangach fis Tachwedd ar yr elfen buddsoddiadau goddefol .O ran y rheolaeth buddsoddi sydd yn weddill, bod gennym ni gyfrifoldeb i barhau i edrych yn fanylach ar yr achos busnes.

(d) Cytunwyd i gefnogi gwaith pellach a derbyn yr argymhellion, gan ychwanegu bod angen i'r achos busnes adnabod materion llywodraethu mewn fframweithiau a awgrymir gan gynnwys trefn dewis cwmnïau buddsoddi.

**PENDERFYNWYD cefnogi gwaith pellach, yn benodol i:**

1. **Ymchwilio mewn i gyfleoedd i leihau ffioedd ar gyfer buddsoddiadau goddefol**

2. **Cyd-asesu'r achos busnes manwl ar gyfer fframweithiau cronni a awgrymir.**

3. **I'r achos busnes adnabod materion llywodraethu mewn fframweithiau a awgrymir.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014 / 2015

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa Bensiwn ar y cyd gydag arian y Cyngor yn 2014/15. Roedd yr adroddiad yn cyflawni gofynion Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Amlinellwyd yn yr adroddiad sut roedd yr arian yn cael ei reoli er mwyn uchafu'r budd. Yn ychwanegol, rhoddwyd diweddariad ar y sefyllfa ar adennill y buddsoddiadau a wnaed gyda Banc Heritable. Adroddwyd bod 98% o'r buddsoddiadau bellach wedi eu hadennill, a mwy i ddilyn.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y RHEOLWR BUDDSODDI ER GWYBODAETH**

**7. "KNOW YOUR ONIONS" - CYNHADLEDD YMDDIRIEDOLWYR Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r Aelodau o gynnwys a gwerth cynhadledd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015. Tynnwyd sylw penodol at gymhlethdodau cysoni ymrwymiadau'r cynllun pensiwn (GMP) gyda chofnodion CaTHeM fydd yn dasg enfawr i staff gweinyddol y Gronfa Bensiwn sydd angen ei gwblhau erbyn Ebrill 2018. Ategwyd bod trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal i geisio datrysiad i'r sefyllfa.

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y PENNAETH CYLLID ER GWYBODAETH**

Dechreuodd y cyfarfod am 3pm a daeth i ben 3:30pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR PENSIYNAU 10/11/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Seimon Glyn, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd), Peredur Jenkins a Glyn Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Nicholas Hopkins (Dirprwy Reolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn) a John P. Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Dirprwy Reolwr Buddsoddi ar gyfer eitem 11. Ymneilltuodd y swyddogion o'r ystafell yn ystod y drafodaeth

**3. MATERION BRYS**

Atgoffwyd yr Aelodau o'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod Medi 2015 ar y Prosiect Cydweithio Pensiynau Cymru ynglŷn ag adroddiad gan ymgynghorwyr busnes *Mercer* a oedd yn archwilio i'r posibilrwydd o uno asedau'r wyth gronfa yng Nghymru. Eglurwyd mai datganiadau answyddogol yn unig sydd wedi eu cyhoeddi hyd yma, ond ymddengys efallai y bydd angen ymateb i ymgynghoriad cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau (26.01.16). Er mwyn sicrhau ymateb gan Wynedd i'r buddion awgrymwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi adolygu'r buddion gan ymgynghori gyda Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR AWGRYM.**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8fed o Fedi 2015 fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu'r angen i adolygu Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) y Gronfa Bensiwn ynghyd a chytuno ar broses ymgynghori lawn gyda buddgyfranogwyr erbyn mis Mawrth 2016. Atgoffwyd yr Aelodau o'r penderyniad a wnaed ym Mhwyllgor Pensiynau 23.03.2012 i gynyddu rhai cyfyngiadau i'r uchafsymiau a ganiateir o dan y rheoliadau fel a ganlyn:

- Cynyddu'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant unigol yn cael ei godi i 35%.
- Cynyddu'r cyfyngiad ar gyfer holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol i 5%.
- Cynyddu'r cyfyngiad ar gyfer holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15%.

a byddai'r penderfyniadau hyn yn cael eu hadolygu o fewn tair blynedd.

Gyda chyfnod y tair blynedd yn agosáu, amlygwyd yr angen i adolygu'r penderfyniadau a wnaethpwyd ac ystyried os ydynt yn parhau yn addas ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Wrth benderfynu ar y cynnydd bydd gofyn cydymffurfio gyda gofynion priodol ac fel ymateb i hynny derbyniwyd cyngor gan Paul Potter, ymgynghorydd y Gronfa.

Nodwyd y bydd adolygiad cychwynnol o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn cael ei gynhyrchu gan y swyddogion gyda drafft yn cael ei gylchredeg i fuddgyfranogwyr yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2015. Y bwriad yw cyflwyno fersiwn terfynol, yn dilyn yr ymgynghoriad, i'r Pwyllgor Pensiynau ym mis Mawrth 2016 er trafodaeth a chymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD A CHEFNOGI'R CYFYNGIADAU (35% / 5% / 15%) YN UNOL Â'R ARGYMHELLION, YNGHYD Â THREFNIADAU'R YMGYNGHORIAD**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15

Cyflwynwyd cefndir yr adroddiad er gwybodaeth, gan y Pennaeth Cyllid a eglurwyd ei bod yn ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar ran y Gronfa Bensiwn, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y disgwyliadau. Amlygwyd crynodeb o le fuddsoddwyd yr arian cyfunedig yn ystod y flwyddyn 2014 - 2015 ac yn unol ag arweiniad diwygiedig Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau, yr elfennau diogelwch a hylifedd oedd yn cael y flaenoriaeth yn hytrach nag enillion. Eglurwyd hefyd bod cyfraddau llog wedi bod yn isel iawn, ond nad oedd awgrym i ystyried newid y penderfyniad i gyfuno arian y gronfa gyda llif arian cyffredinol y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phwy oedd yn rhoi trosolwg ar gydsyniadau CIPFA, nodwyd mai Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn gwirio hyn ac ailadroddwyd y pwysigrwydd o flaenoriaethu diogelwch yn hytrach nag elw.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

## 7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Rhoddwyd cyflwyniad a chefndir yr adroddiad er gwybodaeth, gan y Pennaeth Cyllid gan egluro ei bod yn ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Amlygwyd yn yr adroddiad weithgareddau'r trysorlys ynghyd a'r monitor risg a rheolaeth risg gysylltiedig.

Yng nghyd-destun buddsoddiadau Banc Heriatable, nodwyd bod yr awdurdod bellach wedi adennill 98% o fuddsoddiadau y Manc Heritable gyda'r tebygolrwydd y bydd dosraniadau pellach.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

## 8. GWYBODAETH A SGILIAU

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yn hysbysu'r Aelodau am drefniadau hyfforddi. Atgoffwyd yr aelodau fod y Gronfa Bensiwn wedi mabwysiadu datganiad Sgiliau a Gwybodaeth i sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sydd yn gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau o ran y cynllun pensiwn, yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd arnynt.

O ganlyniad bydd y sefydliad yn darparu hyfforddiant priodol i'r unigolion hynny er mwyn iddynt gynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

Amlygwyd y bydd y Cyngor, yn ymgymryd ag asesiad anghenion hyfforddiant. Y bwriad yw cyflwyno holiadur hunanasesiad i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn iddynt nodi eu hanghenion hyfforddiant. Bydd canlyniadau'r holiadur yn amlygu'r anghenion hyfforddi a'r wybodaeth fydd ei angen arnynt. Y wybodaeth yn sicrhau hyfforddiant priodol i'r unigolion drwy gyfarfodydd presennol, sesiynau penodol neu gyrsiau allanol. Y bwriad yw dosbarthu'r holiadur ar ôl y Nadolig ac anogwyd yr aelodau i gydweithredu.

**PENDERFYNWYD DERBYN Y WYBODAETH A CHYDYMFFURFIO A GOFYNION POLISI GWYBODAETH A SGILIAU**

**9. CYNNIG GWEITHREDU SYSTEM DELWEDDU INTEGREDIG GYDAG ALTAIR**

Cyflwynwyd cais gan y Rheolwr Pensiynau am gymeradwyaeth y Pwyllgor i ariannu pryniant system rheoli dogfennau integredig i storio dogfennau ac i ymateb i ofynion adfer swyddfa weinyddu pensiynau modern. Defnydd o'r system rheoli EDRMS corfforaethol, oedd y datrysiad gwreiddiol, ond amlygwyd na fyddai EDRMS yn cyflawni gofynion llawn yr Uned Bensiynau fel y rhagwelwyd. Er mwyn addasu a gweithio yn effeithlon i ymateb i ofynion cadw cofnodion unigol ar gyfer pob aelod presennol a blaenorol o'r cynllun pensiwn, cynigiwyd symud i system 'Altair Image' gan Heywood sydd yn system gwbl integredig gyda system llif gwaith cysylltiedig.

Yn unol ag aelodaeth y gronfa gyfan (sydd ar hyn o bryd yn fwy na 38,000), cynigiwyd y prisiau canlynol ar gyfer gweithredu a rhedeg y meddalwedd arbenigol yma. Costau am drwydded gychwynnol - £58,525 ynghyd a ffi gweithredu ac ymgynghori o £20,560. Cyfanswm o £79,085. Nodwyd bod y swm yn sylweddol, ond argymhellwyd yr angen am fuddsoddiad mewn system er mwyn i'r Uned Bensiynau symud ymlaen a gweithio yn fwy effeithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd y byddai'r arian yn cael ei ryddhau o gostau gweinyddol y Gronfa Bensiwn. Anodd oedd rhoi swm ar arbedion effeithlonrwydd ond rhagwelwyd arbediad o hanner swydd. Nodwyd hefyd y byddai angen ymgyfarwyddo a'r system cyn gweld enillion ac felly awgrymwyd ail asesu'r sefyllfa mewn dwy flynedd.

Mewn ymateb i gwestiwn petai'r Uned Bensiynau yn gallu ymdopi heb y feddalwedd, nodwyd mai gwaethygu buasai'r gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R CAIS I ARIANNU PRYNIANT MEDDALWEDD 'ALTAIR IMAGE' A'R FFIOEDD TRWYDDEDU BLYNYDDOL.**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle ar ran y Pwyllgor i ddiolch i Mr Gareth Jones, Rheolwr Pensiynau am ei wasanaeth i'r Uned Bensiynau a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad wedi 42 o flynyddoedd i'r Cyngor. Ategodd y Pennaeth Cyllid bod Mr Gareth Jones wedi bod yn rheolwr dibynadwy iawn ac yn aelod allweddol i'r Adran ac i'r Gronfa Bensiwn.

**10. DISGRESIYNAU'R AWDURDOD GWEINYDDU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau am gais i adolygu a newid polisïau yng nghyd-destun y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014. Amlygwyd y wybodaeth a oedd yn rhestru disgresiynau sydd ar gael o dan brif reoliadau'r Cynllun Pensiwn ynghyd a rhestr o'r disgresiynau sydd ar gael o dan ddarpariaeth i'r rheoliadau trosiannol a diogelu. Amlygwyd hefyd bod y wybodaeth yn ffurfioli'r drefn.

**PENDERFYNWYD CYTUNO POLISÏAU'R AWDURDOD GWEINYDDU YN UNOL Â'R ARGYMHELLIAD.**

## 11. STAFFIO'R UNED WEINYDDOL O IONAWR 2016

*(Ymneilltuodd Mr Gareth Jones a Mr Nicholas Hopkins o'r ystafell)*

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i gymeradwyo gwariant ar gyfer sefydlu tîm i gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG) a derbyn strwythur newydd i'r adain weinyddu - cost a ragwelir o £53,573 yn y 12 mis cyntaf. Adroddwyd ym mhwyllgor Pensiwn Mehefin 2015 bod angen i Gronfa Bensiwn Gwynedd gysoni IPG aelodau unigol yn erbyn yr hyn a delir gan CThEM. Yn y cyfarfod hynny cytunwyd ariannu £8,300 y flwyddyn am feddalwedd pwrpasol i ddechrau'r gwaith rhagarweiniol o gymharu'r ffigyrau CThEM gyda data'r gronfa. Mewn ymateb i gais Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol amcangyfrifwyd cost yr ymarferiad o £200,000 yn seiliedig ar waith ymchwil sylfaenol cronfeydd eraill oedd eisoes wedi dechrau ar yr ymarferiad, a'r nifer o gofnodion sydd angen eu cysoni gan Wynedd.

Mewn ymateb i'r gofynion heriol hyn o gysoni'r IPG a Phrisiant 2016, gwnaed cais i'r Rheolwr Pensiynau (sydd yn ymddeol ym mis Rhagfyr), ddychwelyd am ddau ddiwrnod yr wythnos i sefydlu ac arolygu tîm i ymgymryd â'r gwaith cysoni ac i rannu ei brofiad a'i arbenigedd gyda'i olynydd. Yn ychwanegol, nodwyd yr angen am ddau aelod arall o staff i ymuno a'r tîm. Adroddwyd y byddai'r dasg yn cymryd o leiaf dwy flynedd i'w chyflawni, gyda rôl yr 'Arolygwr yn diweddu ar ôl 12 mis wedi sefydlu'r gweithdrefnau .

Amlygwyd bod yr amserlen yn dynn a bod cyfle agored yma i ymgynghorwyr allanol fanteisio ar y sefyllfa gan fod adnoddau annigonol o fewn awdurdodau i gwblhau'r gwaith. Nodwyd bod y Rheolwr Pensiynau yn fodlon parhau am flwyddyn ac ategwyd bod hyn yn gyfle euraidd i fanteisio ar brofiad unigolyn yn hytrach na thalu mwy petai cwmni ymgynghorol yn ymgymryd â'r gwaith.

Mewn ymateb i'r adroddiad nodwyd y dylid manteisio ar yr adnoddau mewnol ac osgoi defnyddio ymgynghorwyr allanol, costus. Derbyniwyd yr argymhelliad fel opsiwn da ac i adolygu'r sefyllfa ymhen 6 mis.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R GWARIANT I ARIANNU ADNODDAU STAFF AR GYFER CYSONI ISAFSWM PENSIWN GWARANTIEDIG.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 2:45pm

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 14/9/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, W.Tudor Owen, Angela Russell, Elfed W. Williams, Ann Williams ac Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Llywarch Bowen Jones, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd a Peter Read.

Mynegwyd diolch i'r Cynghorydd Eddie Dogan am ei wasanaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu dros y blynyddoedd - nodwyd bod y Cynghorydd yn sefyll i lawr fel Cynghorydd oherwydd ei iechyd.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 22ain o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 16.07.15.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:55a.m a daeth i ben am 11:00am

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 3/11/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams yn arbennig y Cynghorwyr Annwen Daniels ac Wyn Williams fel Aelodau newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen a Peter Read.

Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Cynghorwyr Peter Read a Louise Hughes.

Amlygwyd pryder eto bod angen adolygu presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau i sicrhau bod Cynghorydd yn derbyn ei gyfrifoldeb i fynychu'r pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 14eg o Fedi 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 2.9.15

## 6. CYMERADWYAETH I GYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL AR DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT – DEDDF TRWYDDEDU 2003

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu. Gosodwyd gwybodaeth gefndirol yr adroddiad gan nodi'r angen i bob awdurdod trwyddedu gyhoeddi datganiad o bolisi trwyddedu bob 5 mlynedd yn unol ag Adran 5 Deddf trwyddedu 2003. Bydd pob awdurdod yn adolygu eu polisi gan wneud unrhyw ddiwygiadau a ystyrir yn briodol o fewn y cyfnod pum mlynedd.

Yng nghyd-destun Cyngor Gwynedd, nodwyd bod y polisi presennol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar y 16 o Ragfyr 2010 gyda'r cyfnod 5 mlynedd yn dod i ben ar y 6ed o Ionawr 2016. Bydd cyfnod ymgynghori priodol yn cael ei weithredu cyn penderfynu a chyhoeddi polisi newydd.

Amlygwyd, fel rhan o'r prosiect cydweithio Gwarchod y Cyhoedd ar draws Gogledd Cymru, sefydlwyd Grŵp Tasg i greu datganiad o bolisi trwyddedu 'cyffredin' ar draws Gogledd Cymru. Cytunwyd ar strwythur 'Cynnwys' y polisi, ond, oherwydd effaith ffactorau economaidd a chymdeithasol ar bob awdurdod, eglurwyd bod pob datganiad wedi ei eirio'n wahanol ac yn berthnasol felly i ardal benodol.

O ran fformat y polisi drafft newydd, eglurwyd bod ystyriaeth fanwl wedi ei roi i hwyluso'r darllenydd i ddod at y wybodaeth. Creuwyd adrannau ac isadrannau i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar faterion a phwerau sydd wedi dod i rym ers i'r polisi presennol cael ei fabwysiadu yn 2010 (enghraifft o hyn yw'r Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar ac Ardoll Hwyr y Nos). Yn ychwanegol, amlygwyd bod geiriad y polisi wedi ei addasu er mwyn cyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol (enghraifft o hyn yw bod diffiniad adloniant wedi ei rheoleiddio wedi ei addasu'n sylweddol yn dilyn y Ddeddf Cerddoriaeth Byw 2012 a'r Ddeddf Dadreoleiddio 2015) a bod yr amcanion trwyddedu wedi ei hyrwyddo drwy'r polisi.

O ran trefniadau ymgynghoriad ffurfiol (fydd ar agor am 21 diwrnod), nodwyd y bydd y polisi yn cael ei rannu gyda;

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tan & Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y sir
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol
- Cynghorwyr, Cynghorau Cymuned ac awdurdodau cyfrifol.
- Siop Gwynedd ac gwefan Cyngor Gwynedd

Amlygwyd nad oedd unrhyw faterion dadleuol yn y polisi ac felly ni ragwelir nifer helaeth o ymatebion.

Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol:
- Croesawu cydweithio da gyda swyddogion y Gogledd i sicrhau strwythur i'r datganiad
- Croesawu bod asesiad cydraddoldeb wedi ei ddosbarthu
- Croesawu bod amddiffyn plant yn cael ei gynnwys yn y datganiad
- Croesawu bod y datganiad yn haws i'w ddarllen a bod y prif faterion wedi eu hamlygu.

Diolchwyd i'r Rheolwr Trwyddedu am ei gwaith o ddiweddaru a diwygio'r datganiad.

**PENDERFYNWYD**

**CYMERADWYO'R HAWL I BENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO DDECHRAU YMGYNGHORIAD STATUDOL AR Y DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU DRAFFT.**

**BOD ADRODDIAD I'W GYFLWYNO I'R PWYLLGOR HWN 1AF O RAGFYR 2015, FYDD YN AMLINELLU'R YMATEBION A DDERBYNIWYD AC I'R PWYLLGOR YSTYRIED NEWIDIADAU AR Y DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU DRAFFT YN ÔL YR ANGEN.**

**YN DILYN CYMERADWYAETH GAN Y PWYLLGOR HWN, CYFLWYNO'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU NEWYDD ER YSTYRIAETH Y CYNGOR LLAWN AR 10 RHAGFYR 2015**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 2:30pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 14/9/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, W.Tudor Owen, Angela Russell, Elfed W. Williams, Ann Williams ac Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Llywarch Bowen Jones, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd a Peter Read.

Mynegwyd diolch i'r Cynghorydd Eddie Dogan am ei wasanaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu dros y blynyddoedd - nodwyd bod y Cynghorydd yn sefyll i lawr fel Cynghorydd oherwydd ei iechyd.

Amlygwyd pryder yn y niferoedd o Aelodau a oedd yn bresennol ac at y niferoedd o seddi gwag oedd ar y Pwyllgor. Cytunwyd tynnu sylw'r Swyddog Monitro at y mater.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 22ain o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12.06.15.

**6. FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI ARFAETHEDIG 2015**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn argymell y Pwyllgor i gefnogi'r bwriad o gynyddu Ffioedd Trwyddedau Tacsi i'r lefelau a argymhellir, er mwyn adennill costau'n llawn, cyn i'r Pennaeth Rheoleiddio eu hawdurdodi fel eu bod yn weithredol o'r 1 Hydref 2015.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ffioedd trwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn mynegi y gellid codi ffioedd ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol. Penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu yma ar y 24ain o Fehefin 2013 oedd,

- Adolygu ffioedd yn flynyddol
- Bod rhaid i ffioedd trwyddedu tacsi gael eu cynyddu i adennill costau'n llawn.

Eleni, mae'r Adran Trysorydd wedi cyfrifo mai y swm y caniateir y Cyngor i adennill y cost o ddarparu'r swyddogaeth Trwyddedu tacsi ar gyfer 2015/16 yw £141,626.
Yn 2014/15, incwm trwyddedu tacsi oedd £127,848. **Rhagwelir** felly y bydd diffyg incwm o £13,778 ar gyfer 2015/16. Awgrymwyd, i adennill y costau'n llawn ac i sicrhau bod yr Uned Trwyddedu yn hunan - gynhaliol, buasai angen cynyddu'r ffioedd eleni o 10.78%.

Adroddwyd bod y ffioedd arfaethedig wedi cael eu hymgynghori arnynt yn fewnol gyda'r Pennaeth Cyllid, sydd yn cefnogi cynyddu'r ffioedd er mwyn adennill costau yn llawn. Rhoddwyd rhybudd cyhoeddus yn y wasg leol ar 20 Awst 2015 a chopi o'r rhybudd yn Siop Gwynedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn unol â gofynion statudol. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Medi 2015. Yn ychwanegol i'r gofynion statudol, rhoddwyd copi o'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ac fe hysbyswyd y diwydiant tacsi o'r ymgynghoriad drwy lythyr ar 14 Awst 2015. Anfonwyd cyfanswm o 505 o lythyrau ac atgoffwyd y diwydiant bod cyfle iddynt roi sylwadau ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghoriad. Hyd at 14/09/15 roedd yr Uned Trwyddedu wedi derbyn **un** llythyr yn gwrthwynebu'r ffioedd newydd.

Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol;

- A fydd diffyg costau yn batrwm parhaol?
- A yw niferoedd gyrwyr yn lleihau oherwydd cynnydd mewn costau?
- Beth yw'r gymhariaeth gyda siroedd cyfagos
- Gweithredwyr a gyrwyr angen adennill costau, felly rhaid sicrhau tegwch
- Yn hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi codi ei ffioedd yn gyson, ac felly ers 2013 y cynnydd yn ymddangos yn uchel. Er hynny, y canrannau wedi eu cynyddu ar raddfeydd derbyniol.
- 505 o lythyrau wedi eu hanfon allan - Un gwrthwynebydd sydd wedi ymateb i'r adolygiad - hyn yn rhoi darlun bod y cwmnïoedd yn derbyn y cynnydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Rheoleiddio mai'r bwriad yw i'r ffi gyrraedd y gost o ddarparu gwasanaeth gyda'r gobaith na fydd diffyg yn y pendraw. Os bydd yr incwm yn uchafu'r costau, bydd rhaid ystyried yr elw yn erbyn costau'r flwyddyn ganlynol. Bydd y ffioedd yn cael eu hadolygu yn flynyddol - anodd rhagweld beth yw'r ffioedd, ond rhaid gweithredu yn unol â'r ddeddf.

Nodwyd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd newid sylweddol yn nifer y gyrrwr / gweithredwyr, ond atgoffwyd yr Aelodau y bydd hyd amser trwydded yn newid yn Hydref 2015 yn sgil gofynion Deddf Dadreoleiddio 2015. Bydd hyd trwydded yn 3 a 5 mlynedd ac felly bydd hyn eto yn creu effaith ar yr incwm. Nodwyd hefyd y bydd modd darparu gwybodaeth am ffioedd Siroedd cyfagos erbyn y cyfarfod nesaf. Yn ychwanegol, amlygwyd y bydd pob Cyngor yn gorfod adolygu eu ffioedd erbyn 1.10.2015.

Cytunwyd ac eiliwyd i gefnogi'r bwriad.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r bwriad i gynyddu'r Ffioedd Trwyddedau Tacsi i'r lefelau a awgrymwyd er mwyn adennill costau'n llawn, cyn i'r Pennaeth Rheoleiddio eu hawdurdodi fel eu bod yn weithredol o'r 1 Hydref 2015**

## 7. ADOLYGU POLISÏAU CYNGOR GWYNEDD

**- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol**
**- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat**
**- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i adolygu'r polisïau trwyddedu a chreu polisi unedig yn hwyrach na thri polisi / dogfen arwahan. Nodwyd hefyd bod y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2015 wedi penderfynu bod angen diweddaru ac adolygu'r polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud a Thrwyddedau Tacsi yn dilyn cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau sydd ddim yn cwrdd â'r polisi ac yn dilyn y Ddeddf Dadreoleiddio 2015 a'r mesurau sy'n cael effaith ar y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

O safbwynt polisi unedig, nodwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol: (cyf 'Taxi and PHV Licensing - Councillor's Handbook' dyddiedig Mawrth 2015) yn annog yn gryf i awdurdodau Trwyddedu greu polisi unedig sy'n dod a'r holl bolisïau a'u gweithdrefnau i un lle. Bydd creu polisi unedig sydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn rhoi eglurder i yrwyr a gweithredwyr, yn ogystal â chryfhau sefyllfa'r Cyngor petai her yn erbyn penderfyniad yn y llys.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y newidiadau arfaethedig lefel uchel y buasai angen eu hystyried yng nghyd -destun gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr gan roi sylw penodol i 'hawliau taid' , 'manyldeb oedran cerbyd' a 'mynediad cadair olwyn'.

O dan 'hawliau taid' cynigiwyd:

Cynnig 1: Bod statws 'Hawliau Taid' perchnogion cerbydau hacni Arfon yn cael ei dynnu o'r polisi a bod holl berchnogion cerbydau hacni yn ddarostyngedig i'r un amodau a gofynion cerbyd. Cynigir hefyd bod y gofynion ar gyfer holl gerbydau ym mhob parth yn cael eu huno er mwyn creu polisi mwy tryloyw a perthnasol i holl berchnogion ar draws y sir.

O dan 'manyldeb oedran cerbyd' cynigiwyd,

Cynnig 2: Ym mhob parth, rhaid cais i drwyddedu cerbyd am y tro cyntaf fel Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 6 mlwydd oed ar y dyddiad pan fydd y cais cyflawn wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Cynnig 3: Ym mhob parth, rhaid cais i adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 12 mlwydd oed ar y dyddiad pan ddaw'r drwydded gyfredol i ben.

Cynnig 4: Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat y tu hwnt i'r terfyn oedran uchaf o 12 mlynedd os gellir dangos bod y cerbyd mewn 'cyflwr eithriadol'.

O dan 'mynediad cadair olwyn' cynigiwyd:

Cynnig 5: Bydd yr holl berchnogion yn cael eu hannog i drwyddedu cymaint o gerbydau sy'n hygyrch i gadair olwyn y maent yn ystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd Cyngor Gwynedd yn gosod gofyniad bod rhaid oeliaf 1 cerbyd hacni mewn fflyd o 7 cerbyd hacni fod yn gerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly os yw maint y fflyd yn 14 cerbyd hacni byddai gofyn i o leiaf 2 o'r 14 cerbyd fod yn gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

Rhagwelwyd y byddai Cynigion 1 - 5 yn cael eu hystyried fel newidiadau dadleuol i'r polisi cyfredol ac amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat gan rhai perchnogion neu ddefnyddwyr, yn enwedig yn ardal Arfon. Fodd bynnag, amlinellwyd y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu yn ysbryd 'Ffordd Gwynedd' ac yn sicrhau cysondeb i bawb ar draws y parthau. Nodwyd bod amrywiaeth i ofynion yn gymhleth ac felly'r gobaith yw cyflwyno polisïau sydd yn cyfarch pobl Gwynedd a sicrhau gwasanaeth Trwyddedu effeithiol ar gyfer holl berchnogion a defnyddwyr.

O ran amserlen, nodwyd bod yr Aelod Cabinet yn awyddus i'r Pwyllgor dderbyn copi drafft o'r polisi unedig cyn dechrau ymgynghoriad. Bydd y swyddogion yn anelu at gyflwyno dogfen drafft i'r cyfarfod nesaf (Rhagfyr 7fed 2015)

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad yn unol â'r argymhellion diwygiedig:**

**Bod y Pwyllgor yn awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio i gychwyn adolygiad o'r polisïau trwyddedu mewn perthynas â gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr hacni a hurio preifat.**

**Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol Cynigion 1 i 5 fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.55am

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR ARCHWILIO 24/9/15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Trevor Edwards, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, W. Tudor Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 5 a 6 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Amanda Hughes (Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a Glyn Thomas.

**1. TEYRNGED**

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Gynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd y Pwyllgor).

Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

Talwyd teyrnged yn ogystal i'r cyn aelod y Cynghorydd Eddie Dogan.

**2. CROESO**

Estynnwyd croeso i'r Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian ac W. Tudor Owen a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015, fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15**

**i) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd fod Atodiad 3 yn yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 16 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

**ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

**a) Cyfrifon y Cyngor**

Yn unol â'r drefn Archwilio Flynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad SAC. 'Roedd Arweinydd Ymgysylltu a Rheolwr Lleol, SAC, yn bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Nodwyd bod SAC yn gyfrifol am gynnal archwiliad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Adroddwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2014/15.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol gan gynrychiolwyr SAC:

- Y byddai oedi cyn ardystio'r cyfrifon gan fod aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â gwariant Asiantaeth Cefnffyrdd. O ganlyniad, ni allai SAC gwblhau eu cyfrifoldebau archwilio yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif i gau'r archwiliad cyn bod y mater wedi ei gyfarch.
- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, bod SAC wedi adnabod gorddatganiad o £825,000 yn y darpariaethau, sef:
    - Darpariaeth o £490,000 ar gyfer y golled o ran y dreth Gyngor yn y dyfodol o ganlyniad i ddeiliaid tai ag eiddo sydd ddim yn llawn drwy gydol y flwyddyn yn newid i Ardreth Annomestig Genedlaethol.
    - Darpariaeth o £335,000 i gyfrannu tuag at y diffyg sy'n bodoli o ran pensiwn.
- Er bod rhwymedigaeth wedi'i wneud yn y gorffennol mewn perthynas â'r costau hyn, nid yw'n briodol cael darpariaeth yn y cyfrifon gan fod y rhwymedigaeth eisoes wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon yn sgil Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 - Buddiannau Gweithwyr (IAS19).
- Nodwyd er y gwerthfawrogir mai doeth yw neilltuo'r cyllid mewn termau cyllidebol, nid ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniad o "ddarpariaethau" o safbwynt cyfrifyddu technegol ac y byddai'n fwy priodol i'r symiau hyn gael eu neilltuo fel cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Cyllid:

- Nid oedd o'r farn bod gwrthwynebiad yr aelod o'r cyhoedd yn ymwneud yn uniongyrchol efo'r cyfrifon am 2014/15;
- Yng nghyswllt y gorddatganiadau, mai dau fater cyfrifyddu technegol oedd dan sylw. Neilltuwyd dwy gronfa yn ddarbodus, ond bod yr archwiliwr yn awgrymu na ddylid eu trin fel darpariaethau. Nodwyd bod sail i fedru ystyried arian a neilltuwyd naill ai fel darpariaethau neu fel cronfeydd, ond byddai'n ail-ystyried y drefn erbyn 2015/16.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed y ddarpariaeth o ran Treth Cyngor, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod Ymchwiliad Craffu ar y gweill yng nghyswllt Tai Gwyliau a Threthi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd bod y rhagdybiaethau a dull cyfrifo'r diffyg pensiwn hanesyddol wedi newid, gyda chyfraniad o swm penodol yn hytrach na chanran o gyflog. Adroddwyd nad oedd y nifer swyddi wedi gostwng gymaint a ragwelwyd yn 2014-15, felly bod mwy o arian wedi'i neilltuo, ond oherwydd yr hinsawdd ariannol rhagwelir lleihad yn y nifer swyddi mewn blynyddoedd dilynol, felly roedd yn ddarbodus i glustnodi'r arian perthnasol.

**b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2015.

Nododd bod SAC yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn.

Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2014/15.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru:

- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, bod SAC wedi adnabod bod buddion marwolaethau a lwmp symiau eraill wedi eu tan ddatgan o £119,000 gyda dau daliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2014/15 wedi eu cyfrifyddu o dan 2015/16. Ychwanegodd mai mater bach ydoedd, ond bod dyletswydd ar SAC i dynnu sylw i'r mater.
- Nad oedd y Gronfa Bensiwn wedi diweddaru ei Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi Ysgrifenedig (SIP) yn unol â'r amserlen adolygu o bob tair blynedd.
- Er yr adroddir ar wahân ar gyfrifon y Cyngor a chyfrifon y Gronfa Bensiwn, un dystysgrif y cyflwynir. Nododd na allai'r Archwilydd Cyffredinol rhyddhau tystysgrif nes y bydd ymholiadau sy'n codi o wrthwynebiad a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi ei gwblhau'n ffurfiol.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Cyllid:

- Bod y tan ddatganiad yn swm cymharol fychan o ystyried gwerth £1,400,000,000 y Gronfa Bensiwn, felly ni ystyrir bod angen ei gywiro.
- Byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a chynhelir ymgynghoriad arno yn 2015/16.

Diolchodd Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru am y cydweithio dros y blynyddoedd o ran archwilio'r cyfrifon gyda chyfnod SAC o'u harchwilio yn dod i ben. Ychwanegodd bod ansawdd y cyfrifon wedi hwyluso'r archwiliadau dros y blynyddoedd.

Nododd y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid eu gwerthfawrogiad o waith archwilwyr SAC dros y blynyddoedd.

Eglurwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynnu dyrannu'r gwaith o archwilio'r cyfrifon i gwmni Deloitte. Nodwyd nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad technegol i'r newid ond eu bod wedi pwysleisio i'r Archwilydd Cyffredinol gan mai Cymraeg yw iaith gweinyddiaeth mewnol y Cyngor y byddai rhaid i'r cwmni ymdopi â hyn.

Nododd aelod y dylid anfon llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol i ddiolch am waith a chydweithrediad swyddogion SAC dros y blynyddoedd yng nghyswllt archwilio'r cyfrifon.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**(ii) y dylid anfon llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol i ddiolch am waith a chydweithrediad swyddogion SAC dros y blynyddoedd yng nghyswllt archwilio'r cyfrifon.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi, yn ystod y pum mis rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2015, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, ac nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian yn methu ad-dalu.

Adroddwyd bod 98% o fuddsoddiad y Cyngor ym Manc Heritable wedi ei adennill, gyda dim ond £80,376 bellach heb ei dalu, a'i fod yn debygol y derbynnir dosraniad pellach.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 20 Awst 2015 i ystyried saith archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2015 a 30 Mehefin 2015 sef -

a) Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
b) Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig
c) Taliadau Cymorth Cyntaf
ch) System Swyddi
d) Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol
dd) Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal
e) Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd.

Nodwyd yr ystyriwyd yn ogystal archwiliad 'Gorfodaeth Parcio' a oedd wedi derbyn barn B yn ogystal â mater a godwyd gan aelod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf yng nghyswllt Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf.

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Nododd aelod nad oedd yn bosib iddo fynychu cyfarfod y Gweithgor ar gyfer y drafodaeth ar y mater Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf gan ei fod ar ei wyliau.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed asesiadau risg, nododd y Rheolwr Archwilio bod Archwilio Mewnol llynedd wedi gwirio asesiadau risg gan yr Adrannau yn ogystal a cadarnhau bod y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn gwirio asesiadau risg yr Adrannau.

Holwyd yng nghyswllt archwiliad Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol, yn dilyn penderfyniad Ewrop bod amser gwaith gweithwyr gofal cymunedol yn cychwyn pan yn gadael y cartref, beth oedd yr oblygiadau ariannol i'r Cyngor. Nodwyd bod y mater yn derbyn sylw gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran monitro cynnydd y Gwasanaethau ar yr argymhellion, nododd y Rheolwr Archwilio bod archwiliadau dilyniant wedi eu cynllunio.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 11 Medi 2015**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 11 Medi 2015. Nodwyd bod 8 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod ynghyd â 2 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Cronfa'r Cadeirydd**

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, eglurwyd mai cyllideb blynyddol oedd y "gronfa", mewn gwirionedd.

**Prif System Gyfrifo – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol**

Tynnodd aelod sylw at fater a amlygwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ar 18 Medi 2015 o ran defnydd codau gwariant un Adran gan Adran arall. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yn anghyffredin i unigolyn ddal swydd gyda mwy nag un Adran, a bod dyletswydd ar reolwyr i wirio'r wybodaeth. Nododd yr aelod y byddai'n trafod y mater gyda'r swyddogion ar derfyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf i 11 Medi 2015 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod Cadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Tom Ellis, John B. Hughes a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C'.**

**(c) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol wedi rhagori ar darged chwarter 2, gyda 23.81% o archwiliadau'r cynllun wedi eu rhyddhau yn derfynol o gymharu â'r targed o 20% cyn diwedd y chwarter.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 28/9/15

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Simon Glyn, Gwen Griffith, Dyfrig Wynn Jones, Eric M. Jones (eilydd), June Marshall, W. Tudor Owen, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans a Sion Wyn Jones (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Glyn Llewelyn Gruffydd (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Dilwyn Lloyd (eilydd), John Pughe Roberts a'r Cynghorwyr D. Gwynfor Edwards a Sian Gwenllian (Aelodau Lleol).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynnwyd croeso i aelod newydd o'r Pwyllgor, y Cynghorydd Simon Glyn a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf.

Cyfeiriwyd at y diweddar Gynghorydd Robert J. Wright a nodwyd y rhoddir teyrnged iddo yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Hydref 2015.

Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Michael Sol Owen, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/0282/45/LL);
- Y Cynghorydd Aled Ll. Evans, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (ceisiadau cynllunio rhifau C15/0421/41/LL a C15/0751/41/LL);
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/0429/35/LL);
- Y Cynghorydd Sion Wyn Jones, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/0757/18/LL);
- Y Cynghorydd Elwyn Edwards, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C15/0517/04/LL).

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Medi 2015 fel rhai cywir.

**4. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais rhif C13/1298/11/AM – Tir ger Lôn Pobty, Lôn Pobty, Bangor**

Cais llawn ar gyfer codi adeilad deulawr sy'n darparu 18 uned hunan gynhaliol ar gyfer myfyrwyr, torri coed wedi eu gwarchod gan orchymyn gwarchod coed, newidiadau i'r fynedfa gerbydol bresennol ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerddwyr, a thirlunio.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod safle'r cais wedi ei leoli o fewn ardal breswyl ar gyrion Dinas Bangor.

Tynnwyd sylw at dablau yn yr adroddiad a oedd yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf (Medi 2015) o ran datblygiadau llety myfyrwyr pwrpasol preifat ym Mangor. Nodwyd bod y wybodaeth yn amlygu nad yw holl anghenion llety ar gyfer myfyrwyr yn cael ei gyfarch o fewn llety myfyrwyr pwrpasol. Cyfeiriwyd at benderfyniad apêl cais i ddarparu llety myfyrwyr ar gyn safle Jewson, Bangor lle nododd yr Arolygydd bod 'angen amlwg am ddarparu mwy o lety i fyfyrwyr ym Mangor'.

Ystyrir bod angen clir yn bodoli ar gyfer datblygiadau llety myfyrwyr pwrpasol, gyda datblygiadau o'r math yma gyda'r potensial i gael effaith bositif ar y farchnad dai lleol gan y gall ryddhau tai amlfeddiannaeth ar gyfer eu defnyddio gan aelwydydd lleol sydd angen tai o'r fath, a darparu cyfleusterau safonol i fyfyrwyr sydd wedi ei reoli mewn modd ffurfiol.

Nodwyd yr argymhellir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ddirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i arwyddo cytundeb 106 yn ymwneud â chyfraniad ar gyfer gwella a chynnal llecyn chwarae agored. Adroddwyd er sicrhau cysondeb yng nghyswllt ceisiadau llety pwrpasol myfyrwyr ni ystyrir ei bod yn rhesymol gofyn am gyfraniad o'r math yma gan y credir bod darpariaeth chwaraeon y Brifysgol yn ymateb i'r angen yma ar hyn o bryd.

Cyfeiriwyd at wrthwynebiadau a dderbyniwyd ar sail diogelwch ffyrdd, mynediad a chynnydd mewn traffig. Nodwyd bod y bwriad yn golygu gwella'r fynedfa bresennol a darperir 4 llecyn parcio ynghyd â lle ar gyfer troi cerbydau o fewn cwrtil yr adeilad. Ychwanegwyd yn dilyn derbyn cynllun diwygiedig yn dangos gosodiad y ffyrdd a phalmentydd cyfagos nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth wrthwynebiad i'r bwriad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Ei bod yn byw yn yr adeilad rhestredig gyferbyn â'r safle a'i bod yn siarad ar ran y gymuned;
- Bod y gymuned leol yn ceisio dod i arfer efo'r datblygiad llety myfyrwyr ar hen safle'r Santes Fair a byddai'r datblygiad yma yn ddatblygiad yn rhy bell;
- Bod nifer o geisiadau ar gyfer y safle wedi eu cyflwyno dros y blynyddoedd gyda'r cais diwethaf yn 1990 wedi ei wrthod ar apêl oherwydd pryderon diogelwch o ran mynediad a'r effaith ar osodiad yr adeilad rhestredig;

- Bod y Datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn nodi mai o Lôn Bopty fyddai mynediad i'r safle ond Bishops Mill Road sef lôn sengl serth gydag un man troi fyddai'r lôn mynediad;
- Y byddai'r newidiadau i'r fynedfa yn Lôn Bopty yn gwella gweledd fymryn ond ni fyddai'n gwella mynediad i'r safle;
- Nad oedd y bwriad yn cydymffurfio â pholisi CH33 na D19 o'r CDUG;
- Y defnyddir cerbydau llai i gasglu gwastraff ar hyd y lôn oherwydd ei fod yn gul;
- Byddai'r datblygiad yn effeithio ar osodiad yr adeilad rhestredig;
- Effeithir ar breifatrwydd a distawrwydd trigolion os caniateir y cais;
- Nad oes llawer o olau naturiol ar Lôn Bopty yn bresennol a byddai'r datblygiad yn ychwanegu at hyn;
- Bod Gorchymyn Gwarchod Coed ar goed ar y safle;
- Bod ystlumod a dallneidr yn bresennol ar y safle;
- Ni fyddai'r datblygiad yn diwallu anghenion yr ardal.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod safle'r datblygiad oddi mewn i'r ffin datblygu;
- Bod angen am lety myfyrwyr fel y nodir ym mhenderfyniad apêl yr Arolygydd yng nghyswllt cais 110-114 Stryd Fawr, Bangor;
- Bod y nifer unedau wedi gostwng o 32 i 18 uned;
- Diwygiwyd dyluniad yr adeilad;
- Y byddai'r adeilad wedi ei leoli digon pell o'r adeilad rhestredig;
- Bod yr Uned Drafnidiaeth yn fodlon efo'r gwelliannau bwriadedig i'r fynedfa;
- Y diwigwyd y cais gwreiddiol i sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol.

(ch) Nododd aelod ei bod wedi derbyn e-bost gan yr Aelod Lleol oedd yn nodi ei fod yn croesawu'r datblygiad ar safle'r hen Santes Fair ond ei fod yn gwrthwynebu'r datblygiad hwn oherwydd y straen ar y gymuned o ran parcio a threfniadau casglu sbwriel. Roedd o'r farn nad oedd angen mwy o ddarpariaeth i fyfyrwyr yn yr ardal yma.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:

- bod tystiolaeth glir o ran yr angen am lety myfyrwyr pwrpasol;
- bod y cynllun wedi ei addasu a'i leihau'n sylweddol o'r bwriad gwreiddiol.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

(d) Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed yr angen am lety myfyrwyr pwrpasol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu bod diffyg darpariaeth o oddeutu hanner gan y Brifysgol.

Gwnaed cynnig gan aelod y dylid gohirio gwneud penderfyniad ar y cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan fod ceisiadau cynllunio blaenorol ar y safle wedi eu gwrthod oherwydd mynediad i'r safle.

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle.**

**2. Cais rhif C14/1222/30/LL – Bryn Gwynt, Anelog, Aberdaron**

Defnyddio safle carafanau eithriedig Clwb Gwersylla a Charafanau fel safle annibynnol ar gyfer lleoli 10 o garafanau teithiol tymhorol a 5 pabell.

(a) Adroddwyd y derbyniwyd cais gan Asiant yr ymgeisydd i ohirio trafod y cais er mwyn cynnal trafodaethau pellach.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais.**

**3. Cais rhif C15/0282/45/LL – Villa Fioretta, Yr Ala, Pwllheli**

Cadeiriwyd y drafodaeth ar y cais hwn gan yr Is-gadeirydd.

Adeiladu tŷ annedd gyda modurdy cysylltiol a ffurfio mynedfa a llefydd parcio a throi ynghyd a gwaith cysylltiol.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle o fewn parth llifogydd C1. Adroddwyd y derbyniwyd asesiad canlyniadau llifogydd diwygiedig yn dilyn derbyn cadarnhad gan Ymgynghoriaeth Gwynedd bod cwrs dŵr ar y safle dal yn weithredol. Nodwyd mai'r bwriad bellach oedd adlinio'r cwrs dŵr oddeutu 5 medr ymhellach draw tuag at ffin orllewinol y safle gyda'r cwrs dŵr newydd yn gadael y safle yn y lleoliad presennol yn dilyn pryder Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Tynnwyd sylw y derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Bioamrywiaeth yn nodi nad oedd pryderon bioamrywiaeth.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd ei werthfawrogiad o waith y swyddogion a'i obaith y byddai'r Pwyllgor yn caniatáu'r cais.

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Y dylid sicrhau yn dilyn pryderon CNC bod y cwrs dŵr yn gadael y safle yn y lleoliad presennol;
- Ei fod yn ddigon rhesymol i amodi y dylid defnyddio bricsen lliw addas yn hytrach na coch ar y plinth gan ei fod ddim yn nodweddiadol o'r ardal a bod angen i'r adeilad gydweddu â phensaernïaeth yr ardal;
- Bod yr amodau a argymhellir o ran gosod sgrin preifatrwydd 1.7 medr o uchel ar ochr orllewinol a dwyreiniol y balconi ar bob adeg a dim gosod ffenestri ychwanegol i'r rhai a ddangosir ar y cynlluniau yn holl bwysig er cyfarch y pryderon o ran preifatrwydd;
- Ei fod yn hanfodol fod lefel llawr gorffenedig y tŷ ddim is na 4.717mAOD oherwydd lleoliad y safle;
- Y byddai adlinio'r cwrs dŵr yn diogelu tai o gwmpas y safle o ystyried y risg llifogi.

(ch) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed adlinio'r cwrs dŵr, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu byddai rhaid i'r ymgeisydd wneud cais ffurfiol tu allan i'r drefn gynllunio er mwyn gwneud hyn, ond ni ragwelir unrhyw broblem.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol gyda'r cynlluniau diwygiedig dderbyniwyd 24 Gorffennaf 2015.
3. Llechi ar y to.
4. Cytuno gorffeniad waliau allanol, gan gynnwys lliw'r fricsen.
5. Sgrin preifatrwydd 1.7 medr o uchel i'w osod ar ochr orllewinol a dwyreiniol y balconi ar bob adeg.
6. Dim gosod ffenestri ychwanegol i'r rhai ddangosir ar y cynlluniau.

7. Tirlunio.
8. Lefel llawr gorffenedig i fod ddim is na 4.717mAOD.
9. Y llefydd parcio a throi i fod yn weithredol cyn i'r eiddo gael ei feddiannu am y tro cyntaf.
10. Amodau Dŵr Cymru ynglŷn â draeniad dŵr wyneb, dŵr budr a draeniad tir.
11. Oriau adeiladu i'w gyfyngu i 08.00 - 18.00 Llun i Gwener, 08.00 - 13.00 Dydd Sadwrn a dim o gwbl ar y Sul a Gŵyl Banc oni bai y cytunir yn wahanol ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Nodyn – Angen ail leoli'r cwrs dŵr cyn i weddill y datblygiad gychwyn.

**4. Cais rhif C15/0421/41/LL – Llety Plu, Llangybi, Pwllheli**

Estyniad i fodurdy presennol (diwygiad i gynllun a wrthodwyd dan gais rhif C15/0012/41/LL).

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi y gohiriwyd y cais yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Medi 2015 er mwyn cynnal ymweliad safle.

Nodwyd yr ystyrir y byddai estyniad pellach i'r modurdy yn creu adeilad a fyddai o raddfa a dyluniad estron i'r lleoliad o safbwynt adeilad atodol o'r fath ac fe fyddai'n or-ddatblygiad anghydnaws o'r safle.

Tynnwyd sylw bod lleoliad y cais oddi mewn Ardal Gadwraeth Llangybi a ni ystyrir y byddai graddfa, maint na ffurf yr estyniad yn gyson gydag adeiladau na phatrwm yr ardal gadwraeth.

Nodwyd fod y bwriad yn groes i bolisïau B4, B22 a B24 o'r CDUG.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Ei fod yn gwerthfawrogi'r ymweliad safle;
- Bod disgrifio'r datblygiad fel 'gor-ddatblygiad estron' yn mynd braidd dros ben llestri;
- Bod arwynebedd y tŷ yn ddigonol i dderbyn maint yr estyniad i'r modurdy;
- Nad oedd gwrthwynebiad wedi dod i law gan gymdogion;
- Y cwrtil eisoes wedi ei ymestyn;
- Pwrpas yr adeilad yw darparu mwy o le i'r ymgeisydd gadw offer a hen beiriannau;
- Na fyddai'r datblygiad yn effeithio ar yr ardal gadwraeth;
- Gobeithio y caniateir y cais.

Cynigwyd a eiliwyd i wrthod y cais.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Nad oedd gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r bwriad ac mai mater o farn ydoedd o ran ei faint;
- Nad oedd arwydd i ddynodi'r llwybr a oedd yn rhedeg heibio'r safle fel llwybr cyhoeddus ac os caniateir dylid sicrhau bod arwydd o'r fath yno;
- Bod y llwybr cyhoeddus ddim yn hygyrch i bobl anabl yn bresennol a byddai'r estyniad arfaethedig yn nes at y llwybr;
- Bod yr ymgeisydd angen adeilad o'r maint yma ar gyfer adfer hen gelfi a oedd yn holl bwysig er parhau a gwarchod traddodiad;
- Pryder o ran maint yr adeilad wedi cwblhau'r estyniad arfaethedig;

- Bod estyniad mawr wedi ei ganiatáu yn barod a byddai'r estyniad arfaethedig yn or-ddatblygiad.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Bod ceisiadau cynllunio blaenorol wedi eu cefnogi a gwelir ymgais dameidiog i greu estyniad sydd yn cynyddu;
- Bod yr estyniad a ganiatawyd o dan gais C13/0162/41/LL yn golygu y byddai cyfanswm arwynebedd llawr y modurdy yn $62m^2$ a thybir y byddai'n ddigonol ar gyfer y defnydd sydd yn is-wasanaethol i ddefnydd yr eiddo;
- Na fyddai'r estyniad arfaethedig yn cyd-fynd â'r ardal gadwraeth gan y byddai'n hynod weledol;
- Bod angen i estyniadau fod yn gymesur â'r adeilad gwreiddiol ag yn parchu'r lleoliad;
- Bod arwyddion i ddynodi'r llwybr cyhoeddus wedi bod yn bresennol yn y gorffennol a chynhelir trafodaethau efo'r Uned Hawliau Tramwy o ran os byddai'r datblygiad yn amharu ar y llwybr.

(d) Pleidleisiwyd ar y cynnig i wrthod y cais ond fe syrthiodd y cynnig.

Gwnaed, ac eiliwyd cynnig i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion oherwydd bod yr effaith weledol yn dderbyniol.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau
3. Llechi
4. Deunyddiau i gyd-weddu
5. Dim defnydd busnes o'r adeilad yn ei gyfanrwydd
6. Cadw'r llwybr cyhoeddus yn glir

**5. Cais rhif C15/0429/35/LL – Llwyn Madyn, Muriau, Cricieth**

Estyniad llawr cyntaf gan gynnwys codi lefel y to creu balconi a newidiadau i'r ffenestri (ail-gyflwyniad yn dilyn gwrthod cais C14/1152/35/LL).

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y gohiriwyd y cais yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2015 er mwyn cynnal ymweliad safle.

Nodwyd byddai'r estyniad bwriadedig yn creu tŷ a fyddai'n sylweddol fwy na'r eiddo presennol mewn stad dai a ddominyddir gan fyngalos a byngalos gromen, felly ni ystyrir y byddai maint, swmp ac uchder yr adeilad ar ei newydd wedd yn parchu graddfa, gwedd na ffurf ddatblygedig y drefwedd gyfagos ac y byddai'n creu nodwedd amlwg ac anghydnaws yn y stad gweddol unffurf.

Nodwyd yr ystyrir y byddai'r dyluniad a gynigir, oherwydd ei uchder a'i swmp, yn creu elfen ymwthiol a fyddai'n dominyddu'r olygfa yn y rhan hon o'r stad ac y byddai'n ymwthiad annerbyniol ac anghydnaws yn y patrwm anheddol lleol.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Ei fod yn gwerthfawrogi'r ymweliad safle;
- Nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor Tref nac ychwaith trigolion cyfagos i'r bwriad;
- Y nodir yn yr adroddiad bod y safle wedi ei leoli mewn safle amlwg ar gyffordd rhwng dwy ffordd gyhoeddus ond nad oedd llawer o bobl yn teithio ar y lôn felly ni fyddai effaith gweledol;
- Dim ond oddeutu 1 medr yn uwch na'r tŷ cyfagos byddai'r datblygiad wedi ei orffen.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion oherwydd bod yr effaith weledol yn dderbyniol.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod croesdoriad o dai gwahanol yn y stad;
- Bod estyniadau wedi eu hadeiladu ar dai eraill yn y stad;
- Nad oedd y Cyngor Tref nac ychwaith trigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r bwriad;
- Na fyddai goredrych o gefn yr estyniad a byddai'n cydweddu i'r stad;
- Ni fyddai llawer o wahaniaeth o ran uchder yr estyniad a'r tŷ cyfagos;
- Bod angen cadw cymeriad y stad felly dylid gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio er bod dyluniad yr estyniad o ansawdd, ystyrir y byddai'n creu nodwedd amlwg ac anghydnaws yn y stad gweddol unffurf.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau
3. Llechi
4. Deunyddiau i'w cytuno
5. Tynnu PD ffenestri ychwanegol
6. Oriau adeiladu i'w gyfyngu i 08.00 - 18.00 Llun i Gwener, 08.00 - 13.00 Dydd Sadwrn a dim o gwbl ar y Sul a Gŵyl Banc oni bai y cytunir yn wahanol ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol

**6. Cais rhif C15/0751/41/LL – Fferm Bryn Bachau, Chwilog**

Gosod system ynni ffotofoltaidd (pv) ar ddaear hyd at 4.42 MW ar 14.22 o dir amaethyddol a gwaith cysylltiol gan gynnwys dau adeilad is-orsaf a ffensys diogelwch a strwythurau trawsnewid.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle yng nghefn gwlad agored yn y dirwedd donnog sydd rhwng ucheldiroedd canol Llŷn â Bae Ceredigion gyda chloddiau a gwrychoedd o amgylch caeau'r safle a chaeau eraill yr ardal.

Nodwyd yr ystyrir bod egwyddor y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau C1, C27 a C28 o'r CDUG ac yn cyd-fynd gyda Pholisi Strategol 9 ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

Amlygwyd gwrthwynebiad a dderbyniwyd oddi wrth berchennog ffermdy cyfagos yn bennaf ar sail yr effaith ar y tirlun a'r golygfeydd o'i eiddo. Wrth dderbyn ei fod yn bosibl bydd rhannau o'r safle yn weladwy o'r eiddo, oherwydd ffurf y tir, tyfiant presennol a phellter yr

eiddo o'r safle, dros 360m, ni chredir bydd y datblygiad yn ormesol i breswylwyr y ffermdy ac na fyddai'r effaith ar y tirlun mor niweidiol i gyfiawnhau gwrthod y cais.

Tynnwyd sylw at gynllun lleoli’r paneli solar a rannwyd gyda’r aelodau yn y cyfarfod ynghyd â sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan nodi bod y Swyddog Coed wedi adnabod bod helygen lwyd hynafol yn tyfu ar y safle ac argymhellir gosod amod bod rhaid amddiffyn y goeden yn ystod y datblygiad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda’r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod eu fferm deuluol gyfagos i safle’r cais a tra’n gefnogol i ddatblygiadau solar eu bod o’r farn y dylid eu gosod ar doeau adeiladau yn hytrach nac ar y tir;
- Nad oedd y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o’u pryderon;
- Y dylai’r aelodau wedi ymweld â’r safle;
- Bod cae rhif 2 wedi ei leoli ar fryn sydd yn edrych i lawr ar y fferm;
- Nad oedd plannu coed yn ymateb priodol o ran sgrinio;
- Eu pryder o ran graddfa a maint y datblygiad a fyddai’n gyfystyr â 15 cae pêl droed;
- Byddai’r tir yn ddiwydiannol yn hytrach na amaethyddol os caniateir y cais;
- Y byddai effaith ar fwynderau’r ffermdy oherwydd llacharedd yn ogystal â’r risg o gynyddu damweiniau.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod yr adroddiad yn arfarniad helaeth o’r cais a chytunir efo’r casgliadau;
- Na fyddai effaith gweledol sylweddol o ganlyniad i’r datblygiad;
- Bod y tir lle bwriedir lleoli’r datblygiad yn dir amaethyddol dosbarth 4 a 5 felly ni chollir tir amaethyddol gwerthfawr;
- Nad oedd y bwriad yn groes i unrhyw bolisi;
- Y parchir barn y gwrthwynebydd ond bod y materion perthnasol wedi eu hystyried yn yr asesiad;
- Y byddai rhai rhannau o’r datblygiad i’w weld o fannau eraill ond y gwnaed ymgais i ddethol y caeau byddai’n effeithio lleiaf a bwriedir cyfoethogi’r cysgod aeddfed o goed a gwrychoedd ar hyd ffin orllewinol y datblygiad;
- Y derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan gynrychiolwyr Hafan y Môr ac os caniateir y cais fe gynhelir trafodaethau â’r cwmni yng nghyswllt bodloni eu hanghenion ynni gwyrdd.

Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu’r cais.

(ch) Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid yr argymhelliad::

- Bod y cais yn cyrraedd y gofynion a’i fod yn hynod bwysig cynnal diwydiant yng nghefn gwlad gan ddod i gyfaddawd o ran gwarchod y dirwedd a ffyniant economaidd;
- Bod effaith gweledol yn orddrychol;
- Bod ffordd yr ariannir datblygiadau ynni adnewyddol yn newid diwedd mis heblaw bod datblygiad wedi derbyn caniatâd cynllunio;
- Er yn cydymdeimlo efo’r gwrthwynebydd yn gefnogol i’r bwriad gan fod safle’r cais wrth ymyl is orsaf drydan;
- Bod darpar brynwr posib yn lleol i’r ynni a gynhyrchir;
- Bod datblygiadau ynni adnewyddol yn bwysig o ystyried ein gorddibyniaeth ar olew a nwy;
- Bod astudiaethau niferus rhyngwladol yn dangos nad oes effaith ar dwristiaeth.

(d) Nodwyd y sylwadau canlynol yn groes i'r argymhelliad:

- O ystyried bod safle'r cais wedi ei leoli wrth ymyl Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, a fyddai'n bosib lleihau'r datblygiad?
- Y nodir na welir y datblygiad llawer o'r briffordd ond nodwyd hyn yn ogystal wrth ystyried cais Parciau Farm, Griffiths Crossing, Caernarfon sydd yn weladwy o'r briffordd;
- Ni fyddai'r datblygiad yn creu cyflogaeth leol;
- Effaith ar y ffermdy cyfagos yn annerbyniol;
- Ddim yn cydweld efo ynni gwyrdd a'r ffordd yr ariannir;
- Y byddai effaith gweledol o ganlyniad i'r datblygiad;
- Nad oedd asesiad ardrawiad effaith ynni o'r math hwn ar y dirwedd wedi ei wneud fel y gwnaed yng nghyd-destun tyrbinau gwynt ac felly bod peryg gosod cynsail i geisiadau'r dyfodol heb wybod yr effaith;
- Amheuaeth o ran maint y datblygiad a'r effaith y gallai gael ar dwristiaeth.

(dd) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:-

- Rhoddwyd ystyriaeth i ddynodiadau bioamrywiaeth wrth asesu'r cais a bod yr hyn a welir yn dderbyniol gyda dim ond cipolwg o'r datblygiad i'w weld oherwydd y dirwedd donnog a'r coed;
- Nad oedd Canllawiau Cynllunio Atodol wedi eu llunio ar gyfer ynni solar fel a greuwyd ar gyfer ynni gwynt ar y tir ond comisiynwyd cwmni Gillespies yn ddiweddar i asesu sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau;
- Bod tystiolaeth gadarn o'r capasiti ar gyfer datblygiadau o'r fath a'r CDUG yn cefnogi datblygiadau solar sydd yn llai na 5 MW;
- O ran ceisiadau o'r fath yn y dyfodol, bod angen dod i benderfyniad ar y cais hwn drwy ystyried y tystiolaeth presennol a byddai ystyriaethau o ran effaith gronnus datblygiadau o'r math yma i'w wneud efallai pan ddaw ceisiadau eraill gerbron;
- Bod ymgais i liniaru'r effaith weledol.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau
3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
4. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llacharedd.
5. Cytuno ar ddeunyddiau/lliwiau'r ffens a'r polion camerâu
6. Cytuno a chwblhau cynllun tirlunio a chynllun rheolaeth tirlunio
7. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Dŵr Wyneb a Chynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol.
8. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth ac Asesiad Risg Bioddiogelwch.
9. Cytuno a gweithredu cynllun rheoli llif traffig gwaith
10. Cytuno a gweithredu Rhaglen Waith Archeolegol
11. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear, a'i gytuno yn gyntaf gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
12. O fewn 25 mlynedd i gwblhau'r datblygiad neu o fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.
13. Amodau safonol Dŵr Cymru
14. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau.
15. Amodau Priffyrdd.

16. Rhaid gyrru manylion system goleuo'r safle, gan gynnwys math, union leoliad, lefel goleuedd a'r modd o ddiogelu rhag llygredd neu orlif golau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am gymeradwyaeth ysgrifenedig ac i fod yn gwbl weithredol cyn fo'r datblygiad a ganiateir trwy hyn yn cael ei gwblhau a'r safle yn dod yn weithredol.
17. Gwarchod coeden helygen lwyd hynafol sydd ar y safle

**7. Cais rhif C15/0757/18/LL – Llain y Rhos, 2 Parc y Wern, Bethel**

Codi estyniad ar ochr yr eiddo.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y bwriad wedi ei ddiwygio ers ei gyflwyniad gwreiddiol trwy ddileu ffenestri a oedd i'w cynnwys ar dalcen cefn yr estyniad a chynnwys ffenestri ‘velux’ yn eu lle o fewn y to newydd, newidir hefyd osodiad mewnol llawr cyntaf yr estyniad trwy ddileu un ystafell wely ond bod arwynebedd llawr yr estyniad arfaethedig yn aros yr un peth.

Nodwyd y cyfeiriwyd at bryder am raddfa a swmp yr estyniad arfaethedig o'i gymharu â'r eiddo presennol yn ymateb ffurfiol y Gwasanaeth i ymholiad cyn cyflwyno cais a bod angen lleihau maint yr estyniad arfaethedig er mwyn bodloni gofynion polisïau perthnasol. Ychwanegwyd bod y bwriad fodd bynnag wedi ei gyflwyno yn yr un ffurf a'r ymholiad cyn cyflwyno cais (heb unrhyw newid) ac ystyrir fod y bwriad yn ymddangos yn nodwedd anghydweddol gyda'r eiddo presennol.

Cydnabyddir fod datblygiadau gymharol debyg o fewn yr ardal leol, ond ni chredir fod y sefyllfa yr un peth sef natur a ffurf yr eiddo presennol a'i berthynas gyda'r eiddo sydd yn gyfochrog. Nodwyd fod y bwriad yn annerbyniol o ran Polisi B23 CDUG gan y byddai'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol drwy or-ddatblygu'r safle.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd partner yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Ei bod hi a'i phlant yn byw mewn tŷ rent a'u bod yn dymuno byw efo'i phartner a'i blant yn y tŷ dan sylw;
- Nad oedd tŷ ym Methel yn diwallu eu hanghenion felly estyniad i'r tŷ yw'r unig opsiwn;
- Bod ei theulu yn rhan o'r gymuned ac eisiau parhau i fod;
- Bod llythyr o gefnogaeth wedi ei dderbyn gan eu cymdogion;
- Bod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cefnogi'r cais.

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Bu trafodaeth cyn cyflwyno'r cais ond parhawyd gyda cais ar gyfer estyniad o'r maint yma gan dyma fyddai'n diwallu eu hanghenion teuluol;
- Nad oedd y tŷ wedi ei leoli mewn man sensitif a bod ceisiadau am dai wedi eu caniatáu yn y gorffennol yng nghefn gwlad agored;
- Cymdogion, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a'r gymuned yn gefnogol i'r bwriad;
- Bod tŷ 4 llofft ym Methel costio oddeutu £230,000 ac felly estyniad oedd yr unig opsiwn;
- Bod angen cefnogi pobl ifanc er mwyn eu galluogi i aros yn eu cymunedau;
- Bod addasiad i'r cynllun gwreiddiol o ran lleoliad ffenestr ar gefn yr estyniad arfaethedig oherwydd pryderon goredrych;
- Y gellir sicrhau cynnal yr Iaith Gymraeg yn y pentref drwy ganiatáu'r cais;
- Ei fod yn deall barn y swyddogion ond bod angen bod yn hyblyg i anghenion lleol.

Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion.

(ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Nad oedd y bwriad yn or-ddatblygiad;
- Bod y dyluniad yn dderbyniol a byddai'r estyniad yn gweddu;
- Cyfle i gefnogi'r Aelod Lleol a phobl ifanc lleol drwy ganiatáu'r cais;
- Cydnabod bod yr estyniad yn fawr o gymharu â'r tŷ gwreiddiol ond ni fyddai estyniad llai yn diwallu anghenion y teulu;
- Bod dwysedd uchel o dai yn yr ardal yn barod a ni fyddai'r estyniad yn amharu;
- Amgylchiadau arbennig i ganiatáu'r cais gan y collir teulu o'r ardal os gwrthodir y cais;
- Bod polisïau yn erbyn pobl leol;
- Ni ddylid ystyried materion personol a byddai caniatáu'r estyniad yn gwneud gwerth yr eiddo allan o gyrraedd unigolion yn y dyfodol.

(d) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Nad oedd cyfiawnhad caniatáu'r cais o ran pwy sydd yn byw yn yr eiddo;
- Mai materion dyluniad pur oedd o dan sylw;
- Bod y polisïau yn gefnogol i ddatblygiadau oedd yn cyrraedd y meini prawf gofynnol a bod angen i'r estyniad barchu maint a graddfa'r eiddo presennol.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. Yn unol gyda'r cynlluniau
3. Tynnu PD ffenestri ychwanegol
4. Llechi
5. Deunyddiau i'w cytuno

**8. Cais rhif C15/0760/20/LL – Laurence House, Stad Tafarngrisiau, Y Felinheli**

Codi estyniadau i greu fflat hunan gynhaliol ychwanegol.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai'r bwriad oedd codi dau estyniad, un ar edrychiad ochr ac un ar edrychiad cefn yr adeilad i ddarparu ystafell wely i'r fflat llawr gwaelod presennol, a galluogi i ran arall o'r llawr gwaelod ffurfio fflat ar wahân.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol o ran y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd:-

- Bod yr arglawdd yn aros;
- Nad oedd gan yr Uned Drafnidiaeth wrthwynebiad i'r bwriad;
- Y byddai lle ar gyfer parcio 2 gar ychwanegol a darperir lle troi;
- Bod yr estyniad yn fach a byddai 3 medr yn is na thai Tafarn Grisiau felly ni fyddai effaith ar olau haul ar y tai gyda'r nos.

(c) Nodwyd nad oedd gan yr Aelod Lleol wrthwynebiad i'r bwriad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd

2. Cwblhau yn unol â'r cynlluniau
3. Cytuno deunyddiau allanol
4. Llechi ar y to crib
5. Rhaid cwblhau'r llecynnau parcio cyn meddiannu'r uned byw ychwanegol a ganiateir drwy hyn.

Nodyn Dwr Cymru, Wal Gydrannol

**9. Cais rhif C15/0517/04/LL – Coed y Foel Uchaf, Frongoch**

Codi tyrbin gwynt gyda mesur o 30.5m i'r hwb (48.01m i frig y llafn), blwch rheoli a gwaith cysylltiedig (ail gyflwyniad o gais a dynnwyd yn ôl).

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle wedi ei leoli ar dir uchel gerllaw ffordd yr A4212 sydd yn rhedeg fel prif gyswllt rhwng tref Y Bala a phentref Trawsfynydd.

Nodwyd byddai'r strwythur arfaethedig yn uchel ac o waith dyn (manmade) ac yn sefyll yn arunig ar dir uchel gyda'r safle i'w weld o amryw o safbwyntiau yn yr ardal gyfagos a thu hwnt, byddai'r tyrbin i'w weld yn arbennig o weladwy wrth deithio ar hyd y A4212 i lawr y dyffryn i gyfeiriad y safle o'r gorllewin. Byddai hyn oherwydd ei leoliad uchel a chwbl amlwg ar y nenlinell o olygfeydd o bell ac agos oddi fewn ac oddi allan y Parc Cenedlaethol. Ystyrir y byddai'r effaith ar fwynderau gweledol yr ardal yn sylweddol, er bod peilonau trydan wedi eu lleoli i de'r safle, ni ystyrir y byddai hyn yn lleddfu effaith niweidiol y datblygiad ar gymeriad gwledig a thirwedd yr ardal gan ei fod yn strwythur sylweddol ac yn un symudol sydd yn sefyll yn arunig.

Tynnwyd sylw bod safle'r cais yn agos at ffin Parc Cenedlaethol Eryri a bod gwrthwynebiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'r datblygiad yn nodi y byddai effaith ar olygfeydd o fewn ffiniau'r Parc. Ystyrir oherwydd amlygrwydd y datblygiad o fewn y tirlun ac o ardal eang iawn o du fewn y Parc y byddai'n amharu'n sylweddol ar fwynhad defnyddwyr y Parc Cenedlaethol.

Yn ogystal, nodwyd nad oedd swyddogion wedi'u hargyhoeddi fod y bwriad yn weithgaredd arallgyfeirio dilys a bod hyn wedi ei gefnogi gan benderfyniadau apêl diweddar am dyrbeini ar safleoedd eraill o fewn y Sir.

Nodwyd yr ystyrir nad yw'r bwriad yn cwrdd â gofynion y polisïau perthnasol a byddai'r tyrbin yn cael effaith sylweddol arwyddocaol ar nodweddion a chymeriad arbennig y Parc Cenedlaethol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cefnogwr i'r cais y prif bwyntiau canlynol:-
- Bod safle'r cais yn lled-ddiwydiannol gyda dwy res o beilonau ar y safle sydd yn dalach na'r tyrbin gwynt;
- Byddai'r tyrbin ond yn amlwg o'r lôn am 1.5 milltir wrth deithio i gyfeiriad Bala;
- Mai byr yw'r cyfnod twristiaeth a bod y ddadl o ran effaith ar dwristiaeth yn amwys;
- Y bwriedai'r ymgeisydd roi cyfraniadau ariannol i wahanol endidau cymunedol am gyfnod o 20 mlynedd ac os yn bosib dylid gosod amod i'r perwyl hwn.

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-
- Mai gwrthwynebiad gan swyddog Parc Cenedlaethol yr Eryri yn hytrach na chyfarfod o'r Awdurdod a dderbyniwyd;
- Mai mater o farn oedd o ran effaith ar yr olygfa;

- Bod dwy res o beilonau yn yr ardal gyda rhai mor uchel â 47 medr felly ni fyddai'r tyrbin yn cael mwy o effaith ar y dirwedd;
- Bod Cyngor Cymuned Llandderfel yn gefnogol i'r cais;
- Nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru na CADW yn gwrthwynebu'r bwriad;
- Nad oedd datblygiadau tyrbinau gwynt yn effeithio ar dwristiaeth;
- Bod 3 tyrbin wedi eu caniatáu eisoes wrth lan yr afon;
- Bod cyfraniadau ariannol i'r gymuned wedi eu cynnig;
- Bod y 'feed-in tariff' ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn dod i ben ond ei fod yn gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn ail feddwl;
- Gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

(ch) Yng nghyswllt y sylwadau uchod, pwysleisiodd yr Uwch Gyfreithiwr na ddylid rhoi ystyriaeth i gyfraniadau ariannol gan y delir â hyn tu allan i'r drefn gynllunio, nac ychwaith y mater 'feed-in tariff'. Dylid asesu'r cais gan ystyried y manylion gerbron.

Cynigwyd a eiliwyd i gynnal ymweliad safle.

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle.**

**10. Cais rhif C15/0783/42/MG – Safle Capel Caersalem, Lon Terfyn, Morfa Nefyn**

Materion a gadwyd yn ôl ar gyfer adeiladu 4 tŷ.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod caniatâd amlinellol wedi ei roi o dan gais C06D/0703/42/AM, ar gyfer datblygiad trigiannol o 4 tŷ annedd gydag un ohonynt yn fforddiadwy ond nad oedd y llain fforddiadwy wedi ei bennu hyd yma.

Nodwyd mai materion yn ymwneud â maint, ymddangosiad a thirlunio yr ystyrir fel rhan o'r cais hwn.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Unol gyda'r cynlluniau.
2. Lleiniau gwelededd 2.4m x 45m.

Nodiadau Priffyrdd o ran hawl o dan Adran 171/184 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 i gario allan gwaith ger y briffordd a chymryd gofal i atal dŵr wyneb o'r cwrtil arllwys i'r briffordd.

Rhaid cydymffurfio gyda'r amodau ar ganiatâd amlinellol C06D/0703/42/AM.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.55 pm.

________________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 19/10/15

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Simon Glyn, Gwen Griffith, June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams ac Owain Williams.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Jason Humphreys, Aeron Maldwyn Jones a John Wynn Jones (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Idwal Williams (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Keira Sweenie (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Gareth Roberts (Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Dilwyn Lloyd (eilydd), Eurig Wyn, a'r Cynghorwyr Jean Forsyth, Sian Gwenllian (oherwydd ei bod yn datgan buddiant personol) ac Ioan C. Thomas (Aelodau Lleol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Eitem 5 ar y rhaglen – Ceisiadau Cynllunio (Cais Cynllunio Rhif C15/0337/11/AM) oherwydd ei fod yn Aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Eitem 5 ar y rhaglen – Ceisiadau Cynllunio:
  (i) Cais Cynllunio Rhif C15/0337/11/AM - oherwydd ei bod yn Aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
  (ii) Cais Cynllunio Rhif C15/0662/09/LL – oherwydd ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Tywyn a fydd yn derbyn cyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd

Roedd yr Aelod o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau a nodir.

(b) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Elwyn Edwards (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen - Ceisiadau cynllunio rhifau C14/0291/04/LL a C15/0517/04/LL
- Y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen - Cais cynllunio rhif C14/0386/24/LL
- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen - Cais cynllunio rhif C15/0341/39/LL
- Y Cynghorydd Simon Glyn (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen – Cais cynllunio rhif C15/0424/46/LL
- Y Cynghorydd John Wynn Jones (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen – Cais cynllunio rhif C15/0507/11/LL
- Y Cynghorydd Jason Humphreys (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen – Cais cynllunio rhif C15/0748/44/LL

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015 fel rhai cywir.

**3. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais Rhif C14/029/04/LL – Tir ger Bodelith Isaf, Llandderfel, Y Bala**

**Cais llawn i godi 2 tyrbin gwynt 57m i'r hyb gyda chyfanswm uchder o 92.5m (yn lle 115m) at frig y llafnau (uchafswm allbwn 5MW) ynghyd a thrac, adeilad ac offer atodol.**

**'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod**.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch SwyddogRheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y cais yn
cynnwys gosod sylfeini, newidydd, ceblau tanddaeryddol, adeiladu is-orsaf drydan, creu trac mynediad, creu compownd diogelwch dros dro ac iard storio. Cyflwynwyd gyda'r cais asesiad amgylcheddol sydd yn ystyried effeithiau posibl y datblygiad. Cyfeiriwyd at y prif bolisïau ac ymgynghoriadau cyhoeddus a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw at brif bolisi C26 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd ynghyd a meini prawf perthnasol sydd yn ymdrin â datblygiadau melinau gwynt. Oherwydd byddai'r datblygiad arfaethedig yn gallu cynhyrchu 5MW, nodwyd bod y cais o faint sydd ar drothwy'r hyn sy'n dderbyniol o fewn polisi'r Cynllun Datblygu Unedol a thynnwyd sylw bod Nodyn Cyngor Technegol 8 yn datgan ei fod yn dderbyniol gwrthod ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau dros 5MW. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor bod rhaid pwyso a mesur yn ofalus os yw'r cynllun arfaethedig yn dderbyniol o safbwynt polisi datblygiadau tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol gan mai prif nod y polisi yw gwarchod y tirlun.

Ystyriwyd bod modd rheoli datblygiadau ategol a datgomisynu gydag amodau perthnasol. Nodwyd nad oedd gan Uned Bioamrywiaeth nac ychwaith Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad heblaw am amodau perthnasol a cwblhau y datblygiad yn unol â'r datganiad amgylcheddol.

O safbwynt mwynderau preswyl a chyffredinol, nodwyd y derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau ynghylch sŵn ond nid oedd gan Uned Gwarchod y Cyhoedd wrthwynebiad i'r bwriad a bod modd rheoli hyn drwy amodau perthnasol. Pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu byddai angen amodau priodol i sicrhau bod y tyrbinau yn cael eu diffodd ar adegau pe byddai cysgodion symudol yn peri problem.

Prif bryder y swyddogion cynllunio ydoedd effaith ar fwynderau preswyl y tai cyfagos sef Cistfaen a Cae Iago ac mewn ymateb i'r pryder yma mae asiant yr ymgeisydd wedi cyflwyno dau gynllun "wireframe" i ddangos graddfa effaith potensial y tyrbinau ar y ddau

eiddo. Cyfeiriwyd hefyd at dyrbinau gwynt cyfagos yn Syrior a'r potensial o effaith o sŵn cronnol a gaiff y tyrbinau sydd yn destun y cais gerbron ar y tai cyfagos.

Yng nghyswllt materion priffyrdd a thrafnidiaeth, nodwyd bod dipyn o wrthwynebiadau wedi eu derbyn yn seiliedig ar bryder o ddiogelwch ar y briffordd yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu. Roedd camau lliniaru wedi eu cynnwys yn yr asesiad amgylchedd a oedd yn cynnwys cynllun rheoli traffig ond mewn ymateb i hyn ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad gan Uned Trafnidiaeth y Cyngor. Ers ysgrifennu'r adroddiad, roedd Adran Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau yn datgan ni chaniateir rhoddi caniatad hyd nes derbynnir gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd.

Tynnwyd sylw y ceir nifer o henebion cofrestredig wrth ymyl y safle gyda CADW a Gwasanaeth Archeolegol Gwynedd yn gwrthwynebu'r cais yn seiliedig ar effaith y datblygiad ar osodiad yr henebion. Yn ychwanegol cyfeirwyd at Gapel rhestredig ym Methel lle mae blaen y capel yn wynebu'r safle.

O safbwynt effaith ar y tirlun, nodwyd y byddai'r tyrbinau yn weladwy o Barc Cenedlaethol Eryri ac o'r AHNE. Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi codi pryder am effaith lleol ond ddim yn gwrthwynebu ar sail golygfeydd ehangach ar y tirweddau dynodedig.

O safbwynt effaith ar y dirwedd, er bod y Parc Cenedlaethol wedi gwrthwynebu'r cais nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod lleol wedi asesu'r cais ac o'r farn er nad oedd yn cael effaith niweidiol o'r Parc Cenedlaethol a'r AHNE y byddai'n cael effaith ar y dirwedd leol a'i edrychiad yn y dirwedd. Pwysleisiwyd y gall cymeriad tirwedd Bethel a dyffryn Glanrafon newid yn sylweddol oherwydd y bwriad ac hefyd o safbwynt effaith cronnol tyrbinau gwynt ac yn unol ag arweiniad TAN8 ni ddylai datblygiadau o dyrbinau gwynt achosi newid sylweddol i gymeriad tirwedd.

Argymhelliad y swyddogion cynllunio ydoedd gwrthod y cais yn seiliedig ar effaith:

- I'r dirwedd lleol
- I osodiad adeilad rhestredig
- I osodiad henebion cofrestredig
- Ar fwynderau preswyl

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y cais arfaethedig o'r cychwyn yn groes i ganllawiau cynllunio'r Cyngor ar ddatblygiadau tyrbinau gwynt ac yn enwedig C26 sy'n nodi mai dim ond datblygiadau cymunedol bychan neu ddomestig fyddai'n derbyn caniatad - nid yw'r cais gerbron yn ddatblygiad bychan
- Ceir tystiolaeth arbenigol sylweddol yn nodi y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar y tirwedd ac yn gwrth-ddweud honiad yr ymgeisydd na fyddai'n cael effaith gronnol gyda'r datblygiadau sy'n bodoli eisoes
- Bod y ddadl uchod wedi cael ei wrthod gan CADW a hefyd yn yr adroddiad arbenigol
- Ymhellach bod adroddiad diweddar gan gwmni Gillespies yn dod i'r casgliad nad oes gan yr ardal unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt pellach ac yn gweithredu fel byffer rhwng y tirweddau gwarchodedig o gwmpas
- Nodir yn yr adroddiad hefyd bod y cais yn groes i ganllawiau TAN8 sy'n nodi y tu allan i ardaloedd chwilio strategol na ddylai fod unrhyw newid sylweddol i dirwedd sy'n deillio o dyrbinau gwynt – yn bendant byddai newid sylweddol yn deillio o'r cais hwn
- Bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gofyn am osod goleuadau coch ar ben y mastiau a fyddai'n fflachio 60 gwaith y funud - byddai hyn yn bendant yn newid i gymeriad y tirwedd

- O ystyried yr aflonyddwch yn deillio o'r prif waith adeiladu, yna trac, craen ac adeiladau allanol parhaol yn ogystal â'r tyrbinau gwynt byddai hyn yn diwydiannu cefn gwlad agored o ansawdd uchel ac nad oedd lle i ddatblygiad o'r fath mewn cornel brydferth o Wynedd

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd Asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Diolchwyd i'r swyddogion cynllunio am y broses adeiladol mewn ymdrin â'r cais a theimlwyd bod y cwmni wedi dod i fyny gyda chynllun sydd wedi llwyddo i osgoi effeithiau ar y Parc Cenedlaethol a'r AHNE
- Yr unig faterion sy'n achosi pryder rhwng yr ymgeisydd a'r swyddogion cynllunio ydoedd materion lleol. Tra ddim yn gwadu bod yna effaith sylweddol yn lleol ond o ystyried cyd-destun newid hinsawdd a'r gorchymyn cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Weinidog Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, teimlwyd nad oedd effeithiau lleol mor ddigonol i orbwyso argymhelliad cadarnhaol i ganiatáu'r cynllun
- O safbwynt effaith ar eiddo preswyl cyfagos, nodwyd bod y tirfeddiannwr sydd yn hyrwyddo'r cynllun yn berchen un o'r eiddo ac o'r fframiau gwifren (wireframes) a gynhyrchwyd roedd yn amlwg mai dim ond blaen y llafnau a welir ac y byddai'r tyrbinau wedi eu sgrinio'n dda o ran topograffeg
- Sylweddolir bod CADW yn pryderu o ran henebion hanesyddol, ond nid ydynt yn sicr os yw'r henebion yn gyn-hanesydd neu ganoloesol sy'n awgrymu y bydd yn anodd diffinio lleoliad a hefyd pwysigrwydd y lleoliad
- Bod CADW hefyd yn cydnabod effeithiau newid hinsawdd ar henebion hanesyddol

(ch) Nododd yr Aelod Lleol (a oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) fel a ganlyn:

- Ei fod yn anodd iddo wrthwynebu'r cais gan ei fod wedi cefnogi cais tyrbinau gwynt ym Mraich Ddu gydag uchder o 94m
- Tynnwyd sylw bod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais
- Bod y Capel ym Methel yn wag ers o leiaf 20 mlynedd ac mewn cyflwr gwael
- Bod y Cwmni yn cynnig arian sylweddol i'r gymuned

(d) Mewn ymateb i'r sylw wnaed ynglŷn â chyfraniad ariannol, cynghorwyd yr Uwch Gyfreithiwr y Pwyllgor Cynllunio na ddylid cymryd hyn i ystyriaeth o gwbl gan ei fod tu allan i'r drefn cynllunio.

(dd) Cynigiwyd ac eiliwyd i'w wrthod yn unol ag argymhelliad y swyddogion.

(e) Nodwyd y sylwadau canlynol yn groes i'r argymhelliad i'w wrthod:

- Bod y cais yn gyffelyb i gais cynllunio tyrbinau gwynt Braich Du ac sydd wedi derbyn caniatad
- Bod y Gweinidog Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, yn gefnogol i ddatblygiad o dyrbini gwynt
- Pryder pe byddai'r ymgeisydd yn ei gyfeirio am apêl, y tebygolrwydd y byddai'r awdurdod yn colli'r apêl

**PENDERFYNWYD: Gwrthod am y rhesymau a ganlyn:**

**1. Byddai'r bwriad ar ei ben ei hun ac ar y cyd gyda'r tyrbinau sydd eisoes yn agos i'r safle yn niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol oherwydd maint, lleoliad ac amlygrwydd y datblygiad arfaethedig a byddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol trigolion gerllaw a'r rhai hynny sy'n defnyddio'r safle a'r ardal o'i gwmpas**

**at ddibenion hamdden/mwynderol. Ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau B23 ac C26, Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir ac arweiniad sydd yn NTC 8.**

2. **Oherwydd ei faint, ei leoliad a'i amlygrwydd, byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar leoliad yr adeilad rhestredig Graddfa II a adwaenir fel Capel Bethel. O'r herwydd, ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau C26, B3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, Adran 66(1) y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) ac i Gylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.**

3. **Oherwydd ei faint, ei leoliad a'i amlygrwydd, byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar leoliad yr Henebion Cofrestredig a adwaenir fel Clostir Mynydd Mynyllod, Gwersyll Euni, Cylchoedd Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cern Caer Euni. Nid yw, ychwaith, yn glir a gaiff y datblygiad effaith annerbyniol ar archeolegol nad yw wedi'i hadnabod ac a ellid lliniaru'r effeithiau'n foddhaol. O'r herwydd, ystyrir bod y cais yn groes i bolisi C26 a B7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg.**

4. **Oherwydd nad oes digon o wybodaeth am yr effaith ar fwynderau preswyl o ran yr effeithiau gweledol, sy'n benodol gysylltiedig â'r eiddo a adwaenir fel 'Cistfaen' a 'Cae Iago', ystyrir bod y cais yn groes i bolisïau C26 a B23 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.**

**2. Cais Rhif C14/0386/24/LL - Tir yng nghefn Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Llanwnda**

**Adnewyddu caniatad rhif C08A/0568/24/LL ar gyfer codi 24 o dai, newidiadau i fynedfa bresennol a chreu lonydd stad.**

(a) Cyflwynwyd y cais uchod i'r Pwyllgor Cynllunio i ddiweddaru Aelodau gan eu hatgoffa y caniatawyd y cais ym Mhwyllgor Cynllunio dyddiedig 28.07.14 yn ddarostyngedig bod yr ymgeisydd yn arwyddo cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 yn ymwneud a sicrhau bod 6 o'r 24 tŷ yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ynghyd â darparu cyfraniad addysgol gan yr amcangyfrif nad oedd digon o gapasiti o fewn ysgol Felinwnda yn y flwyddyn academaidd 2013-14 ar gyfer cynnydd ychwanegol dros 30 o ddisgyblion.

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn 2014 adolygwyd capasiti ysgolion Gwynedd gan gynnwys yr ysgol uchod ac o ganlyniad i'r adolygiad hyn mae'r Adran Addysg wedi cadarnhau fod capasiti'r ysgol wedi cynyddu o 30 i 56 disgybl. Golygai hyn felly bod capasiti ar gael yn yr ysgol ar gyfer ychwaneg o ddisgyblion fydd yn deillio o'r datblygiad yma. I'r perwyl hwn, ni fydd angen mwyach i'r ymgeisydd ddarparu cyfraniad ariannol.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol a'r ymgynghoriadau cyhoeddus o fewn yr adroddiad ac argymhellwyd i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau cynllunio perthnasol.

(b) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), y prif bwyntiau canlynol:

- Nad oedd ar y cyfan yn gwrthwynebu'r cais ond ei fod yn cwestiynu cynnydd yng nghapasiti yr ysgol i 56 ac oherwydd bod y datblygiad yn un modern rhagwelir y byddai mwy o blant na 3 plentyn yn debygol o fynd i'r ysgol ac roedd wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Addysg sut bod y capasiti wedi cynyddu
- Apeliwyd ar y Pwyllgor Cynllunio i ymweld â'r safle yn ogystal â'r ysgol sy'n cynnwys dau ddosbarth a neuadd

- Ei fod o blaid y datblygiad yn amodol i drafodaethau gyda'r adeiladwr i ddarparu parc chwarae i'r pentref a chyfraniad ariannol i'r ysgol
- Byddai'r uchod yn galluogi'r adeiladwr i adeiladu un tŷ ychwanegol ar y llecyn man chwarae ar y stad arfaethedig a fyddai'n gwneud cyfanswm o 25 o dai yn lle 24
- Pe byddir yn rhoi man chwarae ar y stad bod y lôn yn beryglus
- Ni ragwelir unrhyw broblem gyda pholisi A2 gan mai Cymraeg yw iaith pentref Dinas
- Bod y dyluniad o safon dda ond nad oedd dim wedi digwydd ers cyflwyno'r cais yn 2009 a bod gwir angen am dai i bobl ifanc yn y pentref
- Bod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol gan nad oedd y fynedfa a'r ffordd sy'n arwain heibio'r datblygiad yn addas ar gyfer nifer o dai ond deallir ers hynny bod y datblygwr wedi cytuno i ledu'r brif fynedfa

(c) Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, eglurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio mai'r brif ystyriaeth yn y cais gerbron ydoedd bod y Pwyllgor Cynllunio wedi caniatáu'r union gais yng Ngorffennaf 2014 ar gyfer 24 tŷ (gyda 6 ohonynt yn fforddiadwy) ond ers hynny bod Adran Addysg y Cyngor wedi cynnal asesiad o gapasiti'r ysgol a bod modd gwneud gwell defnydd o'r gofod sydd ar gael yn yr ysgol. Felly yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Adran Addysg bod posib i ganiatáu'r cais am 24 tŷ gyda'r llecyn chwarae heb gyfraniad ariannol addysgol.

(ch) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn unol â'r argymhelliad.

(d) Cynigwyd gwelliant i'r cynnig sef i ymweld â'r safle ac fe nodwyd y pwyntiau canlynol o blaid y gwelliant:

- Bod yr Aelod lleol wedi crybwyll negodi gyda'r adeiladwr i adleoli'r man chwarae ar gyfer y gymuned gyfan
- Pryder ar sut mae'r Awdurdod Addysg wedi cyrraedd ffigwr o 56 a bod goblygiadau i hyn a olygai bod yr ysgol yn hanner gwag ar hyn o bryd. Os oes 56 o blant yn yr ysgol bod potensial i ddenu mwy o gyllideb i'r ysgol
- Ei fod yn ddyletswydd ar y Pwyllgor Cynllunio i fynd i ymweld â'r safle
- Y byddai plant y stad yn gwarchod y parc chwarae ar y stad ac o bosib yn rhwystro plant y pentref gael defnydd ohono

(dd) Pe byddir yn caniatau'r cais nododd Aelod ei dymuniad i ychwanegu amod i ddiogelu rhan helaeth o'r gwrych presennol ar y lôn i Rhos Isaf.

(e) Esboniodd yr Uwch Gyfreithiwr mewn ymateb i sylw wnaed ynglŷn ag ymweld â'r ysgol, ar sail y materion ger bron na ellir cyfiawnhau mynd i weld yr ysgol gan na fyddai hyn yn effeithio ar y dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyngor ynglyn a chapasiti yr ysgol. Eglurwyd efallai y byddai yn ddoeth i'r Pwyllgor ofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Addysg ynglŷn â chyfiawnhad o'r cynnydd yng nghapasiti yr ysgol os nad oedd y wybodaeth yma yn glir iddynt.. Nodwyd hefyd bod angen i'r Pwyllgor ystyried yn ddwys os oedd cyfiawnhad iddynt gynnal ymwleiad safle er mwyn ystyried y llecyn agored o fewn y sfale gan fod hwn yn unol a pholisïau'r Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant i ymweld â'r safle ac fe gariodd y gwelliant hwn.

**PENDERFYNWYD: Gohirio ystyried y cais a gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle.**

**3. Cais Rhif C14/0532/14/LL – Plas Brereton, Ffordd Bangor, Caernarfon**

**Addasu adeilad ar gyfer bwyty a gwesty (9 ystafell wely), newidiadau i'r fynedfa, torri coed, tirlunio, mannau parcio, addasu Bwthyn Glan y Môr i gaffi a chodi unedau gwyliau newydd i greu cyfanswm o 18 uned wyliau.**

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai'r bwriad ydoedd trosi, ymestyn ac addasu'r eiddo fel amlinellir uchod. Lleolir yr eiddo tu allan i ffin datblygu Caernarfon fel y'i cynhwysir yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac yn ffinio i'r gorllewin gyda'r Fenai sydd wedi ei ddynodi fel Safle Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd rhyngwladol. Ymhellach draw i'r gorllewin ceir AHNE Arfordir Ynys Môn. Ceir llwybr troed/beics cyhoeddus Lôn Las Menai rhwng Bwthyn Glan y Môr a Phlas Brereton. Mae'r rhan yma o'r Fenai wedi ei adnabod gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel ardal sydd yn rhannol o fewn Parth C2 fel y'i cyfeirir ato yn Nodyn Cyngor Technegol 15 ar "Datblygu a Pherygl Llifogydd" (2004) a bod rhan o safle'r cais o fewn cyrraedd llifogydd eithafol.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol a'r ymgynghoriadau cyhoeddus o fewn yr adroddiad.

O safbwynt mwynderau gweledol, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith sylweddol nac arwyddocaol ar osodiad gweledol yr AHNE a bod y bwriad yn dderbyniol yn seiliedig ar ofynion y polisïau perthnasol.

Nodwyd bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt mwynderau cyffredinol a phreswyl ac yn cydymffurfio a gofynion y polisïau perthnasol

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r cais yn ddarostyngedig i gynnwys nifer o amodau sy'n ymwneud a dyluniad i wella'r fynedfa bresennol.

O safbwynt materion bioamrywiaeth, nodwyd bod tystiolaeth wedi ei gyflwyno sy'n cadarnhau bod clwydfannau ystlumod ym Mhlas Brereton ac fe fydd angen i'r ymgeisydd ymgymryd â mesurau lliniaru perthnasol i'w diogelu.

Sicrhawyd bod y bwriad yn cydymffurfio a pholisiau perthnasol o safbwynt materion ieithyddol a chymunedol.

Pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu byddai'r datblygiad yn hwb i'r economi leol ac yn osgoi i'r adeilad ddirywio ymhellach.

Tynnwyd sylw bod safle'r caffi bwriadedig oddi fewn Parth C2 ac o fewn cyrraedd llifogydd ond fe gyflwynwyd asesiad canlyniadau sy'n datgan gellir rheoli canlyniadau llifogydd gydol oes y datblygiad drwy ymgorffori mesurau lliniaru yn y cynllun i addasu'r adeilad ar gyfer y caffi.

Derbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol yn datgan nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais ond bod ganddo ychydig o bryder am ddiogelwch wrth Fwthyn Glan y Môr oherwydd bod strwythur y doc yn fregus mewn rhai llefydd ac angen diogelu na fydd cwsmeriaid / cyhoedd yn syrthio i'r dŵr. Hefyd roedd yn pryderu am y fynedfa.

Argymhellir i ganiatáu'r cais oherwydd ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a pholisïau a chanllawiau perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y safle yn wag ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael
- Bwriad yw adfer y Plas fel gwesty 9 ystafell gydag estyniad cymedrol i anheddu tŷ bwyty
- Caffi arfaethedig ar gyfer Bwthyn Ceidwad y Doc ar lannau'r Fenai gyda'r porthdy ar y brifodd yn cael ei adfer ar gyfer cyfleusterau staff
- Bydd clwydfan addas yn cael ei adeiladu ar gyfer ystlumod
- Bydd y safle yn cael ei reoli yn briodol
- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn atyniad ar gyfer twristiaeth gwerthfawr i'r ardal ac yn gyflogwr pwysig ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol
- Bydd safon uchel y dyluniad a gorffeniadau'r adeilad yn denu ymwelwyr lleol ac o bell ac yn creu gwariant o fewn y datblygiad ac i'r ardal gyfagos
- Bydd y datblygiad yn bodloni gofynion lleol a chymunedol drwy ddarparu cyfleusterau hamdden sef caffi a thŷ bwyty mewn adeilad sy'n adnabyddus ac yn cael ei werthfawrogi yn lleol
- Bod y cais yn cydymffurfio a pholisïau lleol a phob pwynt perthnasol wedi cael ystyriaeth
- Bod y safle yn agos i dref Caernarfon a Bangor gyda hygyrchedd gwych i'r A55 gerllaw a'r dyluniad wedi cael ei ddylunio i eistedd yn gyfforddus o fewn y cyd-destun presennol a'r amgylchedd
- Bod galw mawr am ddatblygiad llwyddiannus i'r eiddo i arbed dirywiad parhaol ac er mwyn darparu golygfa ddeniadol ar gyfer mynediad i Gaernarfon

(c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Trist nad yw Plas Coch yn rhan o'r datblygiad
- A ddylid derbyn asesiad amgylcheddol i dawelu pryderon ynghylch posibilrwydd bod asbestos yn treiddio i mewn i'r môr o gyn safle ffatri Friction Dynamics (Ferodo)
- Pryder ynglŷn â pherygl trafnidiaeth o safbwynt troi i mewn i fynedfa'r safle o ystyried y lôn gul a chynnydd traffig yn ystod yr haf ac oni ddylid creu llain welededd
- A fyddai modd cynnwys amodau ar gyfer y canlynol:
    - i blannu coed yn lle'r rhai a fyddir yn torri;
    - sicrhau nad yw'r unedau gwyliau yn newid i unedau parhaol;
    - lliniaru sŵn ac aflonyddwch goleuadau o gychod a fydd yn glanio i'r caffi

(d) Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y swyddogion:

- Bod Uned Cefnffyrdd, Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd ynglŷn â'r fynedfa ac wedi cyflwyno amodau sy'n datgan nad oes rhaid cael ffordd ychwanegol mwyach ond yn hytrach lledu'r fynedfa bresennol i gael gwelededd addas tuag at Gaernarfon. Yn ogystal, bydd ffordd osgoi arfaethedig Caernarfon yn lleihau'r baich trafnidiaeth yn y tymor hir.
- Bod y swyddogion wedi ymgynghori gydag Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ac nad oedd pryderon penodol wedi codi o safbwynt llygredd tir a sicrhawyd bod asesiadau wedi eu cwblhau gyda'r cais o ran draenio'r dŵr wyneb.

**PENDERFYNWYD:** **Caniatau'r cais yn ddarostyngedig i amodau :-**

**1. 5 mlynedd.**

2. **Yn unol â'r cynlluniau.**
3. **Llechi naturiol.**
4. **Tirweddu.**
5. **Diogelwch ffyrdd (amodau Llywodraeth Cymru – Trafnidiaeth).**
6. **Amodau mesuriadau lliniaru bioamrywiaeth yn ymwneud ac ystlumod, llystyfiant ac ymlusgiaid.**
7 **Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru parthed mesuriadau lliniaru rhag llifogydd, goleuo, draenio ynghyd a diogelu rhywogaethau gwarchodedig (ystlumod).**
8. **Deunyddiau allanol ynghyd a samplau.**
9. **Manylion y mannau caled i'w cymeradwyo.**
10. **Tynnu hawliau datblygiad a ganiateir o'r llety gwyliau.**
11. **Cyfyngu defnydd yr unedau i ddefnydd gwyliau yn unig ynghyd â chadw cofrestr.**
12. **Trosi'r gwesty fel ei fod yn agored i'r cyhoedd cyn preswylio'r 9 uned gwyliau cyntaf.**
13. **Cyfyngu ar oriau agor y caffi.**

**4. Cais Rhif C15/0337/11/AM – Plas Llwyd, Stryd Fawr, Bangor**

**Cymerwyd y Gadair gan y Cynghorydd Gwen Griffiths ar gyfer y cais hwn oherwydd bod y Cadeirydd wedi datgan buddiant personol.**

**Cais amlinellol ar gyfer dymchwel adeilad presennol ynghyd a chodi adeilad newydd yn darparu cyfanswm o 9 fflat (6 x 1 ystafell wely ac 3 x 2 ystafell wely).**

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y cais wedi ei ohirio yng nghyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn cadarnhau'r sefyllfa perchnogaeth tir a derbyn cadarnhad o union fwriad yr ymgeiswyr ynghlyn a datblygu'r safle. Nodwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ardal breswyl ar y stryd fawr ym Mangor, sy'n ffurfio rhan o ardal breswyl Hirael.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ynghyd â'r ymgynghoriadau cyhoeddus o fewn yr adroddiad.

Nodwyd er mai cais amlinellol a gyflwynwyd, bod yr holl faterion a gadwyd yn ôl wedi eu cynnwys, gyda'r cynlluniau llawn gan gynnwys edrychiadau, fel rhan o'r cais.

Cyflwynwyd y cais gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar gyfer tir sydd yn eu perchnogaeth gyda'r bwriad o ddatblygu'r safle eu hunain i ddarparu fflatiau i bobl leol ar rent fforddiadwy. Gan gymryd i ystyriaeth bod yr ymgeisydd yn paratoi tai newydd cymdeithasol ar rent i drigolion lleol o dan eu cyfrifoldebau statudol, credir y gellir ymdrin â'r cais fel eithriad i bolisi CH6. Pwysleisiwyd gan mai Cartrefi Cymunedol Gwynedd fydd y datblygwyr ni fydd angen cytundeb 106.

Ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda holl bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol a chyngor cenedlaethol perthnasol ac nad yw'r bwriad yn debygol o achosi effaith andwyol sylweddol ar fwynderau'r ardal leol nac ar unrhyw eiddo cyfagos.

(b) Yn manteisio ar y cyfle i siarad, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Bod ychydig o ansicrwydd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio o'r hyn a fwriedir ac fe ymhelaethodd ar y bwriad o ddatblygu 9 fflat fforddiadwy ar gyfer rhent cymdeithasol yn benodol ar gyfer pobl leol yn ardal Bangor ac nid i fyfyrwyr

- Bod cryn angen yn ardal Bangor am fflatiau un llofft a bod oddeutu 100 ar y rhestr aros tai Cyngor Gwynedd
- Bod Adran Strategol Tai y Cyngor yn gefnogol i'r cynllun
- Bod y cynllun wedi ei raglennu ar raglen wrth gefn a hyderir y bydd grant ar gael yn ystod y flwyddyn gyfredol
- Hyderir y bydd y materion a gadwyd yn ôl hefyd yn cael ystyriaeth ffafriol gan y Pwyllgor Cynllunio

(c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn unol â'r argymhelliad.

(ch) Cefnogwyd y cais gan y Pwyllgor gan nodi bod gwir angen tai i bobl leol yn ardal Bangor.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau**

1. **Amod amser caniatâd amlinellol**
2. **Amod cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar ffurf cais materion a gadwyd yn ôl.**
3. **Amodau Dwr Cymru**
4. **Dim ffenestri**
5. **Rhaid cwblhau'r lle parcio fel y dangoswyd ar y cynllun amgaeedig.**
6. **Rhaid cyflwyno, cytuno a gweithredu cynllun ar gyfer gwaredu gwastraff**
7. **Deunyddiau allanol**
8. **Llechi ar y to.**

**Nodyn: Priffyrdd, Dwr Cymru, Wal Gydrannol ac ystlumod/adar sy'n nythu.**

**5. Cais Rhif C15/0341/39/LL – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Abersoch**

**Gwaith peirianyddol i greu llithrfa.**

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Datblygu Rheolaeth ar gefndir y cais sy'n ymwneud ag adeiladu llithrfa fyddai'n gallu lansio dau gwch. Nodwyd bod llawer o drafodaethau wedi mynd rhagddynt ac yn benodol gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cais er mwyn cael datrysiad derbyniol i'r mater. Roedd y swyddogion hefyd wedi ymweld â'r safle er mwyn gallu rhoi barn gadarn ar y datblygiad.

Cyfeiriwyd at yr holl bolisïau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus o fewn yr adroddiad.

O safbwynt egwyddor y datblygiad, tynnwyd sylw bod polisi CH47 yn gefnogol i gynigion sydd yn gwella a helaethu'r amrywiaeth o gyfleusterau morwrol yn y marinau presennol. Fodd bynnag, er bod y polisi yn gefnogol i gynigion i wella darpariaeth bod hyn yn ddarostyngedig i gydymffurfio gyda gweddill meini prawf y polisi sy'n nodi "cyn belled ag y bod graddfa a dyluniad y datblygiad o'r safon uchaf ac yn addas ar gyfer y safle dan sylw.

Gwerthfawrogir bod y lleoliad yn eithaf sensitif o safbwynt bioamrywiaeth a sicrhawyd bod y bwriad arfaethedig wedi ei asesu yn llawn yn erbyn y polisïau cynllunio perthnasol yn ogystal a'i fod wedi ei asesu yng nghyd destun 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' ac 'Asesiad Priodol'. Cyflwynwyd fel rhan o'r cais asesiad amgylcheddol anstatudol sydd yn cynnwys arolygon ac asesiadau yn ymwneud gyda sgil effeithiau'r bwriad ar yr holl ddynodiadau perthnasol. Ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio a'r polisïau perthnasol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r farn.

O safbwynt mwynderau gweledol, cadarnhawyd yn dilyn asesiadau llawn a gwblhawyd ynglŷn ag effaith gweladwy'r datblygiad arfaethedig ar y tirlun a'r morlun, mai effaith dibwys niweidiol fyddai'r bwriad yn ei gael. Tynnwyd sylw'r Aelodau at bwyntiau 5.8 - 5.26 o'r adroddiad sy'n cyfeirio at y dynodiadau a sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Uned AHNE.

Cyfeiriwyd yn ogystal at effaith y datblygiad ar yr AHNE, gan nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod "r casgliad y byddai'r llithrfa arfaethedig ar adegau yn gwrthdaro gyda chadwraeth statudol a phwrpas mwynhad dynodiad yr AHNE. Fodd bynnag, o ystyried dylanwad llanw ar y bwriad a'r ffaith na fyddai'r llithrfa ond yn weledol i raddau amrywiol ar adegau o lanw is ni fyddai effaith cyflawn y llithrfa o'r llwybr arfordirol yn cael effaith andwyol sylweddol ac o'r herwydd ni wrthwynebai Cyfoeth Naturiol Cymru i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

Ystyrir felly bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt bioamrywiaeth ac y byddai angen cynnwys amodau perthnasol pe caniateir y cais. O gymryd yr holl sylwadau a gwybodaeth a gyflwynwyd ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd na'r morlun ychwaith.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Byddai'r llithrfa wedi ei orchuddio yn rhannol drwy dirwedd yr ynys ac yn rhannol drwy effaith y môr yn ôl cyflwr y llanw ac ar rai adegau bydd rhan fwyaf y strwythur o dan y dŵr
- Bod y ddarpariaeth ar gyfer dau gwch "rib" yn unig ac yn ôl anghenraid yn cael eu cadw uwchlaw'r llanw uchaf ar ben uchaf y llithrfa a byddent wedi eu cuddio drwy effaith y tirwedd
- Ategwyd paragraph 5.26 o adroddiad y swyddogion cynllunio
- Bod hyd y llithrfa yn ystod llanw uchel yn cael ei gwtogi i lawr i oddeutu 13m
- Bod golygfeydd yr ynys yn aml yn cael eu cuddio drwy niwl, tarth ac amodau tywydd gwael
- Nid yw'r llithrfa yn ffurfio rhan o farina neu harbwr fel y mae ac nid oes bwriad gan yr ymgeisydd i'w gynnwys fel rhan o ddarpariaeth o'r fath i'r dyfodol
- O safbwynt angen, bod yr ymgeisydd angen mynediad i ac o'r ynys ar gyfnodau o amrediadau a chyfyngiadau ac nid yw strwythur glanfa Trinity House yn darparu hyn
- Bod yr ymgeisydd wedi cydweithio gyda'r ymgynghorwyr statudol a darparwyd tystiolaeth ychwanegol drwy asesiad tirlun a gweledol yn unol â rheolau cenedlaethol
- Bod paragraph 5.25 o'r adroddiad yn casglu bod y bwriad yn ei gyfanrwydd yn ei hanfod yn strwythur statig ac na fyddai yn cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol
- Bod yr ymgeisydd wedi ceisio dyluniad sensitif a darpariaeth bositif tuag at gymeriad yr ynys ac nid yw'r bwriad yn groes i bolisïau cynllunio perthnasol

(c) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), nad oedd neb wedi cysylltu ag ef fel yr Aelod Lleol ond yn hytrach wedi cysylltu â'r Cynghorydd R H Wyn Williams ac o ganlyniad ei fod wedi trafod y cynllun yn fanwl gyda'r Cynghorydd Wyn Williams a'u bod i'll dau yn gefnogol i'r cais. Amlinellwyd eu sylwadau fel a ganlyn:

- Ers y storm enfawr yn 2004 bod y llithrfa wedi dirywio a'i fod yn anodd glanio ar yr ynys
- Bod gan Trinity House sydd yn goruchwylio'r goleudy hawl glanio a nhw yw perchnogion y glanfa presennol a deallir bod cydweithrediad rhwng Trinity House a pherchennog yr ynys i wneud y gwelliannau

- Bod adroddiad cynhwysfawr gan yr Uned Bioamrywiaeth yn ymateb i unrhyw bryderon ac nad oedd y bwriad yn amharu ar fwynderau gweledol
- O ran iechyd a diogelwch bod gwir angen llithrfa newydd
- Bod angen i'r llithrfa gael ei baentio gyda lliw sy'n gweddu
- bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio a gofynion ac amodau'r cais

(ch) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn unol â'r argymhelliad.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Faint o bwyslais a fyddir yn rhoi ar farn Cyfoeth Naturiol Cymru
- A fyddai modd amodi lliw llwyd ar gyfer darpariaeth y ddau gwch "rib"
- Tra'n ymwybodol bod y lanfa ym mherchnogaeth Trinity House, a fyddai modd rhoi amod bod arwydd dwyieithog "Dim Tresbasu / Dim mynediad i'r cyhoedd" yn cael ei roi ar y lanfa rhag i gychod eraill lanio ar yr ynys

(dd) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fel a ganlyn:

- Bod cydweithio a thrafodaethau trylwyr wedi digwydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a bod y swyddogion cynllunio yn rhoi gwerth i'w barn a'u harbenigedd
- Y byddai'n amhosib amodi lliw'r cychod "rib"
- Y byddir yn anfon nodyn i'r ymgeisydd i'w annog i roi mesurau priodol dwyieithog yn eu lle o safbwynt defnydd yr ynys

**PENDERFYNWYD: Caniatáu yn unol â'r amodau canlynol:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol gyda chynlluniau.**
3. **Cyflwyno a chytuno Cynllun Adeiladu Rheolaeth Amgylcheddol cyn i'r gwaith ddechrau.**
4. **Cwblhau'r gwaith yn unol gyda'r mesurau lliniaru ceir yn rhan 2.2 o'r Asesiad Rheoliadau Cynefin.**
5. **Cytuno ar y lliw paent llwyd ar gyfer gorchuddio'r llithrfa.**

**6. Cais Rhif C15/0424/46/LL – Tir ger Garreg Lwyd, Dinas**

**Adeiladu adeilad amaethyddol gyda storfa slyri oddi tano (gyda darn o'r storfa slyri tu allan i'r adeilad) ynghyd a chreu mynedfa amaethyddol**.

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y byddai'r adeilad arfaethedig yn mesur 30.5 medr wrth 36.6 medr, gyda rhan isaf waliau allanol yr adeilad yn baneli concrid gyda'r rhan uchaf o fyrddau Swydd Efrog. Lleolir y safle yng nghefn gwlad ac oddi fewn i'r AHNE Llyn ac Ynys Enlli. Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor yn sgil derbyn 3 neu fwy o lythyrau o wrthwynebiad.

Cyfeiriwyd at y polisiau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus.

O safbwynt egwyddor y datblygiad, nid oedd amheuaeth bod angen wedi ei brofi ar gyfer yr adeilad amaethyddol newydd sy'n destun y cais ac ystyrir ei fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer dibenion amaethyddiaeth.

Er nad yw'r bwriad wedi ei leoli gerllaw adeiladau presennol nodwyd ei bod yn rhesymol disgwyl y byddai daliad o dir sy'n cynnwys 110 acer gydag adeilad amaethyddol wedi ei

leoli arno ac ystyrir fod y rhesymau'r ymgeisydd am yr angen i gael sied ar y tir yn rhai rhesymol a theilwng o ran hwyluso'r drefniadaeth ar y fenter amaethyddol.

O safbwynt mwynderau gweledol, nodwyd er bod y sied yn sylweddol ei faint bod y math yma o strwythur yn un sydd yn ddisgwyliedig ei weld yng nghefn gwlad ac ni ystyrir y byddai'r bwriad felly'n sefyll allan fel nodwedd estron o fewn lleoliad gwledig o fewn yr AHNE. Yn sgil newidiadau a gynigwyd a drwy roddi amod i sicrhau bod clawdd pridd yn cael ei godi er mwyn plannu draenen ddu ystyrir na fyddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd a'i fod felly yn dderbyniol o ran Polisi B8 CDUG.

Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol a'i fod yn dderbyniol o safbwynt y polisiau perthnasol.

O safbwynt materion trafnidiaeth a mynediad, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn amharu ar ddiogelwch ffyrdd yn ddarostyngedig i amod priodol ynglŷn â sicrhau nad yw dwr wyneb yn llifo o'r safle i'r briffordd.

Yng nghyd-destun materion bioamrywiaeth, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau o ran cyflwyno a chytuno manylion y clawdd, cynllun cyfadferiad bioamrywiaeth ynghyd a gwneud y gwaith i'r llethr y tu allan i'r tymor nythu adar.

Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau perthnasol, ystyrir bod y bwriad arfaethedig yn dderbyniol ac argymhellir i'w ganiatáu.

(b) Nododd yr Aelod Lleol (a oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), y pwyntiau canlynol:
- bod y cais gerbron oherwydd llythyr o wrthwynebiad gan berchennog eiddo oddeutu hanner milltir i ffwrdd
- bod y swyddogion cynllunio wedi trafod gyda'r ymgeisydd ac wedi cytuno ar gyfaddawd sy'n bodloni'r ddwy ochr
- o safbwynt materion bioamrywiaeth, nodir na fydd unrhyw fygythiad i rywogaethau
- bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais

(c) Cynigwyd ac eilwyd i ganiatau'r cais.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol a'r cynlluniau.**
3. **To i fod o liw llwyd siarcol RAL 7016.**
4. **Y byrddau Swydd Efrog i gael eu gadael i hindreulio yn naturiol.**
5. **Defnydd amaethyddol o'r adeilad yn unig.**
6. **Rhaid adeiladu'r cloddiau ger y fynedfa i fanyleb a gytunir ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
7. **Cyn i unrhyw waith ddechrau dylid cyflwyno cynllun cyfadferiad bioamrywiaeth sy'n argeisio i drawsleoli'r glaswelltir iseldir asid a'i reoli ar gyfer bioamrywiaeth.**
8. **Dim gwaith i'w wneud i'r llethr yn ystod y tymor nythu adar sef rhwng 1 Ebrill a 1 Awst oni bai y gellir dangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad oes adar yn nythu.**
9. **Cytuno cynllun tirlunio o amgylch yr adeilad a'r ffordd fynediad newydd a fydd yn cynnwys clawdd pridd gyda phlannu ar ei ben.**
10. **Yr ymgeisydd i gymryd pob cam posibl i atal dŵr wyneb o'r safle rhag arllwys i'r briffordd.**

**Nodiadau-**

1. **Rhedeg y safle yn unol gyda dogfen DEFRA "A Code of Good Agricultural Practice for Farmers, Growers and Land Managers" 2009.**
2. **Adeiladu a gweithredu'r safle yn unol gyda chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhwysir yn eu llythyr dyddiedig 11 Medi 2015.**
3. **Angen hawl o dan Adran 171/184 Deddf Priffyrdd ar gyfer gwaith sydd i'w wneud o fewn y ffordd / palmant / ymyl glas.**

**7. Cais Rhif C15/0507/11/LL – 390 Stryd Fawr, Bangor**

**Cais i ddymchwel adeilad presennol ynghyd a chodi adeilad 4 llawr sy'n darparu 7 uned byw hunan gynhaliol ynghyd a darparu mynedfa a pharcio cysylltiol.**

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle ar ran isaf Stryd Fawr, Bangor ac o fewn ffiniau datblygu'r ddinas. Nodwyd bod y safle presennol o ran ei ddefnydd yn cael ei ddisgrifio fel canolfan busnes toeau'r ymgeisydd gyda defnydd yr adeilad fel swyddfeydd a'r iard i'r cefn yn cael ei ddefnyddio i barcio cerbydau a chadw deunyddiau ag offer.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus a thynnwyd sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr Asiant ar y daflen sylwadau ychwanegol a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor.

O safbwynt mwynderau gweledol, nodwyd bod y safle wedi ei leoli mewn man gymharol amlwg, yn gyfochrog gyda rhan isaf Stryd Fawr, Bangor gyda'r safle yn cael ei amgylchynu gan adeiladau o amrywiol faint, dyluniad ac edrychiadau gyda defnydd preswyl yn bennaf iddynt.

Nodwyd ei fod yn anorfod y byddai unrhyw ddatblygiad ar y safle yn debygol o gael peth effaith ar fwynderau gweledol yr ardal ond fe fyddai'r bwriad yn yr achos yma yn sylweddol gan greu gwahaniaeth o oddeutu 6 medr ychwanegol mewn uchder o'i gymharu gydag uchder to'r adeilad presennol.

Nodwyd y byddai llwyddiant datblygu'r safle yn ddibynnol ar ystyriaeth lawn o effaith unrhyw adeilad ar edrychiadau presennol gan gynnwys yr adeiladau rhestredig cyfochrog, ystyrir bod modd creu adeilad addas a thrawiadol na fyddai'n dominyddu'r strydlun na'r adeiladau rhestredig cyfochrog ond ni chredir fod hynny wedi ei gyflawni yn yr achos yma.

Tynnwyd sylw bod yr adeilad sydd i'w ddymchwel ynghlwm i ran o dalcen a blaen rhif 1 Rhesdai Friars, sydd yn ffurfio rhan o res o dri adeilad trawiadol rhestredig gradd II. Mae cais ar wahân wedi ei gyflwyno ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig i gynnal y gwaith yma.

Datgan yr Uwch Swyddog Cadwraeth bod rhesdai Friars a Phlas Meuryn yn adeiladau traddodiadol eu hedrychiad ac y byddai'r datblygiad newydd yn hollol fodern. Ystyrir bod y bwriad yn rhy fawr i'r safle ac na fyddai'n ategu at werth a chymeriad y rhesdai rhestredig ond yn hytrach y byddai yn tanseilio'r cymeriad presennol. Fe fyddai codi adeilad newydd 4 llawr yn dominyddu'r safle ac yn cael effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad y rhesdai rhestredig cyfochrog.

Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau, nodwyd nad oedd egwyddor y datblygiad yn annerbyniol, ond bod angen diwygiadau sylweddol yn nhermau dyluniad a graddfa'r adeiad a hynny er mwyn creu cynllun sy'n addas a derbyniol ar gyfer y safle arbennig hwn ac sydd yn mateb i bryderon y swyddogion. Ystyrir y bwriad felly yn annerbyniol gan nad yw yn cydymffurfio a gofynion polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol.

(b) Deallwyd bod yr aelod lleol yn gefnogol i argymhelliad y swyddogion cynllunio i'w wrthod.

(c) Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD: Gwrthod am y rhesymau canlynol:**

1. **Mae'r bwriad yn groes i holl ofynion Polisiau B22, B23 a B25 o GDUG gan nad yw'r dyluniad yn ymgorffori egwyddorion dylunio da trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad.**

2. **Byddai'r bwriad, oherwydd ei ddyluniad, maint, uchder, graddfa, ffurf a'i leoliad i ochr yr adeiladau rhestredig yn ymddangos fel nodwedd anghydweddol gyda'r adeiladau hyn ac yn cael effaith andwyol ar edrychiad, cymeriad a gosodiad y safle hanesyddol. Mae'r bwriad felly yn groes i bolisiau B2 a B3 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd a chyngor o fewn pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru a pharagraff 11 o gylchlythyr 61/96 Y Swyddfa Gymreig sy'n datgan na ddylai cynigion achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeiladau rhestredig na'u gosodiad.**

**8. Cais Rhif C15/0533/11/LL – Railway Institute, Ffordd Euston, Bangor**

**Cais ar gyfer dymchwel adeilad presennol ynghyd a chodi adeilad 3 llawr i greu cyfanswm o 27 fflatiau ar gyfer myfyrwyr, ail osod pafin a chreu cilfan a pharcio ar gyfer 7 cerbyd.**

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle wedi ei leoli o fewn ardal breswyl yn Ninas Bangor a thu mewn i'r ffin datblygu, ar dir serth ar hyd Ffordd Euston, ger Swyddfa Sortio Post a'r rheilffordd.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

O safbwynt egwyddor y datblygiad, nodwyd:

- Nad yw'r adeilad bellach mewn defnydd
- Nad oedd CADW yn ystyried bod yr adeilad yn cwrdd y meini prawf ar gyfer ei restru
- bod y bwriad ar gyfer codi adeilad newydd ar gyfer darparu llety myfyrwyr ac nad oedd polisi penodol yn y CDU sy'n ymdrin gyda datblygiad o'r math hwn
- bod angen pwyso a mesur yr ystyriaethau materol wrth benderfynu os yw'r egwyddor y datblygiad yn y lleoliad penodol hwn yn dderbyniol
- ffigyrau a thablau yn dangos sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud a datblygiadau llety myfyrwyr ym Mangor

O ganlyniad i ddatganiadau ychwanegol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion y polisïau perthnasol.

Nodwyd bod yr Uned Trafnidiaeth yn fodlon gyda'r ddarpariaeth parcio ar y stryd ynghyd a chadw'r palmant.

Cyflwynwyd datganiad effaith Ieithyddol a Chymunedol gyda’r cais ac wedi ymgynhgori gyda’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystyriwyd bod y bwriad yn unol â’r polisïau perthnasol ac na fyddai’r bwriad yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg.

Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau, ystyrir bod y cais yn dderbyniol o safbwynt polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol ac nad oes unrhyw ystyriaeth materol arall yn datgan i’r gwrthwyneb ac argymhelliad y swyddogion ydoedd caniatau’r cais yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:

- bod gormodedd o lety myfyrwyr ym Mangor ac nid oes angen mwy
- nad oedd y neuaddau preswyl yn llawn
- bod nifer sylweddol o lefydd gwag ar gael mewn tai sector preifat
- bod dirywiad yng nghyfanswm poblogaeth myfyrwyr Bangor ers sawl blwyddyn
- mai’r prif wrthwynebiad ydoedd dymchwel yr adeilad sy'n rhan bwysig o Fangor a Chymru gan fod treftadaeth bensaernïol yn diflannu’n gyflym
- bod yr ystyriaeth cynllunio yn nodi "bod yr adeilad ar y safle yn un hanesyddol, gydag elfennau pensaernïol pwysig a hanes cymunedol i'r ardal”
- nad oedd CADW wedi rhoi statws rhestredig i’r adeilad oherwydd bod y tu fewn wedi colli llawer o'i nodweddion
- bod dros 1,000 o bobl wedi arwyddo deiseb ar-lein yn erbyn dymchwel yr adeilad gan gynnwys y Gymdeithas Fictoraidd a Chymdeithas Ddinesig Bangor. Fodd bynnag, pe byddir yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer yr anheddau i fyfyrwyr anogwyd y Pwyllgor i’w wneud yn amodol i ail-ddefnyddio’r adeilad ac nid i’w ddymchwel
- gwnaed cais i’r Cadeirydd dderbyn y ddeiseb

(c) Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol, gwrthododd y Cadeirydd dderbyn y ddeiseb oherwydd y dylai fod wedi bod yn rhan o’r ffeil o wybodaeth cynllunio.

(ch) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd fel a ganlyn:

- Bod y cais hwn ar gyfer 27 fflat sydd yn wahanol iawn i'r nifer uchel o lety bychan iawn adeiladwyd mewn mannau eraill yn y ddinas ac y byddai yn cynnwys stiwdios hunangynhaliol gyda’r llawr uchaf yn cynnwys fflatiau ac i’w targedu ar gyfer myfyriwyd aeddfed ac nid myfyrwyr flwyddyn gyntaf
- Byddai’r llety myfyrwyr o safon uchel yn cyfrannu at y stoc dai lleol drwy ganiatáu myfyrwyr fyddent fel arall yn meddiannu'r ystafelloedd i adael ystafelloedd hynny sy'n darparu llety cost isel i bobl leol eu rhentu
- Nodir sylw Cyngor Tref o bryder ynglyn a’r datblygiad mewn ardal breswyl ond byddir yn cael gwared a chlwb nos swnllyd
- Bod Clwb y Rheilffordd a ddefnyddia’r adeilad bellach wedi symud i safle newydd
- Sicrheir strategaeth rheoli lym i ddelio a myfyrwyr allai achosi unrhyw niwsans i gymdogion lleol
- Bod y Gymdeithas Archeoleg wedi awgrymu cadwraeth neu gofnod a bod yr ymgeisydd yn hapus i gynnig strategaeth gofnodi ond nad oedd cadw'r adeilad yn opsiwn gan fod diffygion strwythurol difrifol ac ni ellir ei inswleiddio'n ddigonol i safonau modern

- Bod y Llywodraeth yn annog defnydd o safleoedd tir llwyd ar gyfer datblygiad a bod y safle hwn ar gyrion ardal ddiwydiannol
- Bod ail-ddatblygu yn ateb cadarnhaol i'r hyn sy'n adeilad adfeiliedig segur ar hyn o bryd

(d) Nododd yr Aelod lleol (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) y prif bwyntiau canlynol:

- Bod Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu yn seiliedig ar or-ddatblygiad
- Noda'r Swyddog Cadwraeth bod hanes i'r adeilad gyda chysylltiad gyda'r rheilffordd ac yn awgrymu i'r ymgeisydd y dylid ystyried cadw'r adeilad a'i drosi yn hytrach na'i ddymchwel
- Datganwyd siom nad oedd ymdrech wedi ei wneud i gadw'r adeilad gan ei fod yn un hardd gyda nodweddion sydd yn haeddu cael eu cadw sydd yn holl bwysig a bod gan yr adeilad werth hanesyddol a diwylliannol lleol
- Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ond deallir mai dim ond un unigolyn a fynychwyd gan nad oedd pobl yn ymwybodol o'r cyfarfod.
- Bod dros 1,000 o bobl wedi arwyddo deiseb ac ni ddylid diystyru hyn
- Bod rhan helyw o fyfyrwyr yn byw yn ward Deiniol / Menai ac ni ddylid ehangu'r ddarpariaeth myfyrwyr i bob rhan o'r ddinas ac oni ddylid dynodi Pont y Rheilffordd fel y terfyn
- Bod digon o lety a neuaddau wedi eu hadeiladu i gyfarch y ffigyrau a ddynodir gan yr Arolygydd yn 2015

(dd) Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio

- Materion hanesyddol a statws yr adeilad – bod ystyriaeth wedi ei roi i hyn gan swyddogion ond yn dilyn ystyriaethau yn sgil archwiliad CADW nid yw yn dod o fewn criteria rhestru nac ychwaith o fewn ardal Cadwraeth felly nid oes angen caniatad cynllunio i ddymchwel yr adeilad
- O safbwynt yr angen am lety myfyrwyr, cyfeiriwyd at y tablau yn yr adroddiad ac yn benodol at dabl 4 ac fe welir bod angen o'r math yma o ddatblygiad yn helpu i ddiwallu'r angen.

(e) Cynigwyd ac eiliwyd i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddogion cynllunio oherwydd gorddatblygiad ac effaith ar fwynderau preswyl.

(f) Nodwyd y pwyntiau canlynol o blaid y cynnig i wrthod:

- Bod yr adeilad yn hanesyddol o safbwynt diwydiant y rheilffordd ac yn colli cymeriad y Ddinas
- Siomedig nad oedd ymdrech wedi ei wneud i drosi'r adeilad
- Dros 1,000 o drigolion Bangor yn gwrthwynebu a rhaid gwrando ar lais y bobl a'r Aelod lleol
- Anghytunir hefo'r ffigyrau yn yr adroddiad am y galw am lety myfyrwyr ym Mangor ac y dylid cefnogi hyn gyda thystiolaeth gadarn i'r dyfodol
- Ni ddylid lledaenu llety myfyrwyr ar draws y Ddinas

(ff) Mewn ymateb i'r sylw ynglyn â'r galw am lety myfyrwyr, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod y broses o ddatblygu'r Cynllun Unedol ar y Cyd yn mynd rhagddo ac y bydd yn cyfarch polisiau llety myfyrwyr a thai amlbreswyliaeth a bod y wybodaeth o fewn yr adroddiad yn dystiolaeth gyfredol fel rhan o'r broses hwnnw.

**PENDERFYNWYD: Gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddogion cynllunio oherwydd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn or-ddatblygiad ac yn cael effaith ar fwynderau preswyl trigolion cyfagos.**

**9. Cais Rhif C15/0662/09/LL – Tir yn Morfa Camp, Sandilands, Tywyn**

**Gosod paneli solar PV (3.6MW) i gynnwys adeiladau atodol, tirlunio a mynedfa i'r safle.**

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod safle'r cais yn mesur oddeutu 6.7 hectar ac mae'n cynnwys tir pori amaethyddol gradd 4 sydd wedi ei leoli ar y morfa ar gyrion tref Tywyn. Mae'r safle yn rhan o hen wersyll Awyrlu Morfa Camp. Nodwyd bod Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau wedi ei leoli ym Mae Ceredigion sydd oddeutu 0.7km i'r gorllewin o'r safle, ac mae dwy Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi ei lleoli cyfagos, y naill ar y Morfa Gwyllt sydd o fewn 0.6km i'r safle i'r gogledd a'r llall sef y Dyfi o fewn 1.4km i'r de. Tynnwyd sylw bod henebion Caer Llechrwyd a Gwersyll Tal y Garreg wedi ei lleoli i ogledd y safle, ac mae nifer o adeiladau rhestredig wedi eu lleoli nid nepell o'r safle yn nhref Tywyn. Golygai'r bwriad osod paneli solar ar gyfer creu parc solar fyddai'n creu 3.6MW o drydan i'r Grid Cenedlaethol.

Cyfeiriwyd at y polisïau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus fel amlinellwyd yn yr adroddiad.

O ran egwyddor y datblygiad, nodwyd polisi C1 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â lleoli datblygiad newydd, ac mae'n datgan mai tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau perthnasol y CDUG ac yn cydymffurfio a'r polisi priodol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

O safbwynt dyluniad a deunyddiau, tynnwyd sylw nad oedd y cynlluniau yn manylu ar ddeunyddiau na'r gorffeniadau bwriedig y strwythuron ond roedd modd cytuno defnyddio deunyddiau sy'n dderbyniol ac yn gweddu i'r safle.

Bwriedir tirweddu'r safle drwy fesurau priodol ac ystyrir bod y bwriad felly yn cydymffurfio a pholisïau perthnasol yn ddarostyngedig i amodau.

O safbwynt mwynderau cyffredinol a phreswyl, nodwyd bod dogfennau ychwanegol wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais ac mae'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y dogfennau yn datgan na fydd y datblygiad yn achosi unrhyw niwsans neu lacharedd anaddas o ganlyniad i'r haul ddisgleirio, ac na fydd y bwriad yn achosi effaith weledol niweidiol arwyddocaol. Yng nghyd-destun llygredd golau a goleuni ystyrir bod casgliadau'r adroddiad gerbron yn cadarnhau y gallai adlewyrchiadau solar oddi ar y datblygiad effeithio ar dai a defnyddwyr ffyrdd cyfagos, serch hynny ni ystyrir y byddai'r effaith hyn yn cael niwed arwyddocaol ar fwynderau trigolion eiddo preswyl na diogelwch defnyddwyr ffyrdd cyfagos.

Nodwyd mai dim ond yn ystod y cyfnod adeiladu bydd unrhyw gynnydd mewn llif traffig, ac mae'r ymgeisydd wedi darparu cynllun rheoli llif traffig er mwyn bodoli gofynion Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Ni dderbyniwyd ymateb gan Uwch Swyddog Cadwraeth y Cyngor, serch hynny mae ymateb CADW yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael mwy nag effaith leol ar y dirwedd hanesyddol cofrestredig

O sicrhau y derbynnir cytundeb i weithredu mewn modd a fydd yn amddiffyn diddordeb bioamrywiaeth y safle drwy amod, fe ystyrir y byddai'r cynllun yn cwrdd ag amcanion polisi B20 o’r Cynllun Datblygu Unedol.

Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau perthnasol, ni ystyrir bod y bwriad yn groes i unrhyw un o’r polisïau perthnasol ac felly bod y bwriad yn dderbyniol. Argymhella’r swyddogion cynllunio i ganiatáu’r cais yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y cynllun ar ymyl yr anheddiad ar dir o ansawdd amaethyddol gwael ac mae'r cynllun wedi'i gynllunio gydag ystyriaeth i’r tirwedd a bioamrywiaeth ac felly bod yr ymgeisydd yn fodlon cytuno ar gynllun tirwedd ar gyfer oes y datblygiad
- Byddai hyn yn edrych ar wella cyfleoedd i ehedydd ac ymlusgiaid
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus eang ac er nad yn fater cynllunio bydd cyfraniad ariannol yn cael ei gyflwyno i'r gymuned leol
- O ran y carthffosydd sy'n croesi'r safle, rhoddwyd sicrwydd bod cysylltiad wedi ei wneud â Dŵr Cymru i ddiogelu asedau'r

(c) Nododd y Cadeirydd bod y ddau aelod lleol wedi gorfod datgan diddordeb oherwydd cyfraniad ariannol i’r gymuned.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod barn y Cyngor Tref wedi ei rannu ar y mater
- Ni chytunai rhai gyda’r argymhelliad yn wyneb y ffaith bod y Parc Cenedlaethol yn amgylchynu’r safle ac ardal gadwraeth arbennig Pen Llyn a’r Sarnau oddeutu 0.7km i’r gorllewin o’r safle ynghyd a dwy ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig wedi ei lleoli gyfagos, ac felly ni welir sut y gellir cyfiawnhau caniatau’r cais
- Awgrymwyd y dylid ymweld â gwaith cyffelyb sydd wedi dechrau ar safle Tyddyn Cae ym Mhen Llyn a oedd ym marn Aelod yn llanast ar y dirwedd
- Bod ceisiadau cyffelyb yn cynyddu a phryderwyd am yr effaith gweledol a chytunwyd gyda’r awgrym uchod bod y Pwyllgor yn ymweld â’r safle ym Mhen Llyn gydag meddwl agored er mwyn deall yn iawn beth yw’r effaith gweledol ar y tirlun.
- Gwnaed cais i’r swyddogion cynllunio i lunio adroddiad ardrawiad am y math yma o geisiadau ar y tirlun ac iddynt ddarparu canllawiau / rheoliadau yn union fel y gwnaed gyda melinau gwynt.

(d) Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr mai holl bwrpas cais cynllunio yw asesu’r safle sydd yn destun y cais a mynegwyd pryder sylweddol i’r awgrym o fynd i weld safle araller mwyn gallugoi gwneud penderfyniad ar y cais gerbron. Cynghorwyd y Pwyllgor Cynllunio bod risg sylweddol i wneud penderfyniad ar safle yn Nhywyn yn seiliedig ar weld safle ym Mhen Llyn.

(dd) Mynegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ei fod yn deall y sylw yn sgil bod y math yma o ddatblygiad yn newydd i’r Cyngor. O safbwynt tyrbinau gwynt trefnwyd ymweliad safle i’r Pwyllgor Cynllunio mewn Sir arall fel rhan o

hyfforddiant ac fe ellir gwneud trefniadau cyffelyb gyda'r math yma o ddatblygiadau ond pwysleisiwyd bod rhaid ystyried pob cais ar ei haeddiant.

O ran asesiad ardrawiad tirlun, pwysleiswyd bod adroddiad swmpus gerbron sydd yn rhoi barn proffesiynol swyddogion ynghyd a'r cyrff statudol eraill ar yr effaith weledol. Nodwyd ymhellach bod gwaith penodol wedi ei wneud gan Gallespies sydd yn edrych ar gapasiti y tirwedd yng Ngwynedd ac Ynys Mon a bod cynnwys yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth i'r ymchwil uchod. Nodwyd bod yr argymhellion gerbron yn seiliedig ar sylwadau yr ymgynghoriadau gyda'r swyddogion cynllunio wedi ystyried y sylwadau ac wedi dod i'r farn bod y cais yn dderbyniol.

(e) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD: (a) Caniatáu gyda'r amodau canlynol:**

**1. 5 mlynedd**
**2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau**
**3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
**4. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llacharedd.**
**5. Cytuno ar ddeunyddiau/lliwiau'r ffens a'r polion camerâu**
**4. Cytuno a chwblhau cynllun tirlunio a chynllun rheolaeth tirlunio**
**5. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Dŵr Wyneb a Chynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol.**
**6. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth**
**7. Cytuno a gweithredu cynllun rheoli llif traffig gwaith**
**8. Cytuno a gweithredu Rhaglen Waith Archeolegol**
**10. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear, a'i gytuno yn gyntaf gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
**11. O fewn 25 mlynedd i gwblhau'r datblygiad neu o fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.**
**12. Amodau safonol Dŵr Cymru**
**13. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau.**
**14. Amodau Priffyrdd.**
**15. Rhaid gyrru manylion system goleuo'r safle, gan gynnwys math, union leoliad, lefel goleuedd a'r modd o ddiogelu rhag llygredd neu gorlif golau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am gymeradwyaeth ysgrifenedig ac i fod yn gwbl weithredol cyn fo'r datblygiad a ganiateir trwy hyn yn cael ei gwblhau a'r safle yn dod yn weithredol**

**(b) Gofyn i'r swyddogion cynllunio drefnu hyfforddiant i'r Pwyllgor Cynllunio i'r dyfodol i gyfarch canllawiau / rheoliadau ceisiadau am osod paneli solar.**

**10. Cais Rhif C15/0748/44/LL – Cyn safle Carafanau Hamdden, Porthmadog**

**Trosi ac ehangu cyn safle trwsio carafanau i leoliad gwerthu ceir, canolfan MOT a modurdy trwsio cerbydau.**

(a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y bwriad yn cynnwys helaethu prif adeilad y safle drwy ei ymestyn 2.3m

ymlaen tuag at ffin y briffordd. Fe fyddai'r estyniad i'r adeilad yn creu 37m$^2$ ychwanegol o arwynebedd llawr. Lleolir y safle tu fewn i ffin datblygu Porthmadog a nodwyd bod y cais wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar gais yr Aelod Lleol.

O safbwynt mwynderau gweledol, gan fod y datblygiad ar safle a ddefnyddiwyd o'r blaen at ddefnydd cyffelyb a'i fod gerllaw adeiladau o'r un raddfa, ni ystyrir y byddai'n edrych allan o le ac fe ystyrir y byddai edrychiad y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau perthnasol. Ni ystyrir ychwaith y byddai newid arwyddocaol yn effeithiau'r defnydd ar fwynderau'r ardal.

Nodwyd y gellir sicrhau darpariaeth a threfniadau parcio derbyniol ar y safle er cwrdd â gofynion yr Uned Drafnidiaeth ynghylch yr effaith ar ddiogelwch priffyrdd .

Yn seiliedig ar yr holl ystyriaethau, nodwyd bod y bwriad yn dderbyniol ar sail ei ddefnydd, lleoliad, gosodiad, dyluniad, deunyddiau, graddfa ac unrhyw effaith bosibl ar fwynderau cyffredinol yr ardal ac yn cwrdd â gofynion y polisïau perthnasol.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd Asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:

- Mai cyn garej Pennant Motors oedd ar y safle yn y gorffennol a bod y bwriad yn creu 4 swydd newydd ac wedi cael ei llenwi gan Gymry lleol
- Bod y bwriad i greu y garej yn cydfynd hefo busnes presennol yr ymgeisydd yn Nolgellau ac yn fodd o helpu i wneud y busnes yn gynaliadwy a diogelu 20 swydd presennol
- Noder bod yr estyniad yn gymharol fach ond yn angenrheidiol i gael lleoli ceir i'w harddangos o fewn yr ystafell arddangos
- Cychwynnwyd y gwaith addasu i gael gwared ag asbestos cyn gynted a bo modd
- Bod caniatad cynllunio i ddatblygu ac ymestyn yr adeilad yn bodoli eisoes
- Ymatebwyd i'r ymgynghoriadau cyhoeddus drwy nodi o safbwynt gorddatblyu bod y bwriad yn syml iawn i'r addasiad ar y cyn-ddefnydd sydd wedi ei gymeradwyo gan y cynllunwyr yn barod
- Creu mwy o drafnidiaeth – bod ystyriaeth yr arbenigwr priffyrdd yn cadarnhau nad yw'r busnes yn mynd i greu ychwanegiad sylweddol o draffig
- Effaith mwynderau trigolion cyfagos – nodir bod y safle wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol fel garej, safle trwsio carafanau a hefyd fel garej Pennant Motors
- Sylwadau trafnidiaeth – bod cynlluniau wedi addasu'n barod ar gyfer mannau parcio ac wedi eu derbyn i fod yn addas a'r gofynion
- Gwarchod y cyhoedd – dim cwynion ar gyfer defnydd o drwsio carafanau sy'n gyffelyb i'r bwriad arfaethedig
- Y byddai cyfyngu oriau gwaith yn creu pryder oherwydd bod y busnes angen bod ar gael i drwsio ceir Heddlu Gogledd Cymru mewn argyfwng
- Manylion o lefelau isel o ddisgleirio gan y goleuadau wedi eu cyflwyno ac sy'n dangos na fyddai mwynderau trigolion yn cael eu heffeithio drwy lygredd golau
- Bod y datblygiad yn cael ei weld i fod yn wellhad o'r edrychiad presennol a'r bwriad yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllunio

(c) Nododd yr Aelod Lleol (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), y prif bwyntiau canlynol:

- Ei fod yn gyndyn i wrthwynebu cais gan fusnes lleol ond yn croesawu y cyfle i nodi pryderon preswylwyr lleol a'r Cyngor Tref
- Y byddai llygredd goleuni o safbwynt tai gyferbyn sy'n wynebu'r safle yn annerbyniol - tra'n cydnabod bod busnesau eraill ar y stryd does dim goleuadau yn cael eu goleuo o'r busnesau hyn
- Pryder am golli golau yn nhai Heol Wyddfa - wedi ymweld ag un o'r tai a thystiolaeth bod y cegin wedi tywyllu
- Y byddai cynnydd sylweddol mewn sŵn yn y gweithdy
- Pryderon am barcio gan mai dim ond lle i un cerbyd sydd yna
- Cwynion wedi eu derbyn am oryrru ar y stryd ac nad oedd ddigon o fesurau i liniaru goryrru
- Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cynllunio wrthod y cais

(d) Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio tra'n cydymdeimlo gyda'r pryderon rhaid ystyried y defnydd o'r cais yma a'i fod yn gyfle i gael rheolaeth well o'r oriau gweithredu na'r hyn sydd wedi bod yn y gorffennol. Nodwyd bod hanes cynllunio i'r cais ac ni fyddai cynnydd o safbwynt yrr effaith ar drigolion lleol ac y byddai mwy o reolaeth na'r hyn sy'n bodoli yn bresennol. Nodwyd ymhellach bod caniatad wedi ei gytuno yn 2013 ar gyfer ymestyn blaen y siop.

(e) Ategodd yr Uwch Beiriannydd (Rheolaeth Datblygu) yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf, gwnaed sylwadau ond ers hynny derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar sut y rheolir cerbydau a pharcio cerbydau staff ac roedd yn fodlon gyda'r trefniadau. Cyfeiriwyd at yr ynys ynghanol ffrynt y safle a bod cyfle i dynnu'r ynys ac o ganlyniad yn ennill dipyn o le parcio ar gyfer trigolion a chwsmeriaid.

(f) Nododd Aelod bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu ac fe gynigwyd ac eilwyd i ymweld a'r safle.

**PENDERFYNWYD:** **Gohirio ystyried y cais a threfnu ymweliad i'r safle.**

**11. Cais rhif C15/0807/20/CR – Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli**

**Cais ôl-weithredol i gadw pontŵn o fewn y cei.**

**PENDERFYNWYD:** **Gohirio ystyried y cais oherwydd gweithredu'r drefn siarad yn y Pwyllgor.**

**12. Cais rhif C15/0808/20/LL – Menai Marine, Hen Gell LLechi, Y Felinheli**

**Cais ôl-weithredol i gadw pontŵn o fewn y cei.**

**PENDERFYNWYD:** **Gohirio ystyried y cais oherwydd gweithredu'r drefn siarad yn y Pwyllgor**

**13. Cais rhif C15/0517/04/LL – Coed y Foel Uchaf, Frongoch**

**Codi tyrbin gwynt gyda mesur o 30.5m i'r hwb (48.01m i frig y llafn), blwch rheoli a gwaith cysylltiedig (ail gyflwyniad o gais a dynnwyd yn ôl).**

**'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.**

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle wedi ei leoli ar dir uchel gerllaw ffordd yr A4212 sydd yn rhedeg fel prif gyswllt rhwng tref Y Bala a phentref Trawsfynydd. Nodwyd bod ffin Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli oddeutu 750 medr i'r gorllewin gyda Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Y Bala a Glannau Tegid wedi ei leoli oddeutu 2km i dde'r safle, ac mae ardal eang o Dir Mynediad Agored a ddynodwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2005) wedi ei leoli o fewn 300 medr i ddwyrain y safle. Tynnwyd sylw bod y tir yn borfa amaethyddol sydd wedi ei wella, gyda pheilonau trydan wedi eu lleoli tua 450 medr i'r de o'r safle a cheir golygfeydd panoramig o'r mynyddoedd o amgylch y safle hwn.

Cyfeiriwyd at y polisiau perthnasol ynghyd a'r ymgynghoriadau cyhoeddus o fewn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at y sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Tynnwyd sylw bod Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd Ynys Mon, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol gan gwmni Gillespies yn cadarnhau bod safle'r cais o fewn Ardal G12 Llandderfel ac yn disgrifio'r tirwedd yr ardal yn gyffredinol fel un o raddfa ganolig sydd â chymeriad tirwedd wledig a thonnog, sydd â sensitifrwydd canolig i uchel i ddatblygiadau ynni gwynt.

Rhagdybia'r polisi yn erbyn datblygiadau sy'n ymwthio'n sylweddol yn weledol ac sydd wedi ei lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y tirwedd. Oherwydd amlygrwydd y datblygiad o fewn y tirlun ac o ardal eang iawn o du fewn y Parc, ystyrir y byddai yn amharu yn sylweddol ar fwynhad defnyddwyr y Parc Cenedlaethol. Ystyrir y byddai'r tyrbin yn y lleoliad arfaethedig yn amharu ar y tirlun, tynnu sylw oddi ar y Parc ac yn amharu ar ddynodiad y tir sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.

Pwysleisiwyd oherwydd natur datblygiadau o'r math ei bod yn anodd ei integreiddio gyda'r dirwedd a bod rhaid pwyso a mesur yn ofalus ei effaith gweledol, statws y tirwedd, buddiannau economaidd a'r nod cenedlaethol o hybu datblygiadau sydd yn creu ynni adweinyddol.

Nodwyd yr ystyrir nad yw'r bwriad yn cwrdd â gofynion y polisïau perthnasol a byddai'r tyrbin yn cael effaith sylweddol arwyddocaol ar nodweddion a chymeriad arbennig y Parc Cenedlaethol. Argymhelliad y swyddogion cynllunio ydoedd gwrthod y cais yn unol â'r rheswm amlinellir yn yr adroddiad.

(b) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Bod y cais yn ail-gyflwyniad gyda'r ymgeisydd wedi colli rhai misoedd a'r gwrthwynebiad yn parhau gan y swyddogion
- Nad oedd y datblygiad yn amharu ar y dirwedd
- O safbwynt toriad i'r gorwel, nodwyd bod oddeutu dwy res o beilonau yn rhedeg drwy diriogaeth y Parc Cenedlaethol sydd bron 'run maint â'r tyrbin arfaethedig ond nid yw'r rhain yn weladwy oherwydd bod y llygaid wedi cynefino a hwy
- Teulu ifanc a gyflwynir y cais sydd yn dechrau ffarmio
- Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais
- Pe byddai'r tyrbin yn cael ei baentio yn llwyd teimlir y byddai'n gweddu'n naturiol gyda'r adeiladau, peilonau, a.y.b.

- Mai dim ond dau wrthwynebiad a gyflwynwyd sef gan Swyddog y Parc Cenedlaethol a Chyfeillion y Parc
- Nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu a'r swyddogion wedi nodi mewn cais cynharach bod sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru o bwys sylweddol
- Apeliwyd i'r Pwyllgor gefnogi'r cais

(c) Yng nghyswllt y sylwadau uchod, pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio yn wahanol i'r peilonau bod y strwythur yn un symudol a ddim yn dderbyniol o safbwynt effaith weledol.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i'w wrthod.

(ch) Nododd Aelod ei gefnogaeth i'r cais oherwydd bod y datblygiad yn gyfle i deulu ifanc fedru cynyddu incwm. Yn dilyn yr ymweliad safle, nid oedd yr Aelod o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ymwthiol ac y byddai'n siomedig iawn pe bai'r cais yn cael ei wrthod.

**PENDERFYNWYD: Gwrthod y cais oherwydd ystyrir y byddai natur estron a graddfa'r tyrbin yn ogystal â'i leoliad ansensitif ac anghydnaws o fewn y dirwedd yn ymwthio'n sylweddol yn weledol yn y dirwedd o gwmpas gan gael effaith niweidiol ar olygfeydd amlwg a phanoramig sydd gan y cyhoedd i mewn, allan, ac ar draws y tirwedd o gwmpas sy'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri a chefn gwlad agored a thrwy hynny niweidio nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri yn groes i Bolisïau B14 a C26, a Pholisïau Strategol 2 a 9 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009), Canllawiau Cynllunio Atodol: Ynni Gwynt ar y Tir (2014), Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014) a Nodyn Cyngor Technegol 8:Ynni Adnewyddadwy (2005).**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.40 p.m.

____________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 09/11/15

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Gwen Griffith, Dyfrig Wynn Jones, June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** E Selwyn Griffiths, Dilwyn Lloyd, John Wynn Jones (Aelodau lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Aneurin Rhys (Swyddog Rheolaeth Datblygu), Gareth Roberts (Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Lesley Day, Aled Ll Evans, Sian Gwenllïan, Peter Read a Gethin Glyn Williams (Aelodau Lleol).

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Tudor Owen, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5 ar y rhaglen (ceisiadau cynllunio rhif C15/0808/20/LL a C15/0807/20/CR) oherwydd ei fod yn Aelod o Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

Ymneilltuodd yr Aelod o'r Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddo bleidleisio ar y materion hynny.

3. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2015 yn ddarostyngedig ar gywiro *Pwynt 4; Penderfyniad / tud 10* fel rhai cywir. Nodir yn y cofnodion 'Dim ffenestri'. Cywiriad - 'Dim ffenestri ychwanegol'.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cais rhif C13/1143/11/AM – Tir yn Pen y Ffridd, Bangor**

Cais amlinellol i godi hyd at 366 o unedau byw, gyda datblygiadau cysylltiol gan gynnwys ffordd fynedfa, llecynnau parcio ag adnoddau cysylltiol

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Nododd y Cadeirydd mai dyma'r cais mwyaf oedd wedi ei gyflwyno i Cyngor Gwynedd.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ohirio y cais gan nad oedd Aelod Lleol ar ward Dewi (etholiad lleol i'w gynnal 19.11.15)

**PENDERFYNWYD gohirio er mwyn cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf gan y bydd Aelod lleol newydd wedi ei ethol.**

**2. Cais rhif C14/0248/30/LL – Rhan o gae AO 8825, Cae Clyd, Manod, Blaenau Ffestiniog**

Adeiladu 5 tŷ deulawr ynghyd a ffordd ystâd ac addasiadau i'r fynedfa bresennol

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai cais llawn ydoedd ar gyfer adeiladu 5 tŷ (gan gynnwys 2 dŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol) ynghyd a ffordd 'stad a newidiadau i fynedfa bresennol. Nodwyd y byddai tri o'r tai yn rhai ar wahân a'r ddau arall ar ffurf tai par. Amlygwyd bod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer tai ac mae Briff Datblygu wedi ei ddatblygu ar ei gyfer sydd yn nodi bod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer 18. Er hynny, mae rheswm cynllunio yn bodoli dros beidio cynnig 18 tŷ a hynny oherwydd natur a statws y tir fel safle bywyd gwyllt. Nid yw'r safle yn unffurf nac yn wastad ac mae cyfyngiadau o safbwynt lefelau tir, presenoldeb nant yn rhedeg drwy'r safle yn golygu nad yw yn rhesymol bosib datblygu'r holl dir.

Nodwyd bod y safle yn dir agored gydag un tŷ eisoes wedi ei adeiladu arno. Mae'r safle wedi ei adnabod fel glaswelltir asidaidd gyda thir sydd yn rhan ffen, cors a chors siglennaidd sydd tu allan ac yn gyfochrog i'r cais. Nodwyd bod yr hyn sydd wedi ei gynnig yn dderbyniol gan yr Uned Bioamrywiaeth.

O ran materion trafnidiaeth a mynediad amlygwyd bod nifer o bryderon ynglŷn â defnydd ychwanegol tebygol o gyffordd y safle gyda'r A470. Er hynny, nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth wrthwynebiad i'r bwriad a bod argymhelliad wedi ei wneud i wella'r mynediad yn gyffredinol. O ran materion llifogydd, amlygwyd bod y cais yn cynnwys mesurau o reoli llif dŵr wyneb o'r safle ac o ran materion ieithyddol bod y cais yn cwrdd â'r gofynion priodol. Ystyriwyd bod y cynnig yn cwrdd gyda'r holl bolisïau lleol a chenedlaethol perthnasol a nodwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd

- Bod y cais wedi ei liniaru ac wedi ei addasu i ymateb i bryderon
- Bod adeiladu tai gyda phedair llofft yn adlewyrchu'r gofynion lleol
- Ei fod yn ymateb i ofynion tai fforddiadwy
- Bod llefydd parcio digonol wedi eu cynnwys
- Ei fod wedi ei eni a'i fagu yn yr ardal ac felly addasrwydd y safle yn bwysig iddo

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais yn unol â'r argymhelliad

(ch) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod a oedd yn pryderu ynglŷn â'r posibilrwydd i gais pellach gael ei gyflwyno am 13 o dai, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu byddai yn rhaid cyflwyno cais cynllunio o'r newydd a fyddai'n debygol o gael ei wrthod oherwydd bod gwarchodaeth i'r gwlybtir sydd yn gyfochrog i safle'r datblygiad.

**PENDERFYNWYD**

**Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau Cytundeb 106 yn ymwneud gyda sicrhau fod 2 o'r 5 tŷ yn dai**

**ffforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ac amodau cynllunio perthnasol yn ymwneud gyda:**

1. **Amser cychwyn y datblygiad**
2. **Deunyddiau i'w cytuno**
3. **Llechi to**
4. **Dŵr / Carthffosiaeth / Draeniad**
5. **Amodau priffyrdd**
6. **Amod tirlunio**
7. **Tynnu hawliau datblygu cyffredinol oddi ar y tai fforddiadwy**
8. **Amodau bioamrywiaeth/gabions/trefniadau gweithio**

**3. Cais rhif C14/0919/11/AM – Bron Derw, Ffordd Garth / Garth Road, Bangor**

Cais amlinellol i godi llety myfyrwyr pwrpasol i gynnwys 33 llofft ynghyd â chyfleusterau megis cegin ac ystafell hamddena

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi mai cais amlinellol ydoedd ar gyfer codi un adeilad pwrpasol fel llety myfyrwyr. Nodwyd ei fod yn gais wedi ei ddiwygio o'r cais blaenorol a dynnwyd yn ôl a oedd ar gyfer codi 3 adeilad ar wahân gyda darpariaeth cysgu i 64 o fyfyrwyr. Nodwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ffiniau datblygu'r ddinas ac yn safle sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu - yn safle sydd yn bodloni gofynion sylfaenol polisïau C1 a C3 yn ogystal â pholisïau strategol 6 o'r CDU. Er hynny amlygwyd, er bod gwelliannau wedi eu gwneud i leihau maint y datblygiad roedd y bwriad yn parhau i fod yn or-ddatblygiad o'r safle ac y byddai yn cael ardrawiad annerbyniol ar fwynderau gweledol a chyffredinol yr ardal ac yr adeiladau cyfochrog.

(b) Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i wrthod yn gais yn unol ar argymhelliad

(ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol

- Bod y Cynghorydd lleol wedi mynegi gwrthwynebiad yn unol ag argymhelliad y swyddogion
- Bod y datblygiad yn orddatblygiad.
- Bod rhaid cydnabod bod adeiladau o'r fath yn 'tagu' dinas Bangor ac yn ei anharddu ar gyfer y dyfodol

**PENDERFYNWYD**

**Gwrthod – rhesymau**

1. **O ystyried cymeriad ac edrychiadau presennol yr ardal gyfagos ystyrir fod y bwriad ar y graddfa a'r ffurf a ddangosir yn ormesol ac yn or-ddatblygiad o'r safle. Mi fyddai'r datblygiad arfaethedig yn anghydnaws gyda ffurf yr ardal gyfagos gan effeithio yn andwyol ar gymeriad cyffredinol yr ardal ac felly yn groes i ofynion polisïau B22 a B23 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd ( 2009 ) a rhannau 3 a 5 o Ganllawiau Dylunio Gwynedd.**

2. **Ystyrir y byddai'r datblygiad yma ar sail graddfa a ffurf yn effeithio yn andwyol ar osodiad adeiladau rhestredig cyfagos Erw Fair i raddau annerbyniol sy'n golygu na fyddai'r bwriad yn bodloni gofynion polisi B3 o'r CDU na chanllawiau Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96.**

**4. Cais rhif C15/0421/41/LL – Elephant Works King Street, Abermaw**

Addasu ac ymestyn yr adeilad presennol (i gynnwys adeiladu llawr ychwanegol) er mwyn creu 9 uned gwyliau a dwy uned adwerthu.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi'r byddai'r bwriad yn cynnwys darparu llawr ychwanegol ar yr adeilad gyda'r unedau gwyliau i'w lleoli ar lawr cyntaf ac ail yr adeilad ar unedau manwerthu ar y llawr cyntaf yn wynebu Stryd King Edward. Bydd gweithdy presennol yn cael ei ddymchwel er mwyn darparu ardaloedd storio biniau a beics ac 8 llecyn parcio. Amlygwyd bod y dyluniad yn parchu strwythur yr adeilad gwreiddiol ac yn welliant sylweddol o ran dyluniad yr adeilad presennol sydd erbyn hyn yn ddolur llygad. Amlygwyd fod y cais yn gofyn am lety gwyliau ac felly bod amod wedi ei gynnwys yn sicrhau mai defnydd gwyliau yn unig fydd i'r unedau. Yn ogystal, petai'r angen yn codi i ddiwygio'r defnydd i unedau fforddiadwy buasai hyn yn dderbyniol gan yr ystyrir fod lleoliad canol tref yr adeilad yn ogystal a maint yr unedau yn golygu fod yr unedau yn debygol o fod yn fforddiadwy beth bynnag.

Nodwyd bod y bwriad yn dderbyniol ar safle sydd yn amlwg ac ar un o brif strydoedd Abermaw a'i fod yn cydymffurfio gyda holl bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â pholisïau a chanllawiau cynllunio Cenedlaethol.

(b) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu y cais yn unol â'r argymhelliad

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Sut fydd defnydd yr unedau gwyliau yn cael eu monitro? A oes modd cynnwys amod llai cyffredinol?
- Ydi 8 llecyn parcio yn ddigonol ar gyfer defnydd gwyliau a staff y siopau?

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:-

- Yr ymgeisydd sydd wedi gwneud cais am ddefnydd gwyliau ac felly amod wedi ei gynnwys i gyfarch hyn.
- Bod cadw cofrestr defnydd gwyliau yn amod cynllunio safonol cenedlaethol ac o ganlyniad bod gan y Cyngor hawl i weld cofrestr ar unrhyw adeg. Os bydd amheuaeth o gam ddefnydd o'r unedau bydd hawl gan y swyddogion gorfodaeth i ymchwilio ymhellach. Nid oes adnoddau digonol i wirio pob cofrestr / defnydd gwyliau, ac felly bydd yr Uned Gorfodaeth yn gwneud hyn drwy sampl neu os y derbynnir cwyn. Yn ychwanegol, nodwyd y byddai'r unedau yn dderbyniol ar gyfer anheddau byw parhaol ac felly anodd deall y pryderon.

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â llecynnau parcio, nododd yr Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu bod hyd at un lle ar gyfer pob uned gwyliau a bod digon o fannau parcio derbyniol eraill ar gael i'r staff, yn ogystal mae mannau parcio cyhoeddus ar gael mewn pellter hwylus o'r safle.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

**Caniatáu – amodau**

1. **5 mlynedd;**
2. **unol a chynlluniau;**
3. **amod defnydd gwyliau yn unig/cadw cofrestr;**
4. **llechi ar y to;**
5. **gorffeniadau allanol i gytuno;**

6. **rhaid i'r canllaw a sgrin afloyw ar y teras/gardd do ar edrychiad gogledd ddwyreiniol y datblygiad fod mewn lle cyn yr anheddir y datblygiad;**
7. **rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol fel y dangoswyd ar y cynllun a gyflwynwyd a cyn yr anheddir y datblygiad;**
8. **wal allanol ar edrychiad de-ddwyreiniol y datblygiad i gael ei gorffen mewn lliw golau, a'i chynnal yn y cyflwr hynny yn barhaol wedi hynny;**

**Nodyn**
**Petai ystlumod yn cael ei darganfod yn ystod gwaith adeiladu dylid atal gwaith pellach ar yr adeilad a chysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith.**

**5. Cais rhif C15/0700/22/LL – Parc, Penygroes**

Gosod paneli solar pv ar gyfer creu parc solar ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys ffens diogelwch a strwythurau

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai cais llawn ydoedd ar gyfer gosod rhesi o baneli solar er mwyn creu parc solar wedi ei leoli i'r Gorllewin o Cilgwyn. Amlygwyd bod y safle yn mesur 12 acer mewn arwynebedd ac yn cynnwys 3 cae sydd yn cael eu defnyddio yn rhannol at ddiben pori defaid. Disgrifiwyd y lleoliad fel safle o fewn Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle fel y'i cynhwysir o fewn Rhan 2, Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig gyda nifer helaeth o adeiladau rhestredig yn gyfagos ynghyd â nifer o henebion wedi eu lleoli o fewn 2km i safle y cais

Eglurwyd yng nghyd destun y polisïau cynllunio lleol a chyngor cenedlaethol sy'n ymwneud a datblygiadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynaliadwy ei bod yn hanfodol cloriannu'r angen am ddatblygiadau o'r fath yn erbyn eu heffaith bosibl ar ansawdd y dirwedd ac ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol eraill.

Yng nghyd-destun y cais yma amlygwyd nad oedd y safle yn dir rhesymol i osod paneli solar arno oherwydd ei natur anwastad ac agored - nid oedd modd lliniaru'r datblygiad na chuddio'r safle a rhagwelwyd y buasai gosod 9000 o baneli solar yn dirywio gwerth gweledol yr ardal ac y byddai'n ddatblygiad estron ac amlwg iawn. Credwyd hefyd bod y bwriad, oherwydd ei faint a'i natur yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau trigolion cyfagos ac effaith ar fwynderau cyffredinol cerddwyr sy'n defnyddio llwybrau cyhoeddus poblogaidd cyfagos gyda golygfeydd agored a chlir o'r ardal.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-
- Bod y canllawiau yn mynegi tir gwastad ar gyfer datblygiad o'r fath
- Bod cynllun yn amlygu ffens 3m i'w hadeiladau tu ôl i waliau traddodiadol
- Bydd y paneli solar yn amlwg i'w gweld ymysg y grug ac yn elfen estronol i'r tirlun
- Y safle wedi ei leoli o fewn tirwedd hanesyddol
- Adnewyddu hen fythynnod i'w gymeradwyo, ond y paneli solar yn amlwg am anharddu'r ardal agored
- Y paneli solar yn gorchuddio llwybrau cyhoeddus
- Teledu cylch cyfyng ar y datblygiad yn atal preifatrwydd trigolion cyfagos
- Damcaniaeth yn unig yw ynni glan

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Datgan siom bod swyddogion yn gwrthod y cais
- Yn gynllun da ac yn gyfle teg i'r tirfeddiannwr arallgyfeirio
- Gall defaid barhau i bori'r tir
- Effaith gyfyngedig ar y rhostir
- Bod y cynllun yn annog bioamrywiaeth a bod bwriad i wella'r llwybrau cyhoeddus
- Sawl ymgais wedi ei wneud i liniaru'r sefyllfa gyda thrigolion cyfagos
- Nifer o lythyrau cefnogi'r cais wedi eu derbyn
- Y tirfeddianwyr yn gefnogol i'r gymuned leol

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Nad oedd ganddo wrthwynebiad i ynni gwyrdd, ond nid oedd y lleoliad dan sylw yn addas
- Cefnogwyr a gwrthwynebwyr i'r cais - braf fuasai cytuno, ond polisïau Cyngor Gwynedd yn argymell gwrthod y cais
- Pryder y byddai'r paneli solar yn amlwg a gweladwy
- Rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yn mynd drwy'r safle
- Llawer o dai traddodiadol yn yr ardal - y datblygiad yn ddolur llygad
- Dyffryn Nantlle wedi gwneud cais am Safle Treftadaeth y Byd - y datblygiad yn groes i'r egwyddor yma.

Cynigwyd a eiliwyd i wrthod y cais yn unol ar argymhelliad

(d) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Cefnogol i ynni adnewyddol, ond y datblygiad yma yn weladwy ac yn creu effaith andwyol ar y tirlun
- Angen cysondeb wrth drafod ceisiadau. Angen cysondeb ar draws Cymru gyfan. Rhaid sicrhau bod aelodau yn derbyn gwybodaeth o bolisïau pwrpasol ac nid rhai sydd bellach wedi dyddio.
- Awgrym i gysylltu gyda'r Aelodau Seneddol i brysuro proses o bolisïau pendant i sicrhau arweiniad clir ar y mater
- Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol i'r cais – a fuasai modd ystyried safle datblygiad sydd yn llai o ran maint?
- Angen sicrhau bod llefydd hardd yn cael eu gwarchod ynghyd a'r economi leol.

(dd) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn rhoi argymhelliad clir a chyfredol. Eglurwyd bod asesiad tirlun diweddar wedi ei gwblhau a oedd yn asesu tirlun sydd â chapasiti i dderbyn datblygiadau o'r fath. O ran polisïau, Cynllun Unedol Gwynedd yw'r cynllun mabwysiedig ar hyn o bryd. O ran effeithiau, bydd rhain yn sicr o amrywio o gais i gais yn ddibynnol ar y safleoedd. Ategwyd ymhellach y byddai hyfforddiant am ddatblygiadau paneli solar yn cael ei drefnu ar gyfer yr aelodau yn fuan yn 2016.

Mewn ymateb i ystyried cais llai o faint, nodwyd bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o bryderon swyddogion ond nid oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i'r argymhellion / sylwadau hyn. Cadarnhawyd y buasai cais am safle llai o faint yn destun cais o'r newydd.

**PENDERFYNWYD**

**Gwrthod – rhesymau :-**

**1. Mae'r bwriad yn annerbyniol o ystyried ei leoliad, graddfa a'i amlygrwydd yn y tirlun lleol, ei effaith andwyol ar fwynderau gweledol trigolion cyfagos ynghyd a'r cyhoedd hynny sy'n cerdded y mannau tramwy cyhoeddus cyfagos at ddibenion hamdden a mwynderol. O'r herwydd, ystyrir fod y**

**bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2, 4 a 9, Polisi A1, A3, B14, B22, B23, B25 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Nodyn Cyngor Technegol 8 a 12, Canllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Dirwedd (2009) a'r Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (2011).**

2. **Mae'r bwriad yn annerbyniol o ystyried ei leoliad, graddfa a'i amlygrwydd yn y tirlun hanesyddol pwysig ynghyd a'i effaith andwyol ar osodiad adeilad rhestredig gradd II Parc gerllaw. O'r herwydd, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 3, Polisi B3, B7 a B12 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Cylchlythyrau 60/96 a 61/96 y Swyddfa Gymreig, Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio (2014) a'r Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).**

3. **Mae'r bwriad yn annerbyniol ar sail ei leoliad, gwneuthuriad, ffurf a'i raddfa gan y byddai'n golygu colli ac achosi difrod parhaol i rhostir sy'n gynefin o bwysigrwydd Ewropeaidd a chenedlaethol. O'r herwydd, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion Polisi Strategol 1, 2 a 9, Polisi A3, B15, B16, B17, B20 a B21 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Canllawiau Cynllunio Atodol: Safleoedd Bywyd Gwyllt (2010), Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur ac Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar Gyfer Ynni Adnewyddiadwy a Charbon Isel (2011).**

**6. Cais rhif C15/0755/41/LL – Tyddyn Gwyn, Llangybi**

Gosod a gweithredu fferm solar ffotofoltaidd (pv) ar y tir ar 6.9 hectar o dir amaethyddol ynghyd a chyfarpar cyswllt, ffens diogelwch, camerâu cylch cyfyng, thoilet compostio, strwythurau/cabannau trawsnewid, storio, is-orsaf a rheoli a chreu trac newydd

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle yn mesur oddeutu 6.9 hectar ac yn cynnwys tir porfa sydd wedi ei leoli ar lwyfandir eithaf gwastad. Ategwyd bod y safle mewn cefn gwlad agored o fewn tirwedd tonnog rhwng ucheldiroedd canol Llŷn a Bae Ceredigion gyda chloddiau a gwrychoedd aeddfed o'i amgylch. Nodwyd bod y safle yn weladwy o ambell i dŷ preifat ond bod bwriad i atgyfnerthu'r gwrychoedd ac i blannu mwy o goed i sicrhau na fydd effaith niweidiol arwyddocaol ar dirwedd yr ardal. Amlygwyd bod yr Uned Bioamrywiaeth wedi codi rhai pryderon ynghylch effaith posib y datblygiad ar gynefinoedd a rhywogaethau a'u hamddiffynnir yn statudol, fodd bynnag credid y gellid goresgyn hyn drwy sicrhau mesurau lliniaru a rheolaethol ar gyfer y safle - ategwyd bod trafodaethau yn parhau rhwng yr Uned a'r datblygwyr.

O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd y bwriad yn groes i bolisïau perthnasol ac yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y cais yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol
- Bod y safle wedi ei sgrinio yn dda gyda bwriad i blannu mwy o wrychoedd, gweirgloddiau llawn blodau gwyllt a gosod bocys nythod i adar ac ystlumod
- Trafodaethau ynglŷn â chynlluniau bioamrywiaeth yn cael eu cynnal
- Bod defnydd pori yn parhau ar y safle ac ar ddiwedd cyfnod y cais bydd y tir yn dychwelyd yn ôl i ddefnydd amaethyddol llawn.
- Bod mynediad addas i'r safle
- Llawer o wybodaeth wedi ei rannu gyda'r gymuned leol
- Ynni glan yn adnodd gwerthfawr sydd i'w groesawu.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i gynnal ymweliad safle.

Pleidleisiwyd ac fe syrthiodd y cynnig

Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu yn unol â'r argymhelliad

(ch) Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid yr argymhelliad:

- Bod patrymau cynnal cefn gwlad yn newid - nid parc yw Gwynedd, rhaid derbyn mai bywoliaeth ydy hyn i drigolion cefn gwlad sydd yn sicrhau eu dyfodol.
- Pwysig cadw 'tirwedd del' ond hefyd rhaid sicrhau bod tirwedd ar gyfer cynnal bywoliaeth.

(d) Nodwyd y sylwadau canlynol yn groes i'r argymhelliad:

- Annog ymweliad safle gan fod tai preifat gerllaw

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion nad oedd gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan y cyhoedd i'r cais

**PENDERFYNWYD**

**Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gytuno ar fesurau lliniaru priodol er amddiffyn nodweddion bioamrywiaeth ac er cytuno ar y llwybr ffordd fwyaf priodol i gyrraedd y safle ynghyd ag amodau cynllunio perthnasol yn ymwneud gyda:**

**1. Amser cychwyn y datblygiad**
**2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau**
**3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
**4. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llacharedd.**
**5. Cytuno ar ddeunyddiau/lliwiau'r ffens a'r polion camerâu**
**4. Cytuno a chwblhau cynllun tirlunio a chynllun rheolaeth tirlunio**
**5. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Dŵr Wyneb a Chynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol.**
**6. Cytuno a gweithredu Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth.**
**7. Cytuno a gweithredu Rhaglen Waith Archeolegol**
**8. Dim gwaith adeiladu yn ystod y tymor nythu adar**
**9. Cynllun Rheolaeth Priddoedd**
**10. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear, a'i gytuno yn gyntaf gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
**11. O fewn 30 mlynedd a 6 mis i gwblhau'r datblygiad neu o fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.**
**12. Amodau safonol Dŵr Cymru**
**13. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau**
**14. Amodau Priffyrdd**
**15. Cytuno cynllun goleuo**

**7. Cais rhif C15/0769/34/LL – Graianog, Llanllyfni**

Codi tyrbin gwynt 24.8 i'r hwb a 36.6m i frig y llafn ynghyd â gosod blwch rheoli a gwaith cysylltiedig

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bwriad i godi tyrbin gwynt 85kw gyda chwt i gadw peirianwaith cysylltiol ger ei waelod ynghyd a chysylltiadau grid. Byddai mynediad newydd yn cael ei greu i arwain at y tyrbin o drac mynediad chwarel presennol. Ategwyd y byddai'r tyrbin wedi ei leoli ar lwyfandir bychan mewn cae a ddefnyddi'r fel porfa a fu gynt yn rhan o chwarel Graianog, rhwng y chwarel weithredol bresennol ac iard storio / prosesu. Ar wahân i'r chwarel, mae'r tirlun yn un amaethyddol tonnog sydd yn codi yn raddol i gyfeiriad Bwlch Mawr a Pharc Cenedlaethol Eryri tua 2km i'r dwyrain.

(b) Amlygwyd bod y Parc Cenedlaethol yn nodi pryder ar effaith cronnus datblygiadau gydag elfennau fertigol yn yr ardal yma a fuasai yn achosi niwed arwyddocaol i olygfeydd i mewn ac allan o'r Parc Cenedlaethol (ac yn yr un modd gydag ANHE Llŷn ac ar Osodiad Henebion Cofrestredig yn yr ardal ac ar dirwedd hanesyddol Dyffryn Nantlle). Mewn ymateb nodwyd bod asesiad diweddar yn mynegi y gall y dirwedd ymdopi gyda'r datblygiad hwn ac nad ydyw effaith y tyrbin yn un o niwed arwyddocaol. Amlygwyd bod effaith dynol yn amlwg ar y tirwedd a nodwyd na fyddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar y tirlun yn gyffredinol.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod ganddo deulu ifanc a bod angen mentro er mwyn edrych i'r dyfodol
- Bod y tyrbin yn bwysig o ran elfennau cynaladwyedd
- Bod trac mynediad eisoes yn bodoli
- Bod modd cydweithio gyda Gwyriad gerllaw
- Bod polisïau lleol a chenedlaethol yn hyrwyddo datblygiadau o'r fath
- Bod gosodiad y tyrbin mewn llecyn cuddiedig er mwyn lleihau effaith gweledol a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi mai cyfyngedig fuasai'r effaith oherwydd y tirlun tonnog.
- Bod mast Nebo gerllaw a pheilonau trydan – y tyrbin dipyn llai o ran maint
- Nifer o lythyrau wedi ei derbyn yn gefnogol i'r cais
- Byddai caniatáu'r cais yn sicrhau hyfywdra i'r fferm deuluol

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) a oedd yn gwrthwynebu'r cais:

- Bod uchder y tyrbin yn sylweddol
- Bod y tyrbin yn creu effaith weledol ar yr ANHE a'r Parc Cenedlaethol cyfagos
- Bydd maint y tyrbin yn creu effaith ar safle cyfagos hanesyddol Bryn Derwin

Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn unol âr argymhelliad.

(d) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod nifer o strwythurau fertigol eraill yn bodoli yn yr ardal ac felly ni fuasai'r tyrbin yn sefyll ar ben ei hun
- Bod y tyrbin yn sicrhau hyfywdra
- Bod hyn yn fodd i'r teulu ifanc arallgyfeirio
- Cryfhau diwylliant ac iaith cefn gwlad

(dd) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phrofion anemometer, nodwyd nad oedd rheidrwydd cael y wybodaeth yma gyda chais cynllunio am dyrbin. Cais oedd hwn am dyrbin 36.6m i frig y llafnau ac felly dyna'r hyn oedd yn cael ei ystyried. O ran buddion cymunedol a chyfraniadau ariannol, pwysleisiodd yr Uwch Gyfreithiwr nad oedd cyfraniad ariannol yn rhan o'r drefn cynllunio

Gwnaed cais am bleidlais gofrestredig a cefnogwyd hyn.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol i **ganiatáu y cais**:

**O blaid y cynnig i ganiatau y cais, (11)** Y Cynghorwyr: Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, Dyfrig Wynn Jones, June Marshall, Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Hefin Williams ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn y cynnig i ganiatau y cais, (2)** Y Cynghorwyr: Seimon Glyn a Gruffydd Williams

**Atal, (1)** Y Cynghorydd Michael Sol Owen

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

**Amodau**

1. **dechrau gwaith o fewn 2 flynedd**
2. **caniatâd am gyfnod o 25 mlynedd**
3. **yn unol â'r cynlluniau**
4. **lliw llwyd i'r tyrbin a'r uned rheoli i weddu**
5. **sŵn**
6. **dadgomisiynu**
7. **cytuno manylion ac edrychiad unrhyw offer/peirianwaith ar y safle**
8. **ceblau tanddaearol**

**8. Cais rhif C15/0808/20/LL - Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli**

Cais ôl-weithredol i gadw pontŵn o fewn y cei.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai cais llawn, olweithredol ydoedd i gadw pontŵn o fewn y cei (gohiriwyd y cais ym Mhwyllgor 19.10.15 oherwydd gweithrediad y drefn siarad). Ategwyd bod y pontŵn wedi ei leoli ar y wal ogleddol ac yn mesur 30m o hyd a 2m o led fydd wedi ei gysylltu â wal yr harbwr mewn 3 lleoliad gyda braced haearn a fydd yn gadael i'r pontŵn godi gyda'r llanw. Ychwanegwyd bod wal yr harbwr wedi ei restru fel adeilad rhestredig gradd II. Nodwyd bod y pontŵn newydd yn gweddu i'r ardal o agwedd dyluniad ac edrychiad ac ei fod mewn marina gweithredol. Nid oedd oblygiadau ar edrychiad na chymeriad y strwythur rhestredig na mwynderau'r ardal na thrigolion cyfagos, ac ystyriwyd bod yr adroddiad peirianyddol a gyflwynwyd yn datgan cryfder y wal i allu cynnal y pontŵn. Ystyriwyd felly bod y bwriad yn dderbyniol ac yn unol â pholisïau B2, B3, B22, B23, B24 a B25 CDUG.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd i'r cais y pwyntiau canlynol:-

- Bod yr harbwr yn un hanesyddol
- Bod pontwnau wedi eu hadeiladu yn 2001 heb ganiatâd cynllunio
- Bod y morglawdd wedi ei chwalu yn 2008 gyda difrod i erddi trigolion cyfagos. Y trigolion rannodd y costau atgyweirio.
- Pontŵn wedi ei adeiladu Mawrth 2015 - eto heb ganiatâd
- Pryder, gan mai cais ôl-weithredol ydyw, y bydd cwymp arall a bydd trigolion cyfagos yn erlyn y Cyngor am y difrod.

(c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant i'r cais y pwyntiau canlynol:

- Bod ardal y doc yn Felinheli yn un llwyddiannus
- Bod basn y doc wedi ei ddylunio ar gyfer gwaith diwydiannol trwm a llongau masnachol
- Bod y pontŵn efallai wedi cael effaith ar gwymp y wal
- Bod y doc o fudd i'r economi leol ac i'r gymuned
- Bod y wal dan sylw mewn cyflwr da heb unrhyw arwydd o ddirwasgu
- Bydd cynllun rheoli gorfodaeth yn ei le
- Dim tystiolaeth i wrthod y cais

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan aelod oedd yn gweithredu ar ran yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) a oedd yn gwrthwynebu'r cais:

- Ei fod wedi cyfarfod gyda thrigolion cyfagos a'u bod yn bryderus i ddigwyddiad tebyg i'r un a ddigwyddodd yn 2008 - hynny yw bod y pontŵn yn rhyddhau'r wal ac yn achosi difrod fydd yn gostus i'r trigolion.
- Bod y pontŵn dan sylw yn agosach i'r tai ac felly'r pryder yn fwy
- Bod crac difrifol yn y wal a bod y wal yn eithaf bregus.
- Ei fod yn anghytuno gyda'r adroddiad peirianyddol a gyflwynwyd gyda'r cais oedd yn nodi nad oedd gosod pontŵn yn debygol o gael effaith andwyol o safbwynt strwythur peirianyddol.
- Bod angen adroddiad peirianyddol mwy cynhwysfawr er mwyn lleddfu ofnau'r trigolion
- Os caniatáu, dylid cynnwys amod clir am arolwg peirianyddol trylwyr.

Mewn ymateb i'r sylwadau nodwyd bod rhaid cydymdeimlo gyda thrigolion lleol o ran difrod i'r wal yn y gorffennol. Er hynny amlygwyd yr angen i ystyried y cais yn ei gyd-destun. Ar sail y dystiolaeth oedd i law, ni ystyriwyd bod y pontŵn yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y wal.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais yn unol â'r argymhelliad

(d) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod sylwadau'r aelod lleol yn amlygu pryderon
- Os cwymp y wal, pwy fydd yn gyfrifol am ei hadnewyddu? Oes lle yma i dystiolaethu bod y Cyngor yn ddiffygiol yn eu cyfrifoldebau?
- Nad oedd y dystiolaeth yn ddigonol - cynnig yr angen am adroddiad mwy cynhwysfawr, technegol a manwl i osgoi erlyniad
- Nad oedd y dystiolaeth fecanyddol yn ddigonol

(dd) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ohirio'r penderfyniad ar sail nad oedd y dystiolaeth beirianyddol sydd wedi ei gyflwyno gyda'r cais yn ddigonol i gyfiawnhau caniatáu y cais.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Gyfreithiwr bod y gwelliant yn briodol gan fod ceisio gwybodaeth yn briodol ac yn dderbyniol. Ategwyd, os byddai unrhyw ddifrod yn digwydd i'r wal, mai mater sifil fuasai hynny tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio.

Ategodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio y buasai'n briodol gofyn am ragor o wybodaeth peirianyddol a chael barn yr Uned Rheolaeth Adeiladu ar ei gynnwys er mwyn derbyn cadarnhad os yw'r adroddiad sydd wedi ei dderbyn yn briodol ac yn ddigonol.

**PENDERFYNWYD**

**Gohirio'r penderfyniad a gwybyddu'r ymgeisydd fod angen cyflwyno diweddariad i'r asesiad strwythurol/peirianyddol er mwyn cyfeirio at y crac yn y wal. Wedi derbyn hyn bydd angen ymgynghori gyda'r Uned Rheolaeth Adeiladu er mwyn derbyn cadarnhad os yw'r adroddiad strwythurol/gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn ddigonol a derbyniol.**

**9. Cais rhif C15/0807/20/CR – Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli**

**PENDERFYNWYD**

**Gohirio gwneud penderfyniad ar y cais rhestredig ar sail penderfyniad ar gais rhif 8 ar yr agenda sef cais cynllunio rhif C15/0808/20/LL (uchod) - Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli.**

**10. Cais rhif C15/0810/40/LL – Tir / Land by Fferm Llwyndyrys Farm, Y Ffôr**

Adeiladu fferm solar gyda gwaith cysylltiol i gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan, ffordd fynediad, compownd adeiladu dros dro, ffensys diogelwch a gwelliannau ecolegol a thirweddu

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod safle'r cais yn mesur oddeutu 11.56 hectar ac yn cynnwys chwe cae amaethyddol graddfa 3 a 4. Disgrifiwyd y caeau fel caeau pori gwastad gyda llethr ysgafn wedi eu rheoli yng nghefn gwlad agored gyda rhes drwchus o goed aeddfed i'r dwyrain o'r safle a gwrychoedd o amgylch mwyafrif o ffiniau'r caeau. Ategwyd bod y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli ac mae'r ANHE oddeutu 2km i'r gogledd orllewin.

Nodwyd bod polisi C27 CDUG yn caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol. O ran tirlunio'r safle adroddwyd bod bwriad gadael yr ardal o dan y paneli solar fel tir pori ac ystyriwyd bod y manylion tirlunio a gyflwynwyd yn dderbyniol., Er hynny, amlygwyd bod angen cyflwyno a chytuno ar gynllun rheolaeth tirlunio i sicrhau bod tirlunio yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel dros oes y cynllun. Bydd angen atgyfnerthu gwrychoedd a phlannu coed ychwanegol ac unwaith bydd y rhain wedi datblygu, bydd y sgrinio yn effeithiol.

Er bod y safle wedi ei leoli o fewn 200m i dri beudy rhestredig gradd II fferm Llwyndyrys ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar osodiad yr adeiladau rhestredig nac ar berthynas yr adeiladau rhestredig a'r tir amaethyddol cyfagos. Nodwyd bod bwriad y datblygiad yn dderbyniol a rhannau o'r datblygiad yn unig fydd yn weledol. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiadau lleol i'r cais. Ni ystyriwyd bod y bwriad yn groes i bolisïau perthnasol ac felly ei fod yn dderbyniol i'w ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau cynllunio.

(b) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod yr ynni yn ynni glân ac adnewyddadwy
- Bod y tir yn dir amaethyddol o ansawdd isel, ond bod modd parhau i bori defaid arno
- Bod cyfathrebu da gyda'r gymuned leol - Nid oedd gwrthwynebiad lleol i'r cais
- Bod bwriad plannu gwrychoedd ychwanegol
- Bod y tir yn cael ei ddatblygu drwy hyrwyddo cynllun bioamrywiaeth
- Bod tri defnydd i'r tir – ar gyfer pori defaid, gwasanaethau ecolegol ac ynni adnewyddadwy

Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais yn unol â'r argymhelliad

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Angen herio'r datganiad bod ansawdd tir Llŷn o safon isel – gwahanol ydyw ac nid salach. Y tir yn gynefin prin i rywogaethau
- Pryder ar ardrawiad ffermydd solar ar y Sir ac felly angen adroddiad llawn ar y nifer sydd yn cael eu cyflwyno / caniatáu
- Bod y datblygiad yn creu effaith weledol o'r ANHE
- Pryder bod y ffordd yn gul drwy Llwyndyrys ac felly angen sicrhau bod llif y traffig o dan reolaeth
- Nad oedd newid i ddefnydd y tir - defaid yn parhau i gael pori.
- Bod angen cynnal amaeth fel diwydiant – creu arian ychwanegol i ffermwyr

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol â'r argymhelliad**

**Amodau**

1. **5 mlynedd**
2. **Cwblhau’r datblygiad yn unol â’r cynlluniau**
3. **Rhaid lleoli’r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol**
4. **Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau, ffens a pholion camerâu**
5. **Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a’r gorchudd di-llacharedd.**
6. **Ymgymryd â’r gwaith yn unol gyda’r cynllun tirlunio yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cychwyn.**
7. **Cyflwyno a chytuno ar gynllun rheolaeth tirlunio hir dymor.**
8. **Amodau priffyrdd**
9. **Cynllun rheoli llif ac amseroedd traffig gwaith**
10. **Amodau bioamrywiaeth – sy’n cynnwys, cyflwyno cynllun Dwr Wyneb, cyflwyno Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth, dim clirio yn ystod y cyfnod nythu, cytuno manylion y ffens a chytuno ar gynllun goleuo.**
11. **Cyflwyno rhaglen archeolegol cyn dechrau’r gwaith.**
12. **Dylid gosod unrhyw geblau trydan o’r datblygiad i’r cysylltiad trydanol o dan ddaear ac fel y’i cytunir yn gyntaf gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol.**
13. **O fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu’n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i’w gyflwr gwreiddiol.**
14. **Diogelu cyrsiau dwr.**
15. **Gweithredu’n unol a’r Strategaeth Ddraenio**
16. **Cyfnod gweithredol y safle/dadgomisiynu**
17. **Cytuno cynllun goleuo**

**11. Cais rhif C15/0847/35/LL Cilan, Caernarfon Road, Cricieth**

Codi estyniad deulawr cefn i annedd

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y cais ar gyfer ymestyn tŷ deulawr presennol a chodi dwy elfen dau lawr sylweddol newydd ar gefn yr eiddo. Adroddwyd bod y tŷ presennol yn dŷ tair llofft ar wahân mewn rhes o dai o wahanol faint a dyluniadau mewn ardal anheddol ar y brif ffordd allan o Griccieth. Amlygwyd bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd y derbyniwyd mwy na thri o sylwadau yn groes i argymhelliad y swyddog.

Nodwyd mai 3m yn unig fyddai rhwng yr estyniad a ffin gardd drws nesaf. Yn ogystal nodwyd os cwblheir y datblygiad dim ond oddeutu 5m o ardd fyddai’n weddill ym mhen y safle ac fe fyddai hyn yn debygol o leihau’r lle gwag amwynder sydd o amgylch y tŷ mewn modd annerbyniol. Fe ystyriwyd bod y datblygiad yn or-ddatblygiad o’r safle ar sail ei swmp, maint, lleoliad, ffurf, graddfa a’r effaith annerbyniol y byddai’n cael ar fwynderau eiddo cyfagos oherwydd cysgodi a gor-edrych.

(b) Yn manteisio ar ei hawl i siarad nodwyd ar ran yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Ei fod yn gefnogol i gais ei deulu
- Bod y teulu angen llofft, a stafell ychnwaegol ar gyfer gweithio / gwaith cartref
- Barn y swyddog yn unig yw bod yr estyniad yn rhy fawr
- Nid oes sylw yn yr adroddiad at yr ardd / lawnt sydd i flaen y tŷ a lle digonol i barcio pedwar car.
- Ni fydd yr estyniad yn taflu cysgod ar dai cyfochrog
- Y Gymraeg yw iaith yr aelwyd ac felly pwysig iawn i’r teulu gael aros o fewn eu cynefin
- Adeiladu estyniad yw eu hymgyrch at aros yn lleol

- Y cais wedi derbyn cefnogaeth llawn gan y gymuned leol

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn) a oedd yn gefnogol i'r cais:
- Bod y tŷ presennol yn rhy fach i deulu o chwech
- Bod y cais wedi derbyn cefnogaeth leol
- Bod y Cyngor tref yn unfrydol yn eu cefnogaeth i'r cais
- Bod digon o le i godi estyniad sydd allan o olwg pawb
- Cefnogol i'r cais er mwyn sicrhau bod y teulu lleol yn cael parhau i fyw yn lleol

Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais, yn groes i'r argymhelliad, gan fod y Pwyllgor yn ystyried fod dyluniad y bwriad yn dderbyniol ac nad oedd yn groes i'r polisïau perthnasol.

(ch) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif sylwadau canlynol:
- Nad oedd tai fforddiadwy ar gael yn lleol i'r teulu
- Bod cadw teulu yn lleol yn cryfhau cymuned Gymraeg yng Nghricieth
- Enghraifft o gais i gadw cymunedau yn fyw
- Nifer o blaid y cais sydd yn arwydd o fywiogrwydd cymunedol
- Dim gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan gymdogion

(d) Mewn ymateb i'r sylwadau nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio bod caniatáu y cais yn gosod cynsail beryglus gan na ellid dewis a dethol os yw cais yn cael ei ganiatáu ar sail pwy yw'r ymgeisydd. Rhaid ystyried maint a dyluniad y datblygiad a pharchu mwynderau preswyl y gymdogaeth leol. Ategwyd bod yr estyniad yn sylweddol o ran maint a bod modd cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd am gynllun amgen i gwrdd â'r angen a'r polisïau cynllunio perthnasol.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant drwy gynnal ymweliad safle.

**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle**

**12. Cais rhif C15/0872/44/LL Greenacres Caravan Site, Morfa Bychan**

Cais ôl-weithdredol i osod 6 llwyfan bren a gwaith cysylltiol er mwyn lleoli 6 pabell saffari i gymryd lle 6 safle carafán teithiol a ganiatawyd fel rhan o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C13/0873/44/LL

(a) Ymhelaethodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi mai cais cynllunio llawn ôl weithredol ydoedd i osod 6 llwyfan bren a gwaith cysylltiol er mwyn lleoli 6 'pabell safari' i gymryd lle 6 safle uned teithiol a ganiatawyd fel rhan o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C13/0873/44/LL, yn ogystal â diwygiadau i'r gosodiad. Ategwyd y byddai'r pebyll yn ymestyn amrediad o wasanaethau gwyliau'r parc.

(b) Nodwyd y byddai rhywfaint o'r safle i'w weld o anheddau sydd agosaf i'r safle yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf o ystyried y bydd y coed yn colli eu dail. Er hyn, pe caniateir y cais gellid lleihau'r effaith weledol drwy sicrhau cyfnod aros/lleoli carfanau teithiol ar y safle i gyfyngiad defnydd gwyliau rhwng Mawrth1af a Hydref 31ain mewn unrhyw flwyddyn a bod y pebyll, ynghyd a'r llwyfannau pren, yn cael eu symud oddi ar y safle tu allan i'r cyfnod hwn. Credir, drwy amodau perthnasol i reoli'r tymor a'r cynllun tirlunio a phlannu sydd eisoes wedi ei weithredu, na fyddai unrhyw ardrawiad annerbyniol yn deillio o ddefnyddio'r safle ar gyfer y defnydd hwn. Ategwyd bod lleoliad, dyluniad, gorffeniad a ffurf y datblygiad yn dderbyniol a bod y pebyll yn cydweddu gyda'r lleoliad.

Tynnwyd sylw at y sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd.

(c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Ei fod yn cytuno gydag adroddiad y swyddogion
- Bod y pebyll yn cynyddu'r amrywiaeth a'r math o wasanaethau sydd gan y parc gwyliau i'w gynnig
- Bod gwaith lliniaru'r tirwedd wedi ei weithredu i safon uchel
- Bod symud y llwyfannau pren yn ymyrraeth ddiangen ac felly cais i addasu'r amod oherwydd bydd gofyn adeiladu llwyfannau newydd bob blwyddyn.

(ch) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):

- Bod newid i'r bwriad gwreiddiol
- Bod y parc wedi gwrthod gwrando ar gyngor bod angen caniatad i newid defnydd
- Bod y pebyll yn parhau ar y safle er bod y cyfnod amser aros/tymor gwyliau wedi dod i ben
- Bod y cwmni, yn barhaus, yn torri rheolau bychain
- Angen sicrhau bod rheolau tynn ar fodolaeth 6 pabell yn unig
- Os bydd yr amod yn nodi bod rhaid symud y llwyfannau pren, yna rhaid sicrhau bod y cwmni yn cadw at hynny.

(d) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatau y cais yn unol ar argymhelliad.

Nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu bod trafodaethau wedi eu cynnal i dynnu'r canfas a'r ffram yn unig, ond buasai hyn yn cadw'r platform sydd yn strwythur yn ei le. Nodwyd bod symud llwyfannau pren ar ddatblygiadau tebyg tu allan i gyfnod amser aros/ tymor gwyliau yn weithredol ar draws y Sir ac mai cynsail peryg fuasai caniatáu i'r llwyfannau pren hyn gael aros yn eu lle.

(dd) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylw canlynol:

- Bod rhaid sicrhau cysondeb

**PENDERFYNWYD Caniatáu**

**Amodau**

1. **Datblygiad yn unol â'r cynlluniau.**
2. **Lliw pebyll.**
3. **Amod cyfyngu amser aros/tymor gwyliau (1 Mawrth – 31 Hydref) a sicrhau fod y pebyll a llwyfannau pren yn cael eu symud oddi ar y safle tu allan i'r cyfnod hwnnw.**
4. **Amod gwyliau yn unig.**
5. **Amod rheoli cyfanswm nifer unedau ar y safle yn ei gyfarwydd**
6. **Cyfanswm o 6 pabell yn unig i'w lleoli ar y lleiniau a ddangosir**

**13. Cais rhif C13/1298/11/AM Tir ger Lôn Popty, Lon Popty, Bangor**

Cais llawn ar gyfer codi adeilad deulawr sy'n darparu 18 uned hunan gynhaliol ar gyfer myfyrwyr, torri coed wedi eu gwarchod gan orchymyn gwarchod coed, newidiadau i'r fynedfa gerbydol bresennol ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerddwyr, a thirlunio

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y gohiriwyd gwneud y penderfyniad ar y cais ym Mhwyllgor Cynllunio 28.9.15 er mwyn galluogi ymweliad safle. Ategwyd mai cais llawn am ganiatad cynllunio ydoedd i godi adeilad deulawr fyddai yn darparu 18 uned hunan gynhaliol ar gyfer myfyrwyr. Nodwyd bod y safle

yn wag ac wedi gordyfu, ei fod wedi ei leoli o fewn ardal breswyl ar gyrion y ddinas, ond tu fewn i'r ffin datblygu. Adroddwyd bod y safle wedi ei leoli ar dir serth ger ffordd gyhoeddus Lon Bopty ac o ganlyniad wedi derbyn nifer o wrthwynebiadau yn ymwneud a diogelwch ffyrdd, mynediad a chynnydd mewn traffig o ganlyniad i'r datblygiad dan sylw. Er y gwrthwynebiadau, amlygwyd nad oedd yr Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad.

Nodwyd na fyddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar yr adeilad rhestredig gerllaw oherwydd lefelau tir a graddfa'r bwriad. Yng nghyd-destun cynnwys torri coed sydd wedi eu gwarchod a phlannu coed newydd yn eu lle, nodwyd bod cynllun tirweddu wedi ei gyflwyno i gyfleu hyn. Amlygwyd hefyd bod yr Uned Bioamrywiaeth wedi cadarnhau fod y coed sydd wedi eu gwarchod o gyflwr gwael ac felly nid oes gwerth eu cadw ar y safle.

Ystyriwyd bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisiau lleol a chenedlaethol a bod y bwriad yn ddefnydd addas o dir, gwag a blêr sydd ynghanol y ddinas.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i wrthod y cais ar sail y rhesymau isod:

- Bod yr allt yn serth, yn gul a throellog
- Mynediad cyfyngedig
- Bydd cynnydd sylweddol mewn traffig ar sail cynnydd mewn myfyrwyr sydd wedi eu lleoli ar safle Santes Fair
- Cynnydd mewn traffig yn beryglus i gerddwyr a myfyrwyr
- Anodd gwneud y sefyllfa yn ddiogel (yn enwedig yn ystod misoedd yr Hydref a'r Gaeaf)

Mewn ymateb i'r cynnig amlygodd yr Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu nad oedd hanes damweiniau i'r safle ac roedd yn cydnabod bod y lleoliad yn beryglus i ddreifwyr a cherddwyr. Er hynny, nodwyd bod llwybrau eraill ar gyfer y cerddwyr a bod rhywfaint o welliannau i'r fynedfa ac i'r ffordd wedi eu cynnig. Ategwyd hefyd bod hyd at 6 man parcio yn ddigonol. Yng nghyd-destun cynnydd mewn traffig o ganlyniad i gynnydd mewn myfyrwyr ar safle Santes Fair, nodwyd bod y sefyllfa wedi ei hasesu yn ystod cyfnod diwethaf yr adeiladu ac yn ystod y cyfnod roedd myfyrwyr yn symud i mewn i'r neuaddau preswyl.

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y datblygiad yn creu effaith ar y tŷ rhestredig cyfagos
- Bod rhaid ystyried y gorchymyn coed
- Bod y bwriad yn or-ddatblygiad
- Y dyluniad ei hun yn dderbyniol, ond y lleoliad dan sylw yn anaddas
- Rhaid asesu defnydd o'r Lôn ers i fyfyrwyr symud i neuaddau preswyl Santes Fair
- Nid yw effaith o'r cynnydd mewn nifer y myfyrwyr yn yr ardal wedi amlygu ei hun yn llawn
- Nifer o geisiadau blaenorol wedi eu gwrthod ar sail mynediad i'r safle
- Effaith niweidiol ar drigolion cyfagos

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar sail gorddatblygiad fyddai'n cael effaith ar fwynderau'r ardal.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 5:20pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 29/9/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tom Ellis (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Lesley Day, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Charles W.Jones, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Anwen Davies.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Lesley Day fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Ymgynghoriad i'r Cyfarwyddiadau Drafft gan Lywodraeth Cymru i'r Adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - oherwydd bod nifer uchel o fyfyrwyr yn ei ward.

Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015 fel rhai cywir.

**3. YMGYNGHORIAD I'R CYFARWYDDIADAU DRAFFT GAN LYWODRAETH CYMRU I'R ADOLYGIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn nodi, fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig. Gofynnwyd i'r pwyllgor gyflwyno eu sylwadau ar fanylion y Cyfarwyddiadau Drafft er mwyn eu pasio ymlaen i'r Cyngor llawn, gan hefyd annog eu cyd-aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn ogystal ag ymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad, trafodwyd y newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 fyddai'n golygu lleihad tebygol o 75 aelod etholedig i 66 aelod. Er bod rhai aelodau'n gefnogol i hynny ar y sail bod yna ddiffyg cydbwysedd rhwng maint yr etholaethau presennol a'r gymhareb cynghorwyr i etholwyr, bod y lleihad wedi'i nodi fel toriad posib' y bwriedir ceisio barn y cyhoedd yn ei gylch ac y byddai'n well bod rhan o'r newid wedi'i wneud yn 2017, ' roedd mwyafrif yr aelodau o'r farn y byddai newid tymor byr o'r fath yn anaddas gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor:-**

**(a) Gyflwyno'r sylwadau ar gynnwys y Cyfarwyddiadau Drafft i'r Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu crynhoi yn Atodiad A i'r cofnodion hyn.**

**(b) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddatgan y farn y byddai'n anaddas gweithredu'r newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.**

## 4. DATBLYGIADAU TECHNOLEGOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau ar faterion technoleg gwybodaeth, gan gynnwys y newidiadau diweddar i systemau electroneg y Cyngor, hyfforddiant pellach ar yr i-pad a Moderngov.

Nododd yr Uwch Reolwr fod 12 aelod y tu allan i'r Cabinet wedi cyflwyno sylwadau yn sgil y newidiadau i systemau electroneg y Cyngor, a olygai mai trwy'r i-pad yn unig y gall aelodau gael mynediad i'w e-byst '*cynghorydd'* ar hyn o bryd, ac awgrymodd gysylltu'n ôl â'r aelodau hynny i sefydlu beth yn union yw eu hanghenion, ond os ydynt yn parhau'n anhapus, y dylid darparu trwydded ar eu cyfer.

Manylodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid ar y rhesymau diogelwch defnyddwyr dros weithredu'r newid i'r systemau electroneg. Eglurodd hefyd fod angen edrych ymhellach ar fynediad i e-byst oddi ar ffonau symudol gan nad oedd yn glir eto sut bod modd caniatáu hynny'n eang heb dramgwyddo rheolau diogelwch.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd aelodau at rai o'r anawsterau a wynebir yn sgil cyflwyno'r drefn newydd, sy'n cynnwys:-

- Anodd ymateb yn ysgrifenedig i ddogfen ymgynghorol.
- Dim 3G ar yr i-pad.
- Oes i-pad yn fyrrach nag oes cyfrifiadur?
- Datblygiad ac esblygiad parhaus y systemau Apple a Microsoft.
- Anhawster agor atodiadau.
- Methu defnyddio USB gyda'r i-pad.
- Straen llygaid.

Mewn ymateb i sylw gan aelod na chafodd yr aelodau rybudd bod y newid yn mynd i ddigwydd, nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni y cyhoeddwyd dwy neges yn Rhaeadr, sef y prif gyfrwng cysylltu â'r aelodau.

Mynegwyd anfodlonrwydd na chaniateid i'r aelodau ddefnyddio ail gyfrif e-bost ar wefan y Cyngor, ond awgrymodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod hynny'n derbyn sylw ar wahân fel bod gan y pwyllgor yr holl wybodaeth berthnasol o'i flaen cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Ymatebodd y rheolwyr i rai o'r anawsterau a grybwyllwyd drwy nodi:-

- Y buddsoddwyd yn helaeth mewn hyfforddiant dros y misoedd diwethaf er mwyn ehangu gymaint â phosib' ar y defnydd o'r i-pad.
- Y dylai dyfodiad yr App Moderngov ddatrys llawer o'r rhwystrau, e.e. byddai dogfennau'n mynd yn syth ar y peiriant, heb orfod eu llawrlwytho.
- Bod yr i-pads yn sicr o barhau am weddill oes y Cyngor hwn, ond y byddai'n rhaid ystyried beth fydd yn digwydd adeg y Cyngor newydd yn 2017.
- Er nad yw'r i-pad yn gwneud popeth, ei fod yn gwneud llawer o bethau yn dda iawn.

O ran sylw bod aelodau'r Cabinet yn cael eu trin yn wahanol, eglurodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod achos busnes wedi'i gyflwyno ar ran aelodau'r Cabinet yn

nodi eu bod angen mynediad a gweithio ar ddogfennau, ac ati, oherwydd eu cyfrifoldeb penodol, ond bod modd ymateb i'r achosion dros yr aelodau eraill hefyd.

Mynegodd rhai aelodau eu parodrwydd i dalu eu hunain am y drwydded er mwyn cael mynediad i'w e-byst oddi ar gyfrifiadur, ond eglurwyd y byddai hynny'n groes i ganllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar y peilot o hyfforddiant pellach ar yr i-pad gydag arbenigwr allanol, gan grynhoi sylwadau'r aelodau hynny fu ar yr hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Y dylai aelodau gael mynediad i'w e-byst oddi ar gyfrifiadur personol neu liniadur (ond nid ffôn symudol), os oes angen am hynny, a chynnwys nodyn i'r perwyl hynny yn Rhaeadr.**

**(b) Cysylltu â'r 12 aelod sydd wedi cyflwyno sylwadau yn sgil y newidiadau i systemau electroneg y Cyngor, ac ymateb i unrhyw aelodau pellach sy'n cyflwyno sylwadau, i sefydlu beth yn union yw eu hanghenion, ac os ydynt yn parhau'n anhapus, darparu mynediad iddynt i'w e-byst o gyfrifiadur personol neu liniadur (ond nid ffôn symudol).**

**(c) Datblygu'r hyfforddiant i-pads drwy:-**

- **Gynnig cwrs ffurfiol arall i aelodau eraill;**
- **Datblygu tîm o aelodau all hyfforddi a chynnig arweiniad i'w cyd-aelodau;**
- **Ystyried cynnig '*pages'* i'r rhai sydd wedi gweld yr ap, ac sy'n sicr y byddant yn gwneud defnydd ohono;**
- **Darparu taflenni gwybodaeth i'r aelodau ar sut i wneud gwahanol bethau gyda'r i-pad.**

**5. IS-GRŴP AMRYWIAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau ar waith yr Is-grŵp hyd yma a'r camau nesaf. Nodwyd y byddai'r is-grŵp yn cyfarfod yn fuan i ystyried gweithredu'n lleol ar argymhellion cenedlaethol yn y maes.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**6. LWFANSAU AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau am benderfyniadau cyhoeddi tabl lwfansau aelodau ar gyfer y cyfnod 2014/15.

Holwyd a gafwyd hawl y Cadeirydd i fynd yn groes i benderfyniad y pwyllgor y tro diwethaf i gyflwyno gwybodaeth am y lwfansau yn Newyddion Gwynedd. Atebodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni y cymerwyd penderfyniad golygyddol i beidio cynnwys yr wybodaeth y tro hwn er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i Her Gwynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU 2014/15**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15. Nododd ei bod wedi gobeithio cynnal trafodaeth yn y cyfarfod hwn ynglŷn â'r rhwystrau a'r cyfleoedd er mwyn hwyluso'r drefn at 2015/16, ond gan ei bod wedi mynd yn hwyr, awgrymodd roi'r mater gerbron y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD cynnal trafodaeth yn y cyfarfod nesaf ar y rhwystrau a'r cyfleoedd ar gyfer adroddiadau blynyddol aelodau yn 2015/16.**

## 8. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – rhaglen waith y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y rhaglen waith.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm.

______________________________
**CADEIRYDD**

***Atodiad A***

***Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?***

**Na. Mae'r gymhareb yn gwbl anaddas ar gyfer ardal wledig a gwasgaredig. Ar hyn o bryd, mae cymhareb bresennol Gwynedd fel sir yn 1,089 gyda wardiau Gwynedd yn cynnwys rhwng 480 a 2,428 gyda'r ddau ward mwyaf yn rhai 2 aelod.**

**Mae ymagwedd sydd yn defnyddio cymhareb syml o ran y nifer o etholwyr yn codi pryder. Nid yw hynny'n rhoi unrhyw gydnabyddiaeth i'r llwyth gwaith sydd yn codi i gynghorwyr lleol yn sgil myfyrwyr sydd heb gofrestru fel etholwyr, poblogaeth dymhorol, yn sgil y diwydiant ymwelwyr a thai haf.**

**Mae hefyd yn mynd yn gwbl groes i gyfeiriad Llywodraeth Cymru a oedd, yn ei ddogfen ymgynghorol "Diwygio Llywodraeth Leol - Grym i Bobl Leol" yn son am bwysigrwydd "Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau". Mae'n anodd gweld sut y gall cynghorwyr ymdopi â'r rôl heriol hon ar ben eu cyfrifoldebau sefydliadol fel aelodau pwyllgor ayb os byddant yn gwasanaethu etholaethau mor fawr.**

**Pe byddai symudiad o'r fath yn digwydd, byddai'n rhaid symud i drefn o gynghorwyr llawn-amser er mwyn medru ysgwyddo'r llwyth gwaith.**

***Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?***

**Mae angen isafswm ar gyfer democratiaeth effeithiol ond mae'r math o ffigurau a nodir yn llawer rhy isel. O fewn system Cabinet, gydag angen tua 10 aelod ar gabinet, mae gadael gweddill gwaith y Cyngor (Craffu, Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ayb) i nifer mor fychan o gynghorwyr yn gosod pwysau gwaith afresymol arnynt. Dylai'r isafswm aelodau fod yn o leiaf 45-50 aelod**

**Mae'r sylwadau uchod ar sail barn am lwyth gwaith y cynghorau presennol. Byddai hynny'n amlwg yn cynyddu'n arwyddocaol yn dilyn ad-drefnu mewn meysydd fel Cynllunio a Thrwyddedu, gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau fyddai angen sylw.**

**Y mater arall i'w ystyried yw y gallai dyraniad seddau i grwpiau gwleidyddol fod yn fwy cymhleth ar gynghorau gyda niferoedd llai. Gallai fod yn fwy anodd llenwi seddau a gallai'r baich ar nifer fechan o gynghorwyr gynyddu.**

***Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?***

**Dylid, fel yr esboniwyd yn yr ateb i gwestiwn 2. Dylai'r Cyfarwyddiadau Drafft gydnabod anghenion llywodraethu rhedeg cyngor modern. Fodd bynnag, unwaith mae hynny wedi digwydd, dylid edrych ar bob cyngor ar wahân gan ystyried amgylchiadau pob cyngor yn unigol. Rhaid ystyried pellteroedd teithio (ar gyfer teithio i gyfarfodydd yn ogystal â theithio at etholwyr o fewn y ward) yn ogystal â'r angen i gael wardiau sydd yn adlewyrchu cymunedau naturiol.**

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?***

**Mae'n siŵr bod rhyw synnwyr mewn cael cap ond dylai hynny adlewyrchu'r ardal ar gyfer cyngor unigol.**

***Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?***

**Na. Mae natur wardiau unigol, hyd yn oed oddi fewn i ardaloedd cynghorau unigol mor amrywiol. O ganlyniad nid yw'n synhwyrol gwneud hynny. Mae'n gwbl briodol cael amrediad i ddibenion gwaith y Comisiwn Ffiniau ond byddai'n rhaid i'r Comisiwn gael y rhyddid i eithrio rhag hyn os yw natur cymuned naturiol yn golygu nad yw'n synhwyrol ei gynnwys gydag ardal arall.**

**Ar bwynt cysylltiol, argymhellir y dylid ceisio osgoi wardiau aml-aelod gan fod cael un aelod i ward yn symleiddio pethau i drigolion a chynghorwyr.**

***Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?***

**Dyma ddylai fod yn brif ystyriaethau a dylent fod yn ddylanwadol iawn. Os yw cynghorau i adlewyrchu eu hardaloedd yn iawn, dylai holl nodweddion yr ardal (poblogaeth, pellteroedd teithio, natur cymunedau naturiol ayb) gael effaith ar y penderfyniad**

***Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?***

**Cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin.**

# PWYLLGOR SAFONAU 5/10/15

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Michael Sol Owen ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd).

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Y Cynghorydd Lesley Day.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, 2015 fel rhai cywir.

**3. AELODAETH Y PWYLLGOR**

Nododd y Swyddog Monitro â thristwch y disgwylid cadarnhad meddygol ynglŷn â sefyllfa Linda Byrne a'i bod yn ymddangos felly y byddai yna sedd wag ar y pwyllgor. Byddai'n gwneud datganiad ac yn trefnu i ffurfioli hynny yn yr wythnosau nesaf gan hysbysebu am aelod annibynnol newydd ar y pwyllgor maes o law.

**4. CEISIADAU AM ODDEFEB**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar ddau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Cymuned Bethesda mewn perthynas â thrafodaethau ynglŷn â throsglwyddo canolfannau lleol o berchnogaeth Cyngor Gwynedd i berchnogaeth y Cyngor Cymuned (neu gorff cymunedol arall).

Manylwyd ar y ddau gais yn unigol, sef:-

- Cais gan y Cynghorydd Godfrey Northam, oedd yn Gadeirydd Pwyllgor Canolfan Rachub ac yn aelod o Bwyllgor Canolfan Cefnfaes, am hawl i siarad yn unig pan drafodir y mater.
- Cais gan y Cynghorydd Walter Watkin Williams, oedd yn aelod o Bwyllgor Canolfan Cefnfaes, am hawl i siarad a phleidleisio pan drafodir y mater.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach:-

- Nad oedd yr un o'r ddau aelod wedi'u penodi ar y cyfryw bwyllgorau gan y Cyngor Cymuned.
- Bod gan y Pwyllgor Safonau hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol ac nad oedd rheswm i gredu nad oedd y ddau gais dan sylw yn cyrraedd y sefyllfa olaf ar y rhestr, sef "*mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall*".

- Nad oedd y ffaith bod y ceisiadau'n cyrraedd y sail yma'n golygu y caniateid goddefeb yn awtomatig ac 'roedd yn rhaid i'r pwyllgor ystyried a oedd budd cyhoeddus o ganiatáu i'r aelodau gymryd rhan, er bod y Cod Ymddygiad yn darparu na ddylent gael gwneud hynny.
- Nad oedd yn eglur yn yr achosion hyn pam bod angen i'r ddau aelod penodol yma siarad ar y mater. 'Roedd y Cynghorydd Northam yn teimlo bod rhaid iddo gymryd rhan er mwyn sicrhau bod y Cyngor Cymuned yn llawn ddeall y sefyllfa ynglŷn â'r neuadd bentref, ond diau y gallai rhywun arall esbonio hynny. 'Roedd y Cynghorydd Northam hefyd wedi nodi ar ei ffurflen bod raid i 4 allan o'r 13 aelod ar y Cyngor Cymuned ddatgan buddiant yn y mater, ond ni fyddai hynny'n effeithio ar gworwm.
- Pe caniateid y ceisiadau hyn, byddai'n rhaid i'r pwyllgor ganiatáu ceisiadau tebyg yn y dyfodol, a heb wybodaeth ynglŷn â pham mae'r angen i siarad yn cyfiawnhau goddefeb, ei bod yn anodd gwybod pa gynsail sy'n cael ei greu.

Cytunodd yr aelodau â sylwadau'r Swyddog Monitro gan nodi bod yr wybodaeth yn denau ac yn annelwig ac nad oedd yn hysbys i'r pwyllgor pam yn union fod y ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno.

Nodwyd ymhellach y gallai'r pwyllgor hwn dderbyn llu o geisiadau tebyg gan fod nifer o gynghorau cymuned yn trafod trosglwyddo asedau ar hyn o bryd ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol darparu nodyn cynghori ar gyfer y clercod yn amlinellu'r disgwyliadau. Atebodd y Swyddog Monitro fod cyfres o gyrsiau ar gyfer clercod ac aelodau cynghorau cymuned yn cychwyn y noson honno ac y gellid codi'r mater hwn yno.

**PENDERFYNWYD gwrthod y ddau gais am oddefeb ar sail diffyg gwybodaeth.**

**5. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn egluro:-

- Sut y datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu;
- Beth yw'r drefn ar gyfer adolygu'r fframwaith ac adrodd ar y canlyniadau;
- Rôl y Pwyllgor Safonau o fewn y fframwaith.

Codwyd cwestiynau gan aelodau ynglŷn â'r Ddeddf Llesiant a Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig. Ymatebodd yr Uwch Reolwr i'r cwestiynau hynny, gan egluro y byddai'r gofynion newydd a gyflwynir gan y Ddeddf yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y Fframwaith Llywodraethu, ond nad oedd yn disgwyl y byddai llawer o elfennau newydd yn cael eu hychwanegu gan fod y Fframwaith wedi ei ddylunio i gwmpasu holl weithgareddau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a chroesawu'r cynnydd yn sgôr effeithiolrwydd y Pwyllgor Safonau.**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.
Ymhellach i'r adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod yr Ombwdsmon bellach wedi penderfynu peidio ymchwilio i gŵyn 2.3 Achos 201503255, ac felly nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gŵyn agored ar hyn o bryd yn erbyn cynghorwyr Gwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adrodddiad.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2014/15**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2014-15 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad.

Croesawyd bwriad yr Ombwdsmon i gymryd sefyllfa gadarnach yn y dyfodol wrth gyfeirio cwynion 'lefel isaf' yn ôl i swyddogion monitro i gael eu trin yn lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**8. ARSYLLU CYFARFODYDD**

Gwahoddwyd yr aelodau annibynnol i roi adborth ar lafar yn dilyn arsyllu cyfarfodydd Cyngor Gwynedd neu gynghorau tref / cymuned.

Nododd aelod nad oedd rhestr o gyfarfodydd cynghorau cymuned ar gael yn unman. Atebodd yr Uwch Gyfreithiwr fod gan y Cyngor restr o glercod y cynghorau cymuned a bod rhaid cysylltu â hwy yn unigol. Awgrymwyd hefyd y gallai'r aelodau arsyllu ar we-ddarllediadau o gyfarfodydd Cyngor Gwynedd.

Cyflwynodd Miss Margaret Jones adborth yn dilyn arsyllu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanystumdwy gan nodi:-

- Bod y Cyngor Cymuned yn cyfarfod mewn gwahanol leoliadau, sydd i'w groesawu o safbwynt bod yn gynhwysol ac ystyried y gymuned gyfan.
- Bod ystod dda o'r gymuned yno, gyda'r oedran yn amrywio o 20 i 80, a merched yn bresennol.
- Bod y clerc yn effeithiol iawn, yn egluro popeth ac yn dilyn popeth i fyny.
- Bod y cyfarfod yn un trefnus a chynhwysfawr iawn.
- Bod yr agenda'n amrywiol, gyda 12 eitem, gan gynnwys un eitem eithriedig, dan ystyriaeth.
- Bod y clerc wedi sôn wrth yr aelodau am yr hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer gan y Swyddog Monitro.
- Bod y Cyngor Cymuned yn adrodd yn fisol i'r papur bro a bod hyn yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â gweithgarwch y Cyngor Cymuned.

Trafodwyd rhai materion cysylltiol, sef:-

- Rôl aelod sy'n dyst i achos o dorri'r Cod Ymddygiad. Nododd y Swyddog Monitro y gallai aelod ofyn i'r clerc roi arweiniad ar y mater neu gysylltu ag ef gan fod gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad yn y Cyngor hwn ac yn y cynghorau cymuned a thref. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai cyfrifoldeb yr aelod ei hun yw ymrwymo i'r Cod.
- Mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd y Cyngor. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd trefn i rwystro'r cyhoedd i mewn, ond yn ymarferol ac o safbwynt iechyd a diogelwch, na ellid cael sefyllfa lle mae adeiladau'r Cyngor yn gwbl agored.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.05pm.

___________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR IAITH 22/10/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd yn cadeirio)

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Charles W.Jones, Eric M. Jones, Sion Jones, Elfed Williams, Hefin Williams a John Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Garem Jackson (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Gweno Glyn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS – ENW PLAS GLYNLLIFON

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod y mater wedi codi ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor, bod y sefyllfa'n newid yn ddyddiol a'i bod yn bwysig cael safbwynt ffurfiol Pwyllgor Iaith y Cyngor ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Eglurodd y Cadeirydd y derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Siân Gwenllian i'r pwyllgor drafod mater enw Plas Glynllifon a gwahoddwyd yr aelod i ymhelaethu ymhellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Siân Gwenllian at adroddiadau diweddar yn y wasg ynglŷn â'r mater, gan nodi:-

- Er bod pawb yn credu bod cwmni MBi Sales, darpar brynwyr Plas Glynllifon, wedi ail-ystyried eu penderfyniad i farchnata'r plasty o dan yr enw Wynnborn, gan i'r enw ddiflannu oddi ar eu gwefan am gyfnod, bod yr enw Wynnborn yn ôl ar y wefan erbyn hyn a bod y plasty yn dal i gael ei farchnata o dan yr enw hwnnw.
- Iddi gyfarfod gyda chynrychiolydd o ochr weithredol y cwmni oedd wedi pwysleisio mai Wynnborn fyddai'r enw yn ystod y cyfnod marchnata o flwyddyn neu ddwy, ond y perygl oedd y byddai'r enw'n sefydlu'i hun yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Ei bod wedi gwneud cais am gyfarfod pellach gyda chynrychiolydd o ochr marchnata a gwerthiant y cwmni. 'Roedd Hywel Williams, AS, yn bwriadu rhoi cynnig ymlaen yn y Senedd ac 'roedd deiseb wedi cychwyn ar-lein.
- Bod y sefyllfa sydd ohoni'n tanlinellu'r angen am gynnwys cymal ynglŷn â'r Gymraeg yn Bil yr Amgylcheddol Hanesyddol sy'n cael ei ystyried gan bwyllgor o'r Cynulliad ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Ysgrifennu at gwmni MBi Sales i ddatgan ein safbwynt ynglŷn â'r defnydd o'r enw Wynnborn a gofyn iddynt a fyddent yn fodlon derbyn dirprwyaeth o'r Cyngor yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r aelod lleol.**
**(b) Paratoi datganiad i'r wasg ynglŷn â'n safbwynt.**

**(c) Anfon at y Gweinidog Iaith a'r Comisiynydd Iaith.**

**(ch) Cysylltu â Chadeirydd y pwyllgor yn y Cynulliad sy'n trafod Bil yr Amgylcheddol Hanesyddol i bwyso am gynnwys cymal ynglŷn â'r Gymraeg yn y bil, gan gysylltu â Chynghorau Môn a Cheredigion ar y pwynt yma hefyd, a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf, neu cyn hynny.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mehefin ac 8 Gorffennaf, 2015 (cyfarfod arbennig) fel rhai cywir.

**4. ADRODDIAD YMCHWILIAD IAITH – Y GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD**

(a) Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg mewn Cyfarfodydd gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Craig ab Iago, a gofynnwyd am ymateb yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg i'r argymhellion.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Grŵp Ymchwiliad am eu gwaith, gan nodi:-

- Ei fod yn croesawu'r adroddiad a bod yna elfennau cadarnhaol iawn ynddo.
- Bod yr argymhellion yn rhai y byddai'n eu dilyn, yn arbennig rhif 5, sy'n ymwneud â dylanwadu ar, nid yn unig gynghorau eraill, ond cyrff cyhoeddus hefyd, a hyderai y byddai modd gweithredu ar yr holl argymhellion o fewn chwe mis.
- Bod y gwaith gyda'r cyrff cyhoeddus yn mynd yn ei flaen drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac y gobeithid, wrth ddatblygu'r gwaith hwnnw, y byddai'r cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'r Bwrdd yn ymrwymo i ddefnyddio'r iaith.
- Bod y gwaith o gynnal awdit i'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y Cyngor ar fin cychwyn a diau y byddai yna adroddiad yn ôl ar hynny.
- Y byddai'n fodlon cyflwyno'r adroddiad gerbron Cabinet ffurfiol gan y byddai hynny'n atgyfnerthu'r argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Cyn ceisio dylanwadu ar gyrff y tu allan i'r sir, bod angen dylanwadu ar gyrff o fewn Gwynedd sy'n dal i weithredu drwy'r Saesneg, megis cynghorau cymuned a chyrff llywodraethol.
- Mai gwan oedd yr ymateb a gafwyd i'r holiadur gan y cyrff allanol, ond bod yr ymatebion i'r holiadur aelodau a swyddogion yn galonogol iawn.
- Bod yr ymchwiliad wedi cyflawni gwaith da ac wedi mynd dan groen y materion sydd angen sylw gan gyflwyno argymhellion clir i'r Aelod Cabinet.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion yr ymchwiliad a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Aelod Cabinet.**

(b) Ystyriwyd – dau awgrym ar gyfer yr ymchwiliad nesaf, sef:-

- Edrych ar ba mor weladwy yw'r iaith Gymraeg.
- Edrych ar sut mae'r gyfundrefn gynllunio yn hybu ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg.

Nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni:-

- y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, yn eu cyfarfod nesaf, yn cymryd trosolwg o'r sefyllfa o ran cynllunio a'r iaith Gymraeg, a heb ragdybio, 'roedd posibilrwydd y gallai hynny arwain at ymchwiliad ganddynt hwy maes o law.
- Y gellid anfon neges at y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddweud bod y Pwyllgor Iaith yn awyddus i gefnogi unrhyw waith a gyflawnir ganddynt yn y maes.

**PENDERFYNWYD nodi dymuniad i edrych ar y maes pa mor weladwy yw'r Gymraeg a gweithio ar friff ar gyfer ymchwiliad. Yn y cyfamser, cynnal trafodaeth gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â beth sy'n digwydd nesaf o ran cynllunio a'r iaith Gymraeg ac awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen gyda'r naill neu'r llall, neu'r ddau, os yw'r capasiti yn caniatáu hynny.**

**5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y gwaith sy'n mynd ymlaen yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yr awdit i'r defnydd o'r iaith Gymraeg, sefydlu'r ganolfan iaith newydd ym Mangor, y gwaith sy'n mynd rhagddo o ran y gweithlu dwyieithog, y Siarter Iaith, ymateb cychwynnol i'r Safonau Iaith, cynllunio ieithyddol a phrosiect hyrwyddo'r iaith yn Nolgellau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**6. DIWEDDARIAD AR SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn nodi y derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau terfynol ar 30 Medi ac yn amgáu, er gwybodaeth, y safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 6 mis, ynghyd â chrynodeb o'r pwyntiau gweithredu.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Nad '*dewis'* iaith ddylai'r diffiniad fod yn y Safonau, ond yn hytrach '*yr iaith mae rhywun yn arfer ei siarad*' gan ei bod yn amlwg yn syth os ydi rhywun yn siarad Cymraeg ai peidio.
- Y bydd Cyngor Gwynedd yn mynd ymhellach na gofynion y Safonau oherwydd natur ieithyddol y sir hon.
- Bod angen gloywi iaith rhai o staff Galw Gwynedd sy'n dueddol o gyfeirio at rifau a misoedd y flwyddyn, ayb, yn Saesneg.
- Bod y Safonau wedi'u hanelu at gynghorau eraill nad ydynt, yn gyffredinol, yn talu sylw priodol i'r Gymraeg, a dylid ystyried apelio yn erbyn unrhyw Safon sy'n cyfarwyddo'r Cyngor hwn i gasglu gwybodaeth er mwyn profi rhywbeth sy'n amlwg yn barod, gan fod hynny'n wastraff arian i drigolion Gwynedd ac yn tynnu adnoddau oddi wrth y gwaith o hyrwyddo'r iaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyflwyno diweddariad i'r cyfarfod nesaf fydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw apêl fydd wedi'i chyflwyno yn y cyfamser yn erbyn unrhyw Safon a dybir sy'n parhau i fod yn anghymesur neu'n afresymol.**

**7. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn cyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymholiadau pellach yn ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol ac yn ceisio ymateb yr aelodau i'r materion canlynol a godir yn sgil yr adroddiad:-

- Trefn adrodd ar gwynion iaith – argymhellid na ddylai cwynion gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith nes y bydd unrhyw ymholiadau wedi'u cwblhau ac ymateb wedi ei anfon i'r achwynydd, os yn briodol.
- Trefn cofnodi sgiliau iaith staff – gofynnid i'r aelodau ystyried i ba raddau y dylai'r Cyngor fod yn cofnodi sgiliau iaith.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Ei bod yn fuddiol i'r aelodau glywed am unrhyw gwynion iaith sydd i law ac awgrymwyd y gellid cyflwyno dau gategori o gwynion i'r Pwyllgor Iaith yn y dyfodol, sef y rhai sydd wedi eu datrys a'r rhai sydd heb eu datrys.
- Er gwaethaf yr hyn mae'r Safonau'n ei ddweud, rhaid sefydlu trefn o gofnodi sgiliau iaith staff sydd â chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosib' yn perthyn iddi, ond sydd, ar yr un pryd, yn rhoi darlun synhwyrol i ni o alluoedd ieithyddol y staff, e.e. ydynt yn medru cynnal sgwrs, ysgrifennu adroddiad, ayb, yn Gymraeg, ac efallai bod angen gofyn hefyd pa mor gefnogol ydynt i'r Gymraeg.
- Y gallai'r wybodaeth ynglŷn â sgiliau a'r wybodaeth mwy meddal ynglŷn ag agwedd, ayb, fod o gymorth i dargedu gwaith y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn ymatebol fel ar hyn o bryd.

Llongyfarchwyd y Swyddog Datblygu Iaith ar ei gwaith trwyadl yng nghyswllt y mater hwn a materion ieithyddol eraill.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i adroddiad y Cyngor ac ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth bellach.**

**(b) Y dylid cyflwyno dau gategori o gwynion i'r Pwyllgor Iaith yn y dyfodol, sef y rhai sydd wedi eu datrys gan adrodd hefyd er gwybodaeth ar y rhai y mae'r adran yn parhau i ymchwilio iddynt.**

**(c) Y dylid edrych ar sefydlu trefn o gofnodi sgiliau iaith staff sydd â chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosib' yn perthyn iddi, ond sydd, ar yr un pryd, yn rhoi darlun synhwyrol i ni o sgiliau'r staff.**

## 8. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU – ADDYSG GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu – Addysg Gymraeg gan Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Nododd:-

- Yr ymchwiliwyd i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith yr awdurdod yn ysgolion y Sir a diolchodd i'w gyd-aelodau ar y grŵp, ynghyd a'r swyddogion, fu'n gweithio'n ddyfal dros gyfnod o 6-7 mis.
- Y cyflwynwyd adroddiad drafft yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 22 Medi ac y penderfynodd y pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg, gan ofyn iddo gyflwyno adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau ymhen chwe mis.

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg ymateb yr adran i'r adroddiad gan nodi:-

- Bod yr adran yn croesawu'r gwaith ac yn canmol ac yn cydnabod y gwaith aruthrol a gwblhawyd yn y maes hwn sy'n greiddiol i holl waith y gwasanaeth.
- Bod yr Aelod Cabinet Addysg wedi derbyn yr argymhellion a'r cam nesaf fyddai trafodaeth rhwng yr adran a'r Aelod Cabinet o ran ymarferoldeb gweithredu'r argymhellion.

- Bod y pwyllgor craffu wedi dod i lawer o'r un casgliadau â chwmni Trywydd, a gomisiynwyd i gyflawni gwaith yn y sector uwchradd.

Wrth drafod casgliadau'r ymchwiliad:-

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa ieithyddol yn ardal Bangor yn benodol ac effaith bositif y Siarter Iaith ar agwedd plant yr ardal tuag at y Gymraeg.
- Nodwyd bod plant yn gwneud cynnydd da yn y Canolfannau Hwyrddyfodiad ond mynegwyd rhwystredigaeth bod y gyrwyr cludiant i'r plant i ac o'r canolfannau hyn yn ddi-gymraeg. Mewn ymateb, nodwyd bod y sylw hwn wedi'i wneud yn y Pwyllgor Craffu hefyd a chadarnhawyd bod y Gwasanaeth Addysg yn ymchwilio i'r mater.
- Diolchwyd i aelodau'r ymchwiliad a'r swyddogion am eu gwaith trwyadl oedd wedi arwain at gyfres o argymhellion clir a phell gyrhaeddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Gan gyfeirio at y gŵyn am ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar wefan y bydd ysgolion yn cael eu cyfeirio ati gan y Llywodraeth i gael gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored (gwefan OEAP), nododd y Swyddog Datblygu Iaith ymhellach:-

- Bod ymateb uniaith Saesneg yr Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth i'r gŵyn yn egluro nad oedd y Llywodraeth o'r farn bod cyfrifoldeb arnynt i dalu am gyfieithu'r adnoddau gan mai gwefan allanol ydoedd.
- Y bwriedid anfon cŵyn at y Comisiynydd Iaith ynglŷn â'r ymateb uniaith Saesneg a dderbyniwyd i'r gŵyn.

Mynegodd aelod bryder nad oedd cyfieithydd yn bresennol mewn apêl cynllunio ym Mhorthmadog ar 13 Hydref yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod cais i godi tyrbin gwynt yn Llanaelhaearn. Cytunodd y swyddogion i wneud ymholiadau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm.

____________________________

**CADEIRYDD**